



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2012
Tuesday, 13 March 2012

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
32	Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer
33	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
38	Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru Statement: The Welsh Government's Response to the Children's Commissioner for Wales's Annual Report
52	Diwygio Budd-dal Tai Housing Benefit Reform
84	Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17 Welsh Language Strategy 2012-17
106	Cyfnod Pleidleisio Voting Time
119	Neges gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, Pennaeth y Gymanwlad A Message from Her Majesty The Queen, Head of the Commonwealth

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Prynawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

The Presiding Officer: Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Defnyddio Ffynonellau Amgen o Ynni

Alternative Sources of Energy

1. Nick Ramsay: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i annog defnyddio ffynonellau amgen o ynni mewn adeiladau cyhoeddus. OAQ(4)0409(FM)*

1. Nick Ramsay: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to encourage the use of alternative sources of energy within public buildings. OAQ(4)0409(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): Our first priority is to improve the energy efficiency of buildings, and to this end, we have invested a total of £5.9 million on a public sector invest-to-save energy efficiency programme over two years.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Ein blaenoriaeth gyntaf yw gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau ac, i'r perwyl hwn, rydym wedi buddsoddi cyfanswm o £5.9 miliwn mewn rhaglen effeithlonrwydd buddsoddi-i-arbed yn y sector cyhoeddus dros gyfnod o ddwy flynedd.

Nick Ramsay: I am sure the First Minister is aware that Welsh Conservative-controlled Monmouthshire County Council has submitted planning applications to install photovoltaic installations on 10 of the council buildings, which will bring significant financial savings through reduced utility bills, and will help the environment. This comes at the same time as the council's freezing of council tax this year. I am sure you will join me in welcoming the efforts of Conservative Monmouthshire in doing this. Will you tell us how you intend to roll out this environmental best practice across the whole of Wales?

Nick Ramsay: Rwyf yn sicr bod y Prif Weinidog yn ymwybodol bod Cyngor Sir Fynwy, cyngor a reolir gan y Ceidwadwyr Cymreig, wedi cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer gosod paneli ffotofoltäig ar 10 o adeiladau'r cyngor. Bydd y cynlluniau hyn yn arwain at arbedion ariannol sylweddol drwy ostwng biliau cyfleustodau, a byddant yn helpu'r amgylchedd. Daw hyn ar yr un pryd â phenderfyniad y cyngor i rewi'r dreth gyngor eleni. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu ymdrechion Sir Fynwy o dan y Ceidwadwyr yn y cyd-destun hwn. A wnewch chi ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu ymestyn yr arfer amgylcheddol orau hon ledled Cymru?

The First Minister: It is not for me to comment on individual planning applications, as the Member knows, but I welcome the commitment shown by any local authority to reduce its carbon footprint and encourage the use of renewable energy. I am glad, of course, that Monmouthshire council is following the lead of Labour Bridgend in freezing council tax this year.

Y Prif Weinidog: Nid fy lle i yw gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio unigol, fel y gŵyr yr Aelod, ond rwyf yn croesawu'r ymrwymiad a ddangosir gan unrhyw awdurdod lleol i leihau ei ôl-troed carbon ac rwyf yn annog y defnydd o ynni adnewyddadwy. Rwyf yn falch, wrth gwrs, fod Cyngor Sir Fynwy yn dilyn arweiniad y Blaid Lafur yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ran rhewi'r dreth gyngor eleni.

Leanne Wood: With fuel prices fast rising over the last decade, more efficient use of our energy in public buildings is not only desirable but essential. It was therefore disappointing that the gas-fuelled power station in Pembrokeshire was given the go ahead despite strong objections from the Countryside Council for Wales based on the potential impact of waste heat on a special area of conservation. Apart from jeopardising the local environment, the planning consent was not a sustainable decision as there was no insistence on using that waste heat. Will you give us an undertaking that you, and your minority Government, will do everything in your power to ensure that second-rate technology will not be allowed on projects like this in the future?

The First Minister: It has received permission following due consideration by the Environment Agency and the Countryside Council for Wales, and I very much bear in mind that there are a substantial number of people who work there who will have listened very carefully to your words.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ(4)0418(FM), has been withdrawn.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Diolch yn fawr iawn, Lywydd, a diolch am y cyfle i gyfrannu, Brif Weinidog, at fy sesiwn gwestiynau olaf fel arweinydd Plaid Cymru.

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi fod y Cynulliad hwn wedi cryfhau ac aeddfedu yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, ac nid yn lleiaf, wrth gwrs, oherwydd y penderfyniad i sicrhau pwerau deddfu llawn flwyddyn yn ôl. Gan fod mwyafrif clir o bobl Cymru erbyn hyn yn credu mai'r sefydliad hwn a ddylai wneud y penderfyniadau pwysig yn y meysydd polisi sydd heb eu datganoli, a ydych yn cytuno â mi ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n parhau â'r ymgyrch i gryfhau'r sefydliad hwn?

Leanne Wood: Gyda phrisiau tanwydd wedi codi'n gyflym dros y degawd diwethaf, mae defnyddio ein hynni mewn modd mwy effeithlon yn ein hadeiladau cyhoeddus nid yn unig yn ddymunol ond yn hanfodol. Felly, roedd yn siomedig bod yr orsaf bŵer nwy yn Sir Benfro wedi cael ei chymeradwyo er gwaethaf y gwrthwynebiad cryf a gafwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yn seiliedig ar effaith bosibl gwres gwastraff ar ardal gadwraeth arbennig. Ar wahân i'r mater o beryglu'r amgylchedd lleol, nid oedd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn un cynaliadwy gan na fynnwyd y dylid defnyddio'r gwres gwastraff. A wnewch chi addo y byddwch chi, a'ch Llywodraeth leiafrifol, yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau na chaniateir defnyddio technoleg eilradd ar gyfer prosiectau fel hyn yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Mae'r prosiect hwn wedi cael caniatâd yn dilyn ystyriaeth ddyledus gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, ac rwyf yn ymwybodol y bydd nifer sylweddol o'r bobl sy'n gweithio yno wedi gwrandao'n astud ar eich geiriau.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ(4)0418(FM), yn ôl.

Questions Without Notice from the Party Leaders

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Thank you very much, Presiding Officer, and thank you, First Minister, for the opportunity to contribute to what is my last question time as the leader of Plaid Cymru.

Does the First Minister agree with me that this Assembly has matured and become stronger over the past 12 years, not least because of the decision to secure full law-making powers a year ago? Given that a clear majority of the people of Wales now believes that it is this institution that should make the important decisions in policy areas that are currently non-devolved, do you agree that it is important that we continue with the campaign to strengthen this institution?

Y Prif Weinidog: Dechreuaf drwy roi teyrnged i arweinydd Plaid Cymru am ei wasanaeth i Gymru ac i'w blaid, ac fel rhywun a oedd yn gymydog mewn Llywodraeth am bedair blynedd. Am ddwy flynedd diwethaf y Llywodraeth honno, roedd y ddau ohonom yn delio gyda thonnau llywodraeth glymblaid wrth gwrs. Darllenais fod arweinydd Plaid Cymru wedi gofyn 639 o gwestiynau i'r Prif Weinidog yn ystod ei amser yn y Siambr. Gobeithiaf ei fod wedi cael rhai atebion cywir o leiaf i'w gwestiynau yn ystod yr amser hwnnw. Unwaith eto, diolchaf iddo am yr hyn y mae wedi'i wneud yn y Siambr, fel rhywun sy'n cael ei barchu ar draws y pleidiau, a dymunaf yn dda iddo i'r dyfodol.

I ateb y cwestiwn, yr wyf yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â'i farn bod Cymru wedi symud ymlaen yn fawr iawn er 1999; gwelsom hynny yn ystod y refferendwm y llynedd. Yn awr, mae'n rhaid inni ystyried y camau nesaf ymlaen i gryfhau'r Cynulliad ac i gryfhau Cymru.

Ieuan Wyn Jones: Diolch yn fawr i chi, Brif Weinidog, ac rwy'n gwerthfawrogi'r geiriau hynod o garedig rydych wedi'u mynegi y prynhawn yma.

Although there will be differences between the parties on the pace and extent of change in securing greater powers for the National Assembly, does the First Minister agree that we should not be seeking constitutional change for its own sake—it should not be an end in itself—but that all of us should share an aspiration to improve the lives of the people of Wales, to steer a course through these difficult economic times, to strengthen our economy, to make our health service the best it can be and to ensure that our children have the best start in their lives through having an education system of which we can all be proud?

The First Minister: Yes, I do. I believe that the case has been made in many areas for further devolution of powers that could be used for the benefit of the people of Wales. We have discussed at length in the Chamber the issue of borrowing and issues around the devolution of some taxation; there will be

The First Minister: I begin by paying tribute to the leader of Plaid Cymru for his service to Wales and to his party, and as someone who was a partner in Government for four years. For the last two years of that Government, we both dealt with the inevitable waves of a coalition government. I read that the leader of Plaid Cymru has asked 639 questions of the First Minister during his time in this Chamber. I would hope that some of the answers he received during that period were the right ones. Once again, I thank him for what he has done in this Chamber, as someone who commands the respect of all the parties here, and I wish him well for the future.

To answer his question, I agree completely with his view that Wales has progressed a great deal since 1999; this was evidenced by last year's referendum. We now need to consider the next steps forward so that the Assembly and Wales are strengthened further.

Ieuan Wyn Jones: Thank you very much, First Minister, and I appreciate your kind words this afternoon.

Er y bydd gwahaniaethau rhwng y pleidiau o ran cyflymder a hyd a lled y newidiadau yr ydym am eu gweld, mewn perthynas â sicrhau mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno na ddylem fod yn ceisio cael newid cyfansoddiadol er ei fwyn ei hyn—ni ddylai fod yn ddiben ynddo'i hun—ond y dylai pob un ohonom rannu'r dyhead i wella bywydau pobl Cymru, i lywio llwybr drwy'r cyfnod economaidd anodd hwn, i gryfhau ein heconomi, i sicrhau bod gennym y gwasanaeth iechyd gorau posibl, ac i sicrhau bod ein plant yn cael y dechrau gorau yn eu bywydau drwy gael system addysg y gall pob un ohonom fod yn falch ohono?

Y Prif Weinidog: Ydwyf, rwyf yn cytuno â hynny. Credaf fod yr achos wedi cael ei wneud mewn nifer o feysydd ar gyfer datganoli rhagor o bwerau y gellid eu defnyddio er budd pobl Cymru. Rydym wedi trafod y mater o fenthycu a materion yn ymwneud â datganoli rhai pwerau trethi yn

different views as to how far that should go, but I believe that we all agree that we should move in that direction. Secondly, there are issues such as the devolution of energy consents, which I believe—as do others in the Chamber—could potentially bring investment and jobs to Wales. There are many areas where further devolution would be of benefit to the Welsh people. It is far from being a case of simply achieving powers for the sake of it; there are clear demonstrations of where powers could be gained by this institution and used for the benefit of our people.

Ieuan Wyn Jones: Rydych eisoes wedi cydnabod ac wedi derbyn mai hwnnw oedd y cwestiwn olaf i mi ei ofyn fel arweinydd, wedi imi ofyn 639. Rydych wedi awgrymu bod rhai o'r atebion wedi bod yn dda ac yn ddoeth, ac rwy'n siŵr y byddech yn cydnabod bod rhai o'r cwestiynau hefyd wedi mynd i'r un cyfeiriad. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu cwrteisi a'u hynawsedd. Mae wedi bod yn fraith aruthrol i mi gyflawni swydd mor allweddol yng ngwleidyddiaeth Cymru ac i chwarae rhan yn sefydliad a datblygiad y Senedd gyntaf y mae Cymru wedi'i chael ers chwe chanrif. Ni allai neb fod wedi gofyn am fwy na hynny.

Y Prif Weinidog: Ni allaf ond ategu beth mae Ieuan wedi'i ddweud. Rydym oll yn dymuno'n dda iddo yn ystod weddill ei amser yn y Cynulliad a'r blynyddoedd i ddod.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): With your indulgence, Presiding Officer, I pay tribute to the leader of Plaid Cymru for the service that he has given to his country, this institution—which, as he quite rightly identified, has matured over the years in the time that he has been here, since 1999, to the present day and, hopefully, for the rest of this Assembly term—and to the people of Anglesey, who he has served with such diligence. I know that Plaid Cymru greatly benefited from his stewardship as leader, and I was grateful to receive his very kind words when I was elected leader of the Welsh Conservative group at the Assembly. I look forward to continuing to work with him in this

helaeth yn y Siambr; bydd safbwyntiau gwahanol ynghylch pa mor bell y dylai'r broses honno fynd, ond credaf fod pob un ohonom yn cytuno y dylem symud i'r cyfeiriad hwnnw. Yn ail, mae materion fel datganoli'r broses o roi caniatâd mewn perthynas ag ynni yn bodoli. Credaf—fel y cred rhai Aelodau eraill yn y Siambr—y gallai datganoli'r pwerau hyn ddod â buddsoddiad a swyddi i Gymru. Mae nifer o feysydd lle byddai datganoli pellach o fudd i bobl Cymru. Mae'r achos hwn ymhell o fod yn achos o geisio cael pwerau er ei fwyn ei hun; mae tystiolaeth glir ynghylch y meysydd y gallai'r sefydliad hwn gael pwerau newydd ynddynt a'u defnyddio er budd ein pobl.

Ieuan Wyn Jones: You have already acknowledged and accepted that that was my last question to you as leader, having asked 639. You suggested that some of the answers have been comprehensive and wise, and I am sure that you would agree that some of the questions have been in that vein. I would like to take this opportunity to thank everyone for their courtesy and geniality. It has been a huge privilege for me to take such a key role in Welsh politics and to play a part in the inception and development of the first Parliament that Wales has had for six centuries. No-one could have asked for more than that.

The First Minister: I can only endorse everything that Ieuan has said. We all wish him well for the rest of his time in the Assembly and for the ensuing years.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Gyda'ch goddefgarwch, Lywydd, hoffwn dalu teyrnged i arweinydd Plaid Cymru am y gwasanaeth y mae wedi'i roi i'w wlad, i'r sefydliad hwn—sydd, fel y nododd yn gywir, wedi aeddfedu yn ystod y blynyddoedd y bu yma, ers 1999, a gobeithiaf y bydd yn parhau i aeddfedu am weddill tymor presennol y Cynulliad—ac i bobl Ynys Môn, sef y bobl y mae wedi'u gwasanaethu gyda'r fath ddiwydrwydd. Gwn fod Plaid Cymru wedi elwa'n fawr ar ei stiwardiaeth fel arweinydd, ac roeddwn yn ddiolchgar i glywed ei eiriau caredig iawn pan gefais fy ethol yn arweinydd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad. Rwyf yn edrych ymlaen at barhau i weithio gydag ef yn y

institution for the betterment of Wales.

First Minister, how many Bills has your Government submitted to this institution for scrutiny since its election?

The First Minister: The leader of the opposition well knows that Bills have been submitted and other Bills are currently in White Paper form.

Andrew R.T. Davies: First Minister, you know full well that you have submitted only one Bill for scrutiny and approval by this institution. A similar Government within the United Kingdom—the Scottish Government—has submitted 10 Bills to the Scottish Parliament. Surely, this is a level of inactivity that shows your Government's lethargy in its inability to use its new powers for the benefit of the people of Wales. Why is it that your Government has been so slow to use the tools that the people of Wales conferred on you at last year's referendum?

The First Minister: Look at what has been done regarding the economic stimulus package that has been announced by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. A great deal of work has been put into bringing White Papers forward for consultation. These White Papers include important legislation such as the organ donation Bill, which cannot be rushed and has to be brought forward in detail for full scrutiny on the floor of this house.

Andrew R.T. Davies: First Minister, it is a fact that the Government elected in Scotland has brought 10 Bills before the Scottish Parliament for its consideration. Your Government has chosen to bring one Bill only. You have spoken time and again about Scottish independence, constitutional reform and constitutional convention, and yet you have failed to use the tools that your Government was given. In fact, you have spoken so much about Scottish independence that I thought you might have been a late entrant to the Plaid Cymru leadership contest. What we need from your Government is activity to ensure that the tools that the people of Wales conferred on this institution, and that this institution conferred on your

sefydliad hwn er lles Cymru.

Brif Weinidog, sawl Bil y mae eich Llywodraeth, ers cael ei hethol, wedi'u cyflwyno er mwyn i'r sefydliad hwn graffu arnynt?

Y Prif Weinidog: Gwŷr arweinydd yr wrthblaid yn iawn fod Biliau wedi'u cyflwyno a bod Biliau eraill ar ffurf Papurau Gwyn yn cael eu llunio ar hyn o bryd.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, gwyddoch yn iawn eich bod wedi cyflwyno un Bil yn unig i'r sefydliad hwn graffu arno a'i gymeradwyo. Mae Llywodraeth debyg o fewn y Deyrnas Unedig—Llywodraeth yr Alban—wedi cyflwyno 10 Bil i Senedd yr Alban. Onid yw hon yn lefel o segurddod sy'n dangos syrthni eich Llywodraeth, o ran ei hanallu i ddefnyddio ei phwerau newydd er budd pobl Cymru? Pam mae eich Llywodraeth wedi bod mor araf i ddefnyddio'r arfau a roddwyd i chi gan bobl Cymru yn y refferendwm y llynedd?

Y Prif Weinidog: Edrychwch ar yr hyn a wnaed ynghylch y pecyn cymorth i hybu'r economi a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Gwnaed llawer o waith ynghylch cyflwyno Papurau Gwyn fel y gellir ymgynghori arnynt. Mae'r Papurau Gwyn hyn yn cynnwys deddfwriaeth bwysig fel y Bil rhoi organau. Ni ellir rhuthro'r Bil hwnnw, ac mae'n rhaid ei gyflwyno mewn manylder er mwyn craffu arno'n llawn ar lawr y Siambr.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, mae'n ffaith bod y Llywodraeth etholedig yn yr Alban wedi dod â 10 Bil gerbron Senedd yr Alban er mwyn iddi eu hystyried. Mae eich Llywodraeth chi wedi dewis dod ag un Bil yn unig. Rydych wedi siarad dro ar ôl tro am annibyniaeth yr Alban, diwygio cyfansoddiadol a chonfensiwn cyfansoddiadol, ac eto rydych wedi methu â defnyddio'r arfau a roddwyd i'ch Llywodraeth. Yn wir, rydych wedi siarad cymaint am annibyniaeth yr Alban fel fy mod wedi tybio efallai eich bod yn ymgeisydd hwyr i'r ornest am arweinyddiaeth Plaid Cymru. Yr hyn yr ydym ei angen gan eich Llywodraeth yw gweithgarwch i sicrhau bod yr arfau a roddwyd i'r sefydliad hwn gan

Government, to bring forward legislation, will ultimately allow the people of Wales to benefit from legislation. Is this not a damning indictment of the inactivity of your Government, and more so of the delivery unit that you talk so much about delivering for the people of Wales?

The First Minister: The leader of the opposition has now become an apologist for the SNP—something I did not think I would see on the floor of the Chamber. I wonder sometimes whether I should include a tribute to him, just in case this is his last session of questions to the First Minister. We never know about this from week to week, given what we read in the papers, including what has been written about him by his own colleagues. The reality is that we have brought forward legislation for the benefit of the people of Wales, and we have avoided legislation that is controversial and wrong, unlike other Governments elsewhere in the UK.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): I will also take this opportunity to pay tribute to the steadfast and unstinting work of Ieuan Wyn Jones, in representing the community of Ynys Môn, in working for Wales and in ensuring that the early years of the devolution project have been as successful as they have. He has played no small part in achieving that.

Ieuan, I would also like to thank you for your personal kindness and the courtesy that you have shown me since I became an Assembly Member in 1999, and especially during our working relationship since I became leader of the Liberal Democrats some two years ago. I would also like to wish you well during your remaining years on the backbenches. I suspect and hope that you will be equally as troublesome as those who have previously moved to the backbenches have been to those who have followed them. *[Laughter.]*

First Minister, on 2 February 2011, we were told by your Minister for Education and Skills that he was setting ‘some clear targets’ for our education system. He said that we should aim to be in the top 20 of the school

bobl Cymru, a’r arfau a roddwyd gan y sefydliad hwn i’ch Llywodraeth, yn y pen draw yn caniatáu i bobl Cymru elwa ar deddfwriaeth. Onid yw hyn yn feirniadaeth hallt o segurdod eich Llywodraeth, ac yn fwy felly o’r uned gyflenwi yr ydych yn siarad cymaint amdani o ran cyflawni ar ran pobl Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae arweinydd yr wrthblaid bellach yn gwneud esgusodion dros yr SNP—nid oeddwn yn meddwl y byddwn yn gweld hynny ar lawr y Siambr. Rwyf yn pendroni weithiau a ddylwn gynnwys teyrnged iddo ef, rhag ofn mai hon yw ei sesiwn olaf o gwestiynau i’r Prif Weinidog. Ni wyddom am hyn o wythnos i wythnos, o ystyried yr hyn yr ydym yn ei ddarllen yn y papurau, gan gynnwys yr hyn sy’n cael ei ysgrifennu amdano gan ei gydweithwyr ei hun. Y gwir amdani yw ein bod wedi cyflwyno deddfwriaeth er budd pobl Cymru, ac rydym wedi osgoi deddfwriaeth sy’n ddadleuol ac yn anghywir, yn wahanol i Lywodraethau eraill yn y DU.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Byddaf hefyd yn cymryd y cyfle hwn i dalu teyrnged i waith cadarn a diflino Ieuan Wyn Jones, o ran cynrychioli cymuned Ynys Môn, gweithio ar ran Cymru a sicrhau bod blynyddoedd cynnar y prosiect datganoli wedi bod mor llwyddiannus. Mae wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o gyflawni hynny.

Ieuan, hoffwn hefyd ddiolch ichi am eich caredigrwydd personol a’r cwrteisi yr ydych wedi’i ddangos imi ers imi ddod yn Aelod Cynulliad yn 1999, ac yn enwedig yng nghyd-destun ein perthynas waith ers imi ddod yn arweinydd ar y Democratiaid Rhyddfrydol tua dwy flynedd yn ôl. Hoffwn hefyd ddymuno’n dda ichi yn ystod y blynyddoedd sy’n weddill ichi ar y meinciau cefn. Rwyf yn amau ac yn gobeithio y byddwch yr un mor drafferthus ag y bu’r rhai sydd wedi symud eisoes i’r meinciau cefn i’r rhai sydd wedi’u dilyn. *[Chwerthin.]*

Brif Weinidog, ar 2 Chwefror 2011, dywedodd eich Gweinidog Addysg a Sgiliau wrthym ei fod yn gosod ‘rhai targedau clir’ ar gyfer ein system addysg. Dywedodd y dylem anelu i fod yn y 20 uchaf o’r systemau ysgol

systems measured in the Programme for International Student Assessment scores in 2015. Is that still your Government's target, and could you give us an interim target for where you expect us to be in the 2012 PISA scores?

The First Minister: Yes, that is our target; in 2015, we expect to fulfil it.

Kirsty Williams: First Minister, I am glad that you have confirmed your target for 2015. However, as you know, there will be further PISA assessments this year. Your Minister for education said last week:

'Most of our reforms, of course, would not have kicked in with a sufficient degree of time elapsed to make a real improvement'

by 2013. First Minister, is this an example of your Government getting its excuses in early? I give you another opportunity to state now what your targets are for the 2012 PISA assessment.

The First Minister: As I said, the Minister for education has looked at 2015 as the target, and I do not think that anyone could suggest that the Minister for education has sat back. He has been extremely active in ensuring that we have a suitable and strong education system in the years to come.

Kirsty Williams: By your lack of an answer, I take it that your Government has no targets for the 2012 PISA assessment. The Minister for education, to whom you have just referred, warned in a keynote speech that local authorities have a year to start demonstrating that they were delivering, and that if they had not shown signs of delivering, a more radical restructuring of education delivery on a regional basis should follow. First Minister, if you expect education authorities to turn things around in one year, can we not expect your Minister for education to improve our PISA results in three years, and if he does not, will you radically restructure him?

sy'n cael eu mesur drwy sgoriau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn 2015. A yw hwn yn parhau i fod yn darged i'ch Llywodraeth, ac a allwch chi roi targed dros dro inni ar gyfer lle rydych yn disgwyl inni fod o ran sgoriau PISA yn 2012?

Y Prif Weinidog: Ie, dyna yw ein targed; yn 2015, rydym yn disgwyl ei gyflawni.

Kirsty Williams: Brif Weinidog, rwyf yn falch eich bod wedi cadarnhau eich targed ar gyfer 2015. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, bydd asesiadau pellach ar gyfer PISA yn cael eu cynnal eleni. Yr wythnos diwethaf, dywedodd eich Gweinidog addysg:

Wrth gwrs, ni fyddai digon o amser wedi mynd heibio i'r rhan fwyaf o'n diwygiadau wneud gwelliant gwirioneddol

erbyn 2013. Brif Weinidog, a yw hyn yn enghraifft o'ch Llywodraeth yn gwneud ei hesgusodion yn gynnar? Rwyf yn rhoi cyfle arall ichi ddatgan yn awr beth yw eich targedau ar gyfer yr asesiad PISA yn 2012.

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais, mae'r Gweinidog addysg wedi pennu targed ar gyfer 2015, ac ni chredaf y gallai unrhyw un awgrymu bod y Gweinidog addysg wedi gorffwys ar ei rwyfau. Bu'r Gweinidog yn weithgar iawn o ran sicrhau y bydd gennym system addysg addas a chryf yn y blynyddoedd i ddod.

Kirsty Williams: Yn sgîl eich diffyg ateb, cymeraf nad oes gan eich Llywodraeth unrhyw dargedau ar gyfer yr asesiad PISA yn 2012. Mae'r Gweinidog addysg, sef y Gweinidog yr ydych newydd gyfeirio ato, wedi rhybuddio mewn araith bod gan awdurdodau lleol flwyddyn i ddechrau dangos eu bod yn cyflawni, ac os nad ydynt yn dangos arwyddion o gyflawni, y dylid ailstrwythuro'r ddarpariaeth addysg mewn modd mwy radical, ar sail system ranbarthol. Brif Weinidog, os ydych yn disgwyl i awdurdodau addysg wyrdroi pethau mewn blwyddyn, oni ddylem ddisgwyl i'ch Gweinidog addysg wella'n canlyniadau PISA mewn tair blynedd, ac os nad yw'n gwneud hynny, a wnewch chi ailstrwythuro'r Gweinidog mewn modd radical?

The First Minister: He has said that 2015 is the target and that is the target by which we stand. Local education authorities are, of course, in the front line of delivering education services, and that is why we expect them to demonstrate improvement very quickly. That is perfectly reasonable, and we will keep the target that we have announced.

The Presiding Officer: I would like to add my personal thanks to Ieuan Wyn Jones. I think that he has led his party with charm and wit—an exemplar to other leaders, if I may say. I look forward to you being on the backbenches and setting a good example to the others.

1.45 p.m.

Cefnogaeth ar gyfer Pobl Hŷn sy'n Gadael Gofal Ysbyty

3. Ann Jones: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl hŷn sy'n gadael gofal ysbyty. OAQ(4)0410(FM)*

The First Minister: We issued guidance for health boards and local authorities emphasising the importance of the effective management of the hospital discharge process for older people and the need to ensure that appropriate support services are available to them when they return home.

Ann Jones: Thank you for that, First Minister. Age Cymru is operating a Home from Hospital scheme and I recently met volunteers from the British Red Cross to discuss its Gofal project, which is a befriending scheme that has supported around 150 people in my constituency to get back into community life after being discharged from hospital. Do you agree that social services are often essential in the discharging process and that savage Tory cuts to the budgets of English local authorities will hit older people hardest and will overwhelm the dedicated volunteers of both Age Cymru and the British Red Cross?

The First Minister: There will be many

Y Prif Weinidog: Mae'r Gweinidog wedi dweud mai 2015 yw'r targed, a dyna'r targed yr ydym yn glynu ato. Mae awdurdodau addysg lleol, wrth gwrs, yn y rheng flaen o ran darparu gwasanaethau addysg, a dyna pam rydym yn disgwyl iddynt ddangos tystiolaeth o welliant yn gyflym iawn. Mae hynny'n berffaith resymol, a byddwn yn glynu at y targed yr ydym wedi'i gyhoeddi.

Y Llywydd: Hoffwn ychwanegu fy niolech personol i Ieuan Wyn Jones. Credaf ei fod wedi arwain ei blaid mewn modd hynaws a ffraeth—mae'n esiampl i arweinwyr eraill, os caf ddweud. Edrychaf ymlaen at eich gweld ar y meinciau cefn ac yn gosod esiampl dda i'r lleill.

Support for Older People Leaving Hospital Care

3. Ann Jones: *What is the Welsh Government doing to support older people leaving hospital care. OAQ(4)0410(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi rhoi canllawiau i'r byrddau iechyd ac i awdurdodau lleol yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli'r broses rhyddhau o'r ysbyty ar gyfer pobl hŷn yn effeithiol a'r angen i sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol ar gael iddynt pan fyddant yn dychwelyd adref.

Ann Jones: Diolch am hynny, Brif Weinidog. Mae Age Cymru yn gweithredu cynllun dychwelyd adref o'r ysbyty ac, yn ddiweddar, cyfarfûm â gwirfoddolwyr y Groes Goch Brydeinig i drafod ei brosiect Gofal, sef cynllun cyfeillio sydd wedi cefnogi tua 150 o bobl yn fy etholaeth i dychwelyd i fywyd yn y gymuned ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. A ydych yn cytuno bod gwasanaethau cymdeithasol yn aml yn hanfodol yn y broses rhyddhau o'r ysbyty ac y bydd toriadau llym y Torïaid i gyllidebau awdurdodau lleol yn Lloegr yn effeithio fwyaf ar bobl hŷn ac yn gorlethu gwirfoddolwyr ymroddedig Age Cymru a'r Groes Goch Brydeinig ill dau?

Y Prif Weinidog: Bydd nifer o bobl, pan

people who, when looking at the service changes proposed in England, will be very grateful indeed that they live in Wales.

Mark Isherwood: Reablement, namely maximising the ability of people to live as independently as possible, can generate significant savings by reducing hospital admissions and readmissions. I recently had the pleasure of joining a WRVS lunch club in Holyhead with a number of older people who were certainly able and had benefited from reablement. How, therefore, does the Welsh Government respond to the call by the Welsh Reablement Alliance for the importance of social as well as physical interventions to be recognised and for the need for consistent levels of reablement across Wales?

The First Minister: That is a very important point. People are sociable and need company, and if people have company, they tend to be brighter in themselves and their spirits are lifted. It is exceptionally important that, as people are assisted, if they become frail or if they are going through rehabilitation, they are able to have company as well as help, if I can put it that way. That is an extremely important part of the process of dealing with people as they get older, in every phase.

Christine Chapman: First Minister, the Welsh-Government-funded rapid response adaptation programme provided by Care and Repair Cymru is supporting more older people than ever in my constituency. The local office has told me that 73% of referrals in Rhondda Cynon Taf helped people to return to their homes from hospital. Do you agree, First Minister, that, by investing in more preventive measures, we can not only help older people to live safely at home, but also significantly reduce the need for hospital admissions?

The First Minister: Yes, absolutely. People naturally want to be at home rather than in hospital. The work that is being done there is an example of assisting people to return home and to spend their lives at home rather than being in a hospital setting, because,

fyddant yn edrych ar y newidiadau i'r gwasanaeth a gynigir yn Lloegr, yn ddiolchgar iawn eu bod yn byw yng Nghymru.

Mark Isherwood: Gall ailalluogi, sef galluogi pobl i fyw mor annibynnol ag y bo modd, greu arbedion sylweddol drwy leihau nifer y bobl sy'n cael eu derbyn a'u haillderbyn i'r ysbyty. Yn ddiweddar, cefais y pleser o ymuno â chlwb cinio'r WRVS yng Nghaergybi gyda nifer o bobl hŷn a oedd yn sicr yn abl ac wedi elwa ar ailalluogi. Sut, felly, mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r alwad gan Gynghrair Ailalluogi Cymru i gydnabod pwysigrwydd ymyriadau cymdeithasol, yn ogystal â rhai corfforol, ac am yr angen am lefelau cyson o ailalluogi ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Mae pobl yn fodau cymdeithasol ac mae angen cwmni arnynt, ac os oes gan bobl gwmmi, maent yn tueddu i fod yn hapusach ac yn uwch eu hysbryd. Wrth i bobl gael cymorth, os ydynt yn mynd yn fregus neu os ydynt yn mynd drwy gyfnod o adsefydlu, mae'n eithriadol o bwysig eu bod yn gallu cael cwmni yn ogystal â chymorth, os gallaf ei fynegi felly. Mae hynny'n rhan bwysig iawn o'r broses o ymdrin â phobl wrth iddynt fynd yn hŷn, ym mhob cyfnod.

Christine Chapman: Brif Weinidog, mae'r rhaglen addasu ymateb cyflym, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir gan Gofal a Thrwsio Cymru, yn cefnogi mwy o bobl hŷn nag erioed yn fy etholaeth. Mae'r swyddfa leol wedi dweud wrthyf fod 73% o'r atgyfeiriadau yn Rhondda Cynon Taf wedi helpu pobl i ddychwelyd i'w cartrefi o'r ysbyty. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, y gallwn, drwy fuddsoddi mewn mesurau mwy ataliol, nid yn unig helpu pobl hŷn i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi, ond hefyd lleihau'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty yn sylweddol?

Y Prif Weinidog: Ydw, yn hollol. Yn naturiol, mae pobl am fod gartref yn hytrach nag yn yr ysbyty. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yno yn enghraifft o helpu pobl i ddychwelyd adref ac i dreulio eu bywydau gartref yn hytrach nag yn yr ysbyty,

although the hospital will provide excellent care, it is never the same as being at home. Therefore, the example that you gave is a wonderful example of that.

Lindsay Whittle: First Minister, to what extent can the Gwent frailty programme be regarded as a model of integrated community-based care for older people? How can you ensure that the rest of Wales benefits from this best practice?

The First Minister: It is indeed a fantastic example. I have visited the project and have seen the good work that it does in bringing together different services for the benefit of people in the community. I certainly urge all local authorities in Wales to look at the Gwent frailty project and to see it as a good example of what can be done with the kind of cross-institutional working that we need to deliver a better service for our people.

Keith Davies: Brif Weinidog, ymwelais yn ddiweddar â thîm ymateb aciwt sir Gâr yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli, sy'n darparu gwasanaethau iechyd yng nghartrefi cleifion. Flwyddyn ddiwethaf, derbyniwyd triniaeth gartref gan 420 o bobl, gyda henoed ymysg y rhai a rwystrwyd rhag cael arhosiad hir yn yr ysbyty. Gwasanaeth arloesol yw hwn, sy'n rhoi Ysbyty Tywysog Philip ar y blaen o ran darpariaeth iechyd yn y cartref yng ngorllewin Cymru. A ydych yn cytuno â mi, yn y sefyllfaoedd priodol, bod hon yn enghraifft dda o osgoi arosiadau hir yn ein hysbytai?

Y Prif Weinidog: Rwy'n cyd-fynd â hynny. Mae'n enghraifft dda dros ben ac mae'r rhaglen yn debyg i'r rhaglen yng Ngwent. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisiau gweld arfer da fel hwn yn cael ei rollo mas dros Gymru, yn enwedig, wrth gwrs, yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

Blaenoriaethau ar gyfer Aberafan

4. David Rees: *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Aberafan yn 2012. OAQ(4)0411(FM)*

The First Minister: Our priorities are set out

oherwydd er y bydd yr ysbyty yn darparu gofal ardderchog, nid fydd byth yr un fath â bod gartref. Felly, mae'r enghraifft a roesoch yn enghraifft wych o hynny.

Lindsay Whittle: Brif Weinidog, i ba raddau y gellir ystyried rhaglen eiddilwch Gwent yn fodel o ofal integredig yn y gymuned i bobl hŷn? Sut y gallwch sicrhau bod gweddill Cymru'n manteisio ar yr arfer gorau hwn?

Y Prif Weinidog: Yn wir, mae'n enghraifft wych. Rwyf wedi ymweld â'r prosiect ac wedi gweld y gwaith da y mae'n ei wneud o ran dod â gwahanol wasanaethau ynghyd er budd pobl yn y gymuned. Yn sicr, rwy'n annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i edrych ar brosiect eiddilwch Gwent ac i'w weld yn enghraifft dda o'r hyn y gellir ei wneud gyda'r math o weithio traws-sefydliadol sydd ei angen arnom er mwyn darparu gwasanaeth gwell ar gyfer ein pobl.

Keith Davies: First Minister, I recently visited an acute response team in Carmarthenshire, at Prince Philip Hospital in Llanelli, which provides health services in patients' homes. Last year, 420 people received treatment at home, with the elderly among those who were prevented from having a long stay in hospital. This is an innovative service, which puts Prince Philip Hospital at the forefront of health provision in the home in west Wales. Do you agree with me that, in appropriate situations, this is a good example of avoiding long waits in our hospitals?

The First Minister: I agree with that. It is an extremely good example and the programme is similar to that operated in Gwent. I know that the Minister for Health and Social Services wants to see good practice like this being rolled out across Wales, especially, of course, in the Hywel Dda Local Health Board area.

Priorities for Aberavon

4. David Rees: *What are the Welsh Government's priorities for Aberavon in 2012. OAQ(4)0411(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau

in the programme for government.

David Rees: Thank you for that answer, First Minister. Last week, the Welsh economy research unit at Cardiff University published a survey highlighting the importance of steel-making to the Welsh economy. It indicated that there were an extra 1.22 jobs for every job in steel, with a minimum payment of more than double the minimum wage and more full-time and long-term employment. Now, the week before, Tata Steel announced that it was offering its workforce a voluntary extra holiday at half pay. What discussions has the Welsh Government had with Tata so that the workforce and local businesses can be assured that such an important anchor company will continue to be supported and deliver for the economy?

The First Minister: I have had a number of meetings with Tata over the past few months—the last one was last week. We recognise the importance of Tata as a key anchor company, and Tata is committed to Wales; it has an excellent relationship with us as a Government. These are difficult times in the steel industry—there is no getting away from that fact—but the sheer volume of investment that Tata has made in Port Talbot is an example to me of the commitment that it has shown to Port Talbot and the fact that it very much sees itself as having a long-term future in Wales.

Byron Davies: First Minister, we have debated whether your Government's priorities are in accord with those of the good people of Aberavon and other parts of Wales, and we could do no more than to agree to differ on many of the priorities. One point that we do agree on is a recognition that past Welsh Governments have focused on bureaucracy rather than on delivery. Will you enlighten this Chamber as to what the delivery unit has so far delivered and confirm whether it is monitoring delivery over bureaucracy at long last?

The First Minister: The delivery unit is there to ensure that what we say we are going to do is done. It is as simple as that.

wedi'u nodi yn ein rhaglen lywodraethu.

David Rees: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd uned ymchwil economi Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd arolwg yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwneud dur i economi Cymru. Nododd bod 1.22 o swyddi ychwanegol ar gyfer pob swydd yn y diwydiant dur, gydag isafswm tâl sy'n fwy na dwywaith yr isafswm cyflog, a mwy o gyflogaeth lawn-amser a hirdymor. Yr wythnos cyn hynny, cyhoeddodd Tata Steel ei fod yn cynnig gwyliau ychwanegol gwirfoddol ar hanner cyflog. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Tata fel y gall y gweithlu a busnesau lleol fod yn sicr y bydd y cwmni angor hwn, sydd mor bwysig, yn parhau i gael ei gefnogi ac i gyflawni ar gyfer yr economi?

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda Tata dros y misoedd diwethaf—roedd yr un diwethaf yr wythnos diwethaf. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Tata fel prif gwmni angor, ac mae Tata wedi ymrwymo i Gymru; mae ganddo berthynas ardderchog â'r Llywodraeth. Mae hwn yn gyfnod anodd yn y diwydiant dur—nid oes modd dianc rhag y ffaith honno—ond mae maint enfawr y buddsoddiad y mae Tata wedi'i wneud ym Mhort Talbot yn enghraifft i mi o'r ymrwymiad y mae wedi ei ddangos i Bort Talbot a'r ffaith ei fod yn sicr yn gweld ei hun yn gwmni sydd â dyfodol hirdymor yng Nghymru.

Byron Davies: Brif Weinidog, rydym wedi trafod a yw blaenoriaethau eich Llywodraeth yn cyd-fynd â rhai pobl Aberafan a rhannau eraill o Gymru, a gallem wneud dim mwy na chytuno i anghytuno ar lawer o'r blaenoriaethau. Un pwynt rydym yn cytuno yn ei gylch yw cydnabod bod Llywodraethau Cymru yn y gorffennol wedi canolbwyntio ar fiwrocratiaeth yn hytrach nag ar gyflawni. A wnewch chi roi'r Siambr hon ar ben y ffordd o ran yr hyn y mae'r uned gyflawni wedi'i gyflawni hyd yma a chadarnhau a yw'n monitro cyflawni dros fiwrocratiaeth o'r diwedd?

Y Prif Weinidog: Mae'r uned gyflawni yno i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud. Mae mor syml

â hynny.

With regard to the views of the people of Aberavon, I can only mention the fact that, at every election since 1922, they have elected a Labour representative. That suggests to me that the people of Aberavon tend to agree with me.

O ran barn pobl Aberafan, ni allaf ond sôn am y ffaith eu bod, ym mhob etholiad ers 1922, wedi ethol cynrychiolydd Llafur. Mae hynny'n awgrymu i mi fod pobl Aberafan yn tueddu i gytuno â mi.

Bethan Jenkins: Brif Weinidog, wythnos diwethaf, gofynnais gwestiwn i chi ynglŷn â datblygiad y Lido Afan yn Aberafan. Gwnaethoch ddweud ei fod yn fater i'r awdurdod lleol, ond mae ymgyrchwyr ar y mater hwn yn poeni am lefelau ffitrwydd pobl oherwydd nid oes pwll nofio na chyfleusterau yn yr ardal. Mae targedau cenedlaethol ar gyfer ffitrwydd, ond os na fydd y targedau'n cael eu cyrraedd yn yr ardal honno, beth fyddwch yn ei wneud i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn eu cyrraedd?

Bethan Jenkins: First Minister, last week, I asked you a question about the Afan Lido development in Aberafan. You said that it was a matter for the local authority, but campaigners on this issue are concerned about people's fitness levels because there is no swimming pool or other facilities in the area. There are national targets for fitness, but if those targets are not achieved in that area, what will you do to ensure that the local authority achieves them?

Y Prif Weinidog: Rydym yn erfyn ar awdurdodau lleol i edrych ar y targedau ac i gwrdd â nhw. Mae hynny'n rhywbeth i'r awdurdod lleol ei benderfynu wrth wrando'n fanwl ar bobl leol.

The First Minister: We expect local authorities to monitor the targets and to achieve them. That is a matter for the local authority to decide upon while listening intently to local people.

Gwella Bywydau Trigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Improving the Lives of the Residents of Mid and West Wales

5. Simon Thomas: Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i wella bywydau trigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0415(FM)

5. Simon Thomas: What steps is the First Minister taking to improve the lives of the residents of Mid and West Wales. OAQ(4)0415(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein cynlluniau wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu.

The First Minister: Our plans are set out in the programme for government.

Simon Thomas: Wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai ysgolion uwchradd ym mandiau 4 a 5 yn derbyn £10,000 yr un, ac mae hyn yn golygu yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru lai na £15 fesul disgybl. Pa welliannau ydych yn eu disgwyl yn safonau addysg am y swm hwn? Sut fyddwch yn sicrhau na fyddwn yn gwobrwyo methiant yn ein hysgolion?

Simon Thomas: Last week, the Minister for Education and Skills announced that secondary schools in bands 4 and 5 would receive £10,000 each, and in the Mid and West Wales area this means less than £15 per pupil. What improvements do you expect to see in educational standards for this sum? How will you ensure that we will not end up rewarding failure in our schools?

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n safbwynt od iawn yn fy marn i, achos nod y Gweinidog yw sicrhau bod yr ysgolion gwanaf yn gallu dala lan â'r cryfaf—mae hynny'n rhywbeth

The First Minister: That is a very odd stance to take in my view because the Minister's aim is to ensure that the weakest schools are able to catch up with the

syflaenol ynglŷn â chyfiawnder cymdeithasol. Felly, nid gwobrwyo methiant yw e, ond helpu ysgolion i sicrhau bod lefel yr addysg yn dderbyniol drwy Gymru i gyd.

Russell George: First Minister, not a single household in mid Wales will benefit from a council tax freeze next year, solely because of your Government. You were given £40 million to help the people of mid Wales to avoid council tax hikes, but you spent the money elsewhere. Do you accept that, because of your administration's decision, the people of mid Wales, like people all over Wales, will have been put at a disadvantage compared to households in England and Scotland?

The First Minister: That is a matter for Powys. As I have said, Bridgend has done it, so you will have to take it up with the local authority.

Let us bust this myth that £40 million was somehow given to the Government here to freeze council tax. That money is being used to finance land reclamation to create jobs—which is a 'pet project' that the party opposite is obviously not interested in—and to finance capital projects that will help to strengthen the Welsh economy, including projects to strengthen enterprise zones, which the party opposite mentions every single week. Apparently, however, they are 'pet projects'. We have invested in the people of Wales. Some of our councils have already frozen council tax. It just shows that the Tories like to fritter money away.

Datblygiad Busnes

6. Julie Morgan: *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i annog datblygiad busnes yng Nghymru. OAQ(4)0419(FM)*

The First Minister: Our priorities for developing the economy across Wales are set out in the programme for government.

Julie Morgan: One of the most important ways of encouraging business is to have a motivated workforce. What can you do to ease the pressures on mothers in Wales who

strongest—that is a basic tenet of social justice. So, it is not a matter of rewarding failure, but helping schools to ensure that the level of education is acceptable across Wales.

Russell George: Brif Weinidog, ni fydd yr un teulu yng nghanolbarth Cymru yn elwa ar rewi'r dreth gyngor y flwyddyn nesaf, dim ond oherwydd eich Llywodraeth. Rhoddwyd £40 miliwn ichi i helpu pobl canolbarth Cymru osgoi codiadau i'r dreth gyngor, ond rydych wedi gwario'r arian ar bethau eraill. A ydych yn derbyn, oherwydd penderfyniad eich gweinyddiaeth, fod pobl canolbarth Cymru, fel pobl ledled Cymru, wedi cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â theuluoedd yn Lloegr ac yn yr Alban?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n fater ar gyfer Powys. Fel y dywedais, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei wneud, felly bydd yn rhaid ichi godi'r mater gyda'r awdurdod lleol.

Gadewch inni chwalu'r myth bod £40 miliwn wedi cael ei roi i'r Llywodraeth yma i rewi'r dreth gyngor. Mae'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ariannu adfer tir i greu swyddi—yn amlwg, mae hwn yn 'pet project' nad oes gan y blaid gyferbyn ddiddordeb ynddo—ac i ariannu prosiectau cyfalaf a fydd yn helpu i gryfhau economi Cymru, gan gynnwys prosiectau i gryfhau ardaloedd menter, y mae'r blaid gyferbyn yn sôn amdanynt bob wythnos. Yn ôl pob tebyg, fodd bynnag, 'pet projects' ydynt. Rydym wedi buddsoddi ym mhobl Cymru. Mae rhai o'n cynghorau eisoes wedi rhewi'r dreth gyngor. Mae'n dangos bod y Torïaid yn hoffi gwastraffu arian.

Business Development

6. Julie Morgan: *What plans does the First Minister have to encourage business development in Wales. OAQ(4)0419(FM)*

Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi ledled Cymru wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

Julie Morgan: Un o'r ffyrdd pwysicaf o annog busnes yw cael gweithlu brwdfrydig. Beth y gallwch ei wneud i leddfu'r pwysau ar famau yng Nghymru a fyddai'n hoffi

would like to work, but are struggling to do so, especially in view of the Mums United campaign that was launched by Save the Children today, highlighting the problems with the new universal credit for mothers?

The First Minister: Improving access to affordable childcare is a key priority for us, and our policy statement on childcare demonstrates this commitment. We are working with the Department for Work and Pensions, Jobcentre Plus and the family information services to increase awareness and take-up of available financial support for childcare. We have also made a commitment as a Government to increase funding for Flying Start.

Mohammad Asghar: Business rates are one of the largest outgoings for small businesses in Wales. Abolishing rates for businesses with a rateable value below £12,000 would provide timely help to allow companies to focus on expanding their business and to take on new staff. Will the First Minister advise what consideration he has given to this policy, which would greatly benefit business development in Wales?

The First Minister: As the Member will know, a business rates review has been commissioned by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, and will report in due course.

Morglawdd Hafren

7. William Graham: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Morglawdd Hafren arfaethedig. OAQ(4)0416(FM)*

The First Minister: The Severn estuary represents a potentially important source of renewable energy that would provide substantial economic benefits, although there are environmental issues that would need to be dealt with.

William Graham: Would you care to speculate on a timescale?

The First Minister: It is very difficult to do so because it is not within our control. Ultimately, the UK Government has

gweithio, ond sy'n cael trafferth gwneud hynny, yn enwedig o ystyried yr ymgyrch Mums United a lanswyd gan Achub y Plant heddiw, sy'n tynnu sylw at broblemau'r credyd cyffredinol newydd ar gyfer mamau?

Y Prif Weinidog: Mae gwella argaeledd gofal plant fforddiadwy yn brif flaenoriaeth i ni, ac mae ein datganiad polisi ar ofal plant yn dangos yr ymrwymiad hwn. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith a'r gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gofal plant. Rydym hefyd wedi gwneud ymrwymiad i gynyddu'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg.

Mohammad Asghar: Ardrethi busnes yw un o'r costau mwyaf ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. Byddai dileu ardrethi ar gyfer busnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 yn rhoi cymorth amserol i ganiatáu i gwmnïau ganolbwyntio ar ehangu eu busnes ac i gyflogi staff newydd. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i'r polisi hwn, a fyddai o fudd mawr i ddatblygu busnes yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Fel y gŵyr yr Aelod, mae adolygiad o ardrethi busnes wedi cael ei gomisiynu gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Severn Barrage

7. William Graham: *Will the First Minister make a statement on the proposed Severn Barrage. OAQ(4)0416(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae aber Hafren yn ffynhonnell o ynni adnewyddadwy a allai fod yn bwysig ac a fyddai'n darparu manteision economaidd sylweddol, er bod materion amgylcheddol y byddai'n rhaid ymdrin â hwy.

William Graham: A ydych yn fodlon mentro ar roi amserlen?

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd iawn gwneud hynny oherwydd nad yw o fewn ein rheolaeth. Yn y pen draw, Llywodraeth y DU

responsibility in this area. In terms of Corlan Hafren, which Members will be aware of, I have met its representatives and they put forward a very interesting scheme. It requires further work at this stage, and I am sure that that work will be done. It will ultimately require the backing of the UK Government.

Vaughan Gething: Thank you for that earlier answer, First Minister. As we all know, any Severn energy scheme would have huge consequences for both job creation and energy creation in England and Wales. Have you had any more useful discussions with either the private sector or the UK Government about any potential renewable energy schemes in the Severn tidal range?

The First Minister: I met Corlan Hafren on 23 January. Its representatives have also met Government officials before that and, indeed, there has been contact on a regular basis since those meetings took place. Yes, we are interested in the project, and we look forward to it being developed over the course of time.

Rhodri Glyn Thomas: Brif Weinidog, nid wyf yn glir ynglŷn â hyn o'ch atebion. A ydych o blaid morglawdd ai peidio?

Y Prif Weinidog: Ynglŷn â'r morglawdd iawn, wrth gwrs, byddem ni fel Llywodraeth o'i blaid. Mae'n bwysig bod y cynllun iawn yn symud ymlaen, wrth ystyried y materion amgylcheddol sy'n rhan o unrhyw brosiect. Rydym eisiau gweld prosiect yn cael ei gymryd ymlaen, a byddem yn gefnogol o'r prosiect iawn.

Bil Diwygio Lles

8. Jocelyn Davies: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag effaith y Bil Diwygio Lles ar Gymru. OAQ(4)0412(FM)*

The First Minister: We have repeatedly raised concerns about the impact of the Welfare Reform Bill on Wales, both directly with the Department for Work and Pensions

sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn. O ran Corlan Hafren, y bydd Aelodau yn ymwybodol ohono, rwyf wedi cyfarfod â'i gynrychiolwyr ac maent wedi cyflwyno cynllun diddorol iawn. Mae angen rhagor o waith ar y cynllun ar hyn o bryd, ac rwy'n siŵr y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud. Yn y pen draw, bydd angen cefnogaeth y Llywodraeth y DU arno.

Vaughan Gething: Diolch am yr ateb yn gynharach, Brif Weinidog. Fel y gwyddom, byddai unrhyw gynllun ynni ar yr Hafren yn arwain at ganlyniadau enfawr o ran creu swyddi a chynhyrchu ynni yng Nghymru a Lloegr. A ydych wedi cael rhagor o drafodaethau defnyddiol gyda'r sector preifat neu Lywodraeth y DU am unrhyw gynlluniau ynni adnewyddadwy posibl gan ddefnyddio amrediad llanw'r Hafren?

Prif Weinidog: Cefais gyfarfod â Corlan Hafren ar 23 Ionawr. Mae ei gynrychiolwyr hefyd wedi cyfarfod â swyddogion y Llywodraeth cyn hynny ac, yn wir, bu cyswllt yn rheolaidd ers y cyfarfodydd hynny. Mae gennym ddiddordeb yn y prosiect, ac rydym yn edrych ymlaen at ei weld yn cael ei ddatblygu dros gyfnod o amser.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, I am not clear on this from your answers. Are you in favour of a barrage or not?

The First Minister: Regarding the right barrage, of course, we as a Government would be in favour of it. It is important that the right scheme is taken forward, with consideration of the environmental concerns that are a part of any project. We want to see a project being taken forward, and we would be supportive of the right project.

Welfare Reform Bill

8. Jocelyn Davies: *What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the impact of the Welfare Reform Bill on Wales. OAQ(4)0412(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi mynegi pryderon droeon am effaith y Bil Diwygio Lles ar Gymru, yn uniongyrchol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac yn gyhoeddus

and publicly within this Chamber.

Jocelyn Davies: You will no doubt be aware of the Cuts Watch Cymru report about the impact of welfare reform, and the recommendations within the report. Your Government will soon have responsibility for the social fund; how do you plan to use those powers to mitigate the worst impacts of welfare reform?

The First Minister: The devolution of funding will allow us to look to ensure that those funds are diverted towards those who are in most need, but of course much of it depends on how much money is ultimately made available.

Kenneth Skates: Last week's news of the closure of the Remploy factory in Wrexham came as a genuine shock to the people of north-east Wales, and particularly many from my constituency who work there. I was astonished at the way that the announcement was made, and the lack of respect shown for those who work there. Could you update the Assembly on any discussions that the Welsh Government has had recently with the UK Government on this issue?

The First Minister: Numerous discussions have taken place between the Minister for Education and Skills and the Minister responsible in London. The latest of those meetings took place this morning.

2.00 p.m.

A formal request was made for the devolution of the budget regarding Remploy. That request was refused, which we very much regret. It is important that Remploy jobs are preserved. Suggesting that the money could somehow be diverted to help people train elsewhere depends on jobs being available elsewhere, and that is not the case. We know that Remploy provides training and employment for many people, and it is far from guaranteed that those people would get employment elsewhere.

Antoinette Sandbach: Returning to the original question in relation to welfare

yn y Siambr hon.

Jocelyn Davies: Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o adroddiad Cuts Watch Cymru am effaith diwygio lles a'r argymhellion yn yr adroddiad. Yn fuan, bydd eich Llywodraeth yn gyfrifol am y gronfa gymdeithasol; sut rydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau hynny i liniaru effeithiau gwaethaf diwygio lles?

Y Prif Weinidog: Bydd datganoli cyllid yn ein galluogi i geisio sicrhau bod y cronfeydd hynny'n cael eu dargyfeirio tuag at y rhai sydd eu hangen fwyaf ond, wrth gwrs, mae llawer yn dibynnu ar faint o arian sydd ar gael yn y pen draw.

Kenneth Skates: Roedd y newyddion am gau ffatri Remploy yn Wrecsam yr wythnos diwethaf yn ergyd drom i bobl gogledd-ddwyrain Cymru, ac yn enwedig i nifer o bobl yn fy etholaeth sy'n gweithio yno. Cefais fy rhyfeddu gan y modd y cafodd y cyhoeddiad ei wneud, a'r diffyg parch a ddangoswyd tuag at y rhai sy'n gweithio yno. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn?

Y Prif Weinidog: Mae nifer o drafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog sy'n gyfrifol yn Llundain. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf y bore yma.

Gwnaethpwyd cais ffurfiol i ddatganoli'r gyllideb mewn perthynas â Remploy. Gwrthodwyd y cais hwnnw, er mawr ofid i ni. Mae'n bwysig bod swyddi Remploy yn cael eu cadw. Mae'r awgrym y gallai'r arian rywsut gael ei ddargyfeirio i helpu i hyfforddi pobl mewn mannau eraill yn awgrymu bod swyddi ar gael mewn mannau eraill, ac nid yw hynny'n wir. Rydym yn gwybod bod Remploy yn darparu hyfforddiant a swyddi i lawer o bobl, ac nid oes sicrwydd y byddai rhai pobl yn cael gwaith rywle arall.

Antoinette Sandbach: Gan ddychwelyd i'r cwestiwn gwreiddiol ar ddiwygio lles, a

reform, can you confirm that, in your discussions with the UK Government, you have offered your support to those aspects of the Welfare Reform Bill that will reduce the abuse of the benefits system? Do you support the principle that there should always be an incentive to work for those who are able to do so?

The First Minister: Of course there should be incentives for people to work, but there should also be jobs and training opportunities available. Jobs should be available in Remploy, but they will not be available in the future; that is the whole point. People should be rewarded fairly for the work that they do, which is why we cannot understand why, in April, people on modest incomes will be hammered hardest in relation to the loss of tax credits, while, at the same time, two parties in this Chamber are talking about reducing income tax for those earning over £150,000 a year. We stand for social justice—ensuring that the people who are able to pay, pay. However, those who are working hard will, after April, be taxed hardest by the coalition Government in London. They are the ones who will be hammered hardest, and that is what we object to.

Salwch Meddwl

9. Rebecca Evans: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i bobl â salwch meddwl. OAQ(4)0417(FM)*

The First Minister: We are committed to supporting people with mental ill health and we are developing a mental health strategy for Wales, focusing on wellbeing and services.

Rebecca Evans: Recent research has shown that mental ill health costs the Welsh economy an estimated £7.2 billion a year. On top of that, there is the immeasurable human cost. Will you give Members a guarantee that the new strategy will include ambitious outcome-focused targets, which will deliver measurable improvements in mental health for the benefit of individuals and the Welsh economy?

allwch gadarnhau, yn eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, eich bod wedi cefnogi'r agweddau hynny ar y Bil Diwygio Lles a fydd yn lleihau camddefnydd o'r system fudd-daliadau? A ydych yn cefnogi'r egwyddor y dylai fod bob amser gymhelliad i weithio ar gyfer y rhai sy'n gallu gwneud hynny?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs y dylid cael cymhellion i bobl weithio, ond dylid hefyd gael swyddi a chyfleoedd hyfforddiant. Dylai swyddi fod ar gael yn Remploy, ond ni fyddant ar gael yn y dyfodol; dyna'r pwynt. Dylai pobl gael eu gwobrwyo'n deg am y gwaith y maent yn ei wneud, a dyna pam na allwn ddeall pam, ym mis Ebrill, mai'r bobl sydd ar incwm cymedrol a fydd yn dioddef fwyaf o ran colli credydau treth, tra bo dwy blaidd yn y Siambr hon yn sôn am leihau treth incwm ar gyfer y rhai sy'n ennill dros £150,000 y flwyddyn. Rydym ni'n sefyll dros gyfiawnder cymdeithasol—gan sicrhau bod y bobl sy'n gallu talu yn talu. Fodd bynnag, bydd y rhai sy'n gweithio'n galed, ar ôl mis Ebrill, yn cael eu trethu fwyaf gan y Llywodraeth glymbleidiol yn Llundain. Nhw fydd yn dioddef fwyaf, a dyna rydym yn ei wrthwynebu.

Mental Ill Health

9. Rebecca Evans: *Will the Minister make a statement on support for people with mental ill health. OAQ(4)0417(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl sydd ag afiechyd meddwl ac rydym yn datblygu strategaeth iechyd meddwl i Gymru, gan ganolbwyntio ar les a gwasanaethau.

Rebecca Evans: Mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos bod salwch meddwl yn costio tua £7.2 biliwn y flwyddyn i economi Cymru. Ar ben hynny, mae cost ddynol anfesuradwy. A wnewch chi roi sicrwydd i Aelodau y bydd y strategaeth newydd yn cynnwys targedau uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a fydd yn sicrhau gwelliannau mesuradwy o ran iechyd meddwl er budd unigolion ac economi Cymru?

The First Minister: The strategy will provide a population-wide improvement in both physical and mental wellbeing. It will ensure that people and communities will be helped to be more resilient and better able to deal with the stresses of everyday life and at times of crisis. There will be an improvement in child welfare, educational attainment, lifelong learning and workplace productivity. We want to ensure that people in Wales are better informed about mental health and the options that are available to sustain good mental health.

Darren Millar: While I welcome the new mental health strategy, one of the issues that has been flagged up as a concern by experts in Gofal, Hafal and Diverse Cymru is the fact that there are insufficient baseline data in relation to black minority ethnic populations and the prevalence of mental ill health within that population in Wales. Some evidence suggests that black groups, in particular, have a higher prevalence of mental ill health. What is being done within the confines of the strategy to ensure that those hard-to-reach groups are able to access the support services that they need?

The First Minister: As with any strategy, when it is consulted upon, we will need to ensure that the plans reach out to as many groups as possible. In order to that, we will examine, within the strategy, the best way to ensure that that happens.

Elin Jones: Nid o fewn y portffolio iechyd yn unig mae cymryd camau i wella iechyd meddwl. A allwch ein sicrhau y byddwch, o dan y strategaeth iechyd meddwl newydd, yn rhoi cyfrifoldeb ar bob Gweinidog yn eich Llywodraeth i hyrwyddo iechyd meddwl?

Y Prif Weinidog: Byddem yn erfyn hynny gan bob Gweinidog beth bynnag. Rhaid inni hefyd ystyried yr hyn a wnaed o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a basiwyd gan y Cynulliad cyn yr etholiad diwethaf.

Hybu'r Defnydd o Gymraeg yn yr Ardaloedd Lle Siaredir Saesneg yn Bennaf

Y Prif Weinidog: Bydd y strategaeth yn gwella lles corfforol a meddyliol ar draws y boblogaeth gyfan. Bydd yn sicrhau y bydd pobl a chymunedau yn cael eu cynorthwyo i fod yn fwy gwydn ac yn fwy abl i ymdopi â straen yn eu bywyd bob dydd ac mewn argyfwng. Bydd gwelliant o ran lles plant, cyrhaeddiad addysgol, dysgu gydol oes a chynhyrchiant yn y gweithle. Rydym am sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael gwell gwybodaeth am iechyd meddwl a'r dewisiadau sydd ar gael i gynnal iechyd meddwl da.

Darren Millar: Er fy mod yn croesawu'r strategaeth iechyd meddwl newydd, mae arbenigwyr o Gofal, Hafal a Diverse Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes data sylfaenol digonol o ran pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a nifer yr achosion o salwch meddwl o fewn y boblogaeth honno yng Nghymru. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod nifer yr achosion o salwch meddwl yn uwch mewn grwpiau du, yn arbennig. Beth sy'n cael ei wneud o fewn ffiniau'r strategaeth i sicrhau bod y grwpiau hynny sy'n anodd eu cyrraedd yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt?

Y Prif Weinidog: Fel yn achos unrhyw strategaeth, yn ystod yr ymgynghoriad, bydd angen inni sicrhau bod y cynlluniau yn cyrraedd cynifer o grwpiau â phosibl. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn archwilio, o fewn y strategaeth, y ffordd orau i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Elin Jones: It is not only within the health portfolio that steps should be taken to improve mental health. Will you assure us that, under the new mental health strategy, you will place a responsibility on all Ministers in your Government to promote mental health?

The First Minister: We expect that of every Minister anyway. We must also consider what has been done under the Mental Health (Wales) Measure 2010, which was passed before the last Assembly election.

Promoting the Use of Welsh in the More English Speaking Areas of Wales

10. David Melding: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hybu'r defnydd o Gymraeg yn yr ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf. OAQ(4)0420(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn nodi pwysigrwydd hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru, yn arbennig yn gymdeithasol ymysg pobl ifanc. Mae'r strategaeth honno ar gyfer ardaloedd sydd â'r mwyafrif yn Saesneg eu hiaith, a hefyd yr ardaloedd sy'n Gymraeg eu hiaith ar hyn o bryd ond sydd o dan bwysau o ran y defnydd o'r Gymraeg.

David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch S4C ar ei rhaglen newydd i ddysgwyr Cymraeg, *Hwb?* Rwy'n siŵr y bydd rhaglen o'r fath yn helpu Llywodraeth Cymru i hybu'r defnydd o'r iaith mewn lleoedd lle siaredir Saesneg yn bennaf.

Y Prif Weinidog: Mae'n ymddangos bod yr Aelod eisoes wedi cael budd o'r rhaglen honno. Rydym yn croesawu unrhyw ffordd o sicrhau twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg a thwf yn nifer y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Mike Hedges: One of the problems in more English-speaking areas is the provision of leisure opportunities through the medium of Welsh for young people. In Morryston, Twrw Tawe provides that facility. Will the First Minister join me in welcoming such initiatives? Does he believe that such initiatives are a great opportunity for young people to realise that speaking Welsh is not only something that they do in the classroom; they can also do it as part of their leisure?

The First Minister: That is the challenge that we face. Many children speak Welsh, but their only experience of it is in the classroom. They do not have experience of it at home or in the communities in which they live. Morryston has Welsh speakers in the community, but that is not true of many other parts of Wales. Twrw Tawe is a good example of volunteers in the local community coming together to provide Welsh-medium

10. David Melding: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to promote the use of Welsh in the more English-speaking areas of Wales. OAQ(4)0420(FM)*

The First Minister: The Welsh Government's new Welsh language strategy recognises the importance of promoting the use of Welsh across Wales, especially among young people in social settings. That strategy is for predominantly English-speaking areas, as well as for those areas that are still predominantly Welsh speaking but are under pressure regarding the use of the Welsh language.

David Melding: Will the First Minister join me in congratulating S4C on its new programme for Welsh learners, *Hwb?* I am sure that a programme of this kind will help the Welsh Government in promoting the use of the language in areas where the English language is mainly used.

The First Minister: It seems that the Member has already benefited from that programme. We welcome all ways of increasing the numbers of Welsh speakers and increasing the numbers who use the language from day to day.

Mike Hedges: Un o'r problemau mewn ardaloedd sydd â'r mwyafrif yn Saesneg eu hiaith yw darparu cyfleoedd hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl ifanc. Yn Nhreforys, mae Twrw Tawe yn darparu'r cyfleuster hwnnw. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i groesawu mentrau o'r fath? A yw'n credu bod mentrau o'r fath yn gyfle gwych i bobl ifanc i sylweddoli nad rhywbeth y maent yn ei wneud yn yr ystafell ddosbarth yn unig yw siarad Cymraeg; gallant hefyd wneud hynny yn eu hamser hamdden?

Y Prif Weinidog: Dyna'r her sy'n ein hwynebu. Mae llawer o blant yn siarad Cymraeg, ond maent yn cael profiad ohoni yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Nid ydynt yn cael profiad ohoni yn y cartref neu yn y cymunedau lle maent yn byw. Yn Nhreforys, mae siaradwyr Cymraeg yn y gymuned, ond nid yw hynny'n wir am lawer o rannau eraill o Gymru. Mae Twrw Tawe yn enghraifft dda o wirfoddolwyr yn y gymuned leol yn dod at

activities for children and young people, to show that the language exists outside the classroom.

Bethan Jenkins: Brif Weinidog, roeddwn yn agoriad Neuadd Gwyn yr wythnos diwethaf yng Nghastell-nedd, ond, yn anffodus, nid oedd gair o Gymraeg yn y seremoni. Rwyf ar ddeall bod Ysgol Gyfun Ystalyfera wedi cael cais i ganu yn Saesneg a'i bod wedi gwrthod cymryd rhan o'r herwydd. Sut mae datblygu ardaloedd fel Castell-nedd, sydd â llai na 6% o siaradwyr Cymraeg, os nad yw'r cyngor Llafur lleol yn cymryd yr iaith Gymraeg o ddifrif?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gwybod beth yw'r ffeithiau yn yr achos hwnnw, ond byddem yn erfyn i unrhyw agoriad swyddogol o'r fath gael o leiaf rhai geiriau yn Gymraeg, yn enwedig am fod llawer o siaradwyr Cymraeg yn byw yng ngogledd hen fwrdeistref Castell-nedd a hefyd yng Nghwm Tawe, lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd mewn nifer o gymunedau.

Keith Davies: Brif Weinidog, mae ein hiaith, sy'n rhan allweddol o'n treftadaeth, yn bwysig iawn i ni. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod ei phwysigrwydd yn ymestyn nid yn unig i'w hamddiffyn mewn cymunedau Cymreig ond hefyd i'w hehangu i deuluoedd nad ydynt wedi'i defnyddio'n draddodiadol. Croesawaf y pwyslais ar dechnoleg a chyfryngau newydd yn ein strategaeth iaith, a chredaf y bydd yn mynd yn bell o ran ymestyn y defnydd o'r iaith. A fydddech yn cytuno ei bod hefyd yn bwysig parhau i gefnogi'r mentrau iaith, yn enwedig mewn ardaloedd cymysg eu hiaith?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n wir. Nod y strategaeth yw ystyried beth sy'n rhaid ei wneud er mwyn hybu'r iaith yn ogystal â deall bod y ffordd o wneud hynny yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r ffordd o hybu'r iaith ym Mrynaman a Gwauncaegurwen yn wahanol i Ben-y-bont, er enghraifft. Y sialens yn Nyffryn Aman yw sicrhau bod plant sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gyfarwydd â chlywed y Gymraeg yn y tŷ ac yn y gymuned yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae hynny'n sialens o hyd. Ar

ei gilydd i ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc, i ddangos bod yr iaith yn bodoli y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Bethan Jenkins: First Minister, I attended the opening of the Gwyn Hall last week in Neath, but, unfortunately, not a word of Welsh was heard in the ceremony. I understand that Ysgol Gyfun Ystalyfera was asked to sing in English, and that, as a result, it refused to take part. How will developments take place in areas such as Neath, where Welsh speakers make up less than 6% of the population, if the local Labour council does not take the language seriously?

The First Minister: I do not know the facts of that particular case, but we would expect any official opening of that kind to include at least some words of Welsh, especially as so many Welsh speakers live in the north of the former Neath borough and also in the Swansea valley, where the language is used on a daily basis in many communities.

Keith Davies: First Minister, our language, which is a key part of our heritage, is very important to us. I am sure that you would agree that its importance extends not only to protecting it in Welsh-speaking communities but also to expanding its use among families that have not traditionally used it. I welcome the emphasis on technology and new media in our language strategy, and I believe that it will go far in increasing the use that is made of the language. Would you agree that it is also important that we continue to support the *mentrau iaith*, especially in areas that are linguistically mixed?

The First Minister: That is true. The aim of the strategy is to consider what needs to be done to promote the language as well as to understand that doing that will be different in different parts of Wales. Promoting the language in Brynaman and Gwauncaegurwen will be different to promoting it in Bridgend, for example. The challenge in the Aman valley is to ensure that children who speak Welsh and who are familiar with hearing the language in the home and in the community use it with each other. That remains a

ben hynny, rhaid sicrhau bod plant sy'n byw mewn ardaloedd Seisnigaidd yn gweld bod modd defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ystafelloedd dosbarth eu hysgolion Cymraeg.

Aled Roberts: Brif Weinidog, gan ystyried eich ymateb i'r Dirprwy Lywydd, mae'r Llywodraeth wedi nodi targed ar gyfer faint o bobl ifanc y dylid eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn ychydig o flynyddoedd. A ydych yn fodlon gyda'r strategaethau sydd wedi'u paratoi gan gynghorau lleol, lle nad oes targedau gan siroedd unigol ar gyfer hynny?

Y Prif Weinidog: Rydym yn erfyn ar bob sir i sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion Cymraeg, gan fod twf wedi bod yn nifer y plant sy'n mynd i ysgolion Cymraeg mewn sawl rhan o Gymru, er bod cwmp wedi bod yn nifer y plant yn y boblogaeth yn gyffredinol. Felly, byddem yn erfyn ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cynllunio ar gyfer twf yn yr iaith ac i ystyried bod y lleoedd hynny ar gael.

Dwyn Metel

11. Janet Finch-Saunders: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynglyn â dwyn metel yng Nghymru. OAQ(4)0408(FM)

The First Minister: I have not had any direct discussions, but officials continue to work with their counterparts in the Home Office and the Department for Environment, Food and Rural Affairs regarding metal theft.

Janet Finch-Saunders: Last year, 80 operations were postponed at Llandough hospital as a result of theft, and recently, Neath Port Talbot, Singleton and Morriston hospitals were hit after thieves took computer cables. Last month, hundreds of children were sent home and flood damage costing thousands of pounds was caused by the removal of pipework. Only yesterday, armed robbers raided a scrap metal merchant to access the huge volumes of cash that are sometimes held on the premises. In total, metal theft costs the UK economy £770

challenge. In addition, we must ensure that children who live in Anglicised areas see that it is possible to use the Welsh language outside the classrooms of their Welsh-medium schools.

Aled Roberts: First Minister, following on from your reply to the Deputy Presiding Officer, the Government has set a target for how many young people should be educated through the medium of Welsh in the next few years. Are you satisfied with the strategies put in place by local councils, where individual counties do not set targets in that respect?

The First Minister: We expect every county to ensure an adequate supply of places in Welsh-medium schools, given that there has been an increase in the number of children in Welsh-medium education in many parts of Wales, despite the drop in the number of children in the population in general. Therefore, we would expect local authorities to ensure that they plan for linguistic growth and to consider making those places available.

Metal Theft

11. Janet Finch-Saunders: What recent discussions has the First Minister had with the UK Government regarding metal theft in Wales. OAQ(4)0408(FM)

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol, ond mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'u cymheiriaid yn y Swyddfa Gartref ac yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch dwyn metel.

Janet Finch-Saunders: Y llynedd, gohiriwyd 80 o lawdriniaethau yn ysbyty Llandochau o ganlyniad i achosion o ddwyn, ac yn ddiweddar, bu i ladron gymryd ceblau cyfrifiadurol o ysbytai Castell-nedd Port Talbot, Singleton a Threforys. Fis diwethaf, cafodd cannoedd o blant eu hanfon adref ac achoswyd difrod gan lifogydd a gostiodd miloedd o bunnoedd i'w drwsio wedi i bibellau gael eu tynnu allan. Dim ond ddoe, bu i ladron ag arfau ymosod ar fasnachwr metel sgrap er mwyn cael mynediad at y symiau enfawr o arian sydd weithiau yn cael

million per year. This is becoming a really serious issue, and it is fair to say that we are hearing now of regular occurrences—if not daily, then certainly weekly—and it is affecting all portfolios including education, health, heritage, communities—

The Presiding Officer: Order. Are you coming to the question?

Janet Finch-Saunders: Yes. Will you, as First Minister, commit to working with the UK Government, which has in place a strong taskforce and plans, and will you look towards taking a strong and robust approach so as to provide reassurance to those who have been affected and those who may be affected by this shocking crime?

The First Minister: Yes. We are already working with UK Government departments, such as the Home Office and DEFRA, to deal with this issue. The Minister for Local Government and Communities is meeting with the chief constables tomorrow, I think, and metal theft will be discussed. An enforcement day was held on 14 December, and there is the pan-Wales metal thefts group, which has been set up by the Welsh police forces, together with the utilities companies, and which is chaired by Gwent Police.

Blaenoriaethau Polisi ar gyfer Gogledd Cymru

12. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru yn 2012. OAQ(4)0413(FM)*

The First Minister: Our priorities are set out in the programme for government.

Antoinette Sandbach: First Minister, you regularly make comparisons with policy in England. Do you agree that the uptake of renewable energy technologies by Welsh businesses is being hampered by the fact that they do not qualify as permitted developments for non-domestic premises? Given that your Government consulted a year ago on bringing forward the necessary changes together with the associated jobs that

eu cadw ar y safle. Mae dwyn metel yn costio £770 miliwn y flwyddyn i economi'r DU. Mae hwn yn dod yn fater difrifol iawn, ac mae'n deg dweud ein bod yn clywed yn awr am ddigwyddiadau rheolaidd—os nad bob dydd yna yn sicr yn wythnosol—ac mae'n effeithio ar bob portffolio, gan gynnwys addysg, iechyd, treftadaeth, cymunedau—

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

Janet Finch-Saunders: Ydw. A wnewch chi, fel Prif Weinidog, ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU, sydd wedi sefydlu tasglu cryf a chynlluniau, ac a fyddwch yn ystyried cymryd agwedd gref a chadarn er mwyn rhoi sicrwydd i'r rhai y mae'r drosedd gywilyddus hon wedi effeithio arnynt, ac i'r rhai y gallai effeithio arnynt?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Rydym eisoes yn gweithio gydag adrannau Llywodraeth y DU, fel y Swyddfa Gartref a DEFRA, i ymdrin â'r mater hwn. Credaf y bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cyfarfod â'r prif gwnstabiliaid yfory, a bydd mater dwyn metel yn cael ei drafod. Cynhaliwyd diwrnod gorfodi ar 14 Rhagfyr, ac mae yna grŵp Cymru gyfan ar ddwyn metel, a sefydlwyd gan heddluoedd Cymru, ynghyd â'r cwmnïau cyfleustodau, ac sy'n cael ei gadeirio gan Heddlu Gwent.

Policy Priorities for North Wales

12. Antoinette Sandbach: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy priorities for North Wales in 2012. OAQ(4)0413(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

Antoinette Sandbach: Brif Weinidog, rydych yn gwneud cymariaethau rheolaidd â pholisi yn Lloegr. A ydych yn cytuno bod busnesau yng Nghymru yn cael eu rhwystro rhag manteisio ar dechnolegau ynni adnewyddadwy gan nad ydynt yn gymwys i gael eu dynodi'n ddatblygiadau a ganiateir ar gyfer adeiladau annomestig? O ystyried bod eich Llywodraeth wedi ymgynghori flwyddyn yn ôl ar gyflwyno'r newidiadau

those changes would provide, can you confirm when they will be introduced? How much longer will Welsh companies need to wait while they remain at a competitive disadvantage to companies over the border in England?

The First Minister: I am not clear that this is a competitive disadvantage. One area that has been mentioned to me over the last few months is the uncertainty over feed-in tariffs. That has been a major issue in terms of the uncertainty that has been put in the minds of businesses. On energy generation generally, we have said many times that we want to see energy consents devolved to Wales. We are more than happy for that to happen and for renewables obligations certificates to be devolved. Then, I would be more than happy not to spend my time criticising the UK Government in that regard, and to move on to create jobs for the people of Wales. However, we need the UK Government to move forward on this.

Llyr Huws Gruffydd: Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg—bydd cyfle yn ddiweddarach heddiw i'w thrafod ymhellach. A fydddech yn cytuno bod y strategaeth honno'n cael ei thanseilio gan yr orfodaeth sy'n cael ei rhoi ar awdurdodau lleol i godi miloedd yn rhagor o dai nag sydd eu hangen yn ôl y galw lleol?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n rhywbeth i awdurdodau lleol ei ystyried. Mae'n rhaid ystyried yr iaith Gymraeg o fewn y system gynllunio: mae nodyn cyngor technegol sy'n ymdrin â'r iaith. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg wrth symud ymlaen â chynllunio, yn enwedig mewn perthynas â thai.

Blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth

13. Peter Black: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru. OAQ(4)0422(FM)*

The First Minister: Our priorities are to be

angenrheidiol ynghyd â'r swyddi cysylltiedig y byddai'r newidiadau hynny yn eu darparu, a allwch gadarnhau pryd y byddant yn cael eu cyflwyno? Faint yn hwy y bydd yn rhaid i gwmnïau o Gymru aros, gan fod o dan anfantais gystadleuol o gymharu â chwmnïau dros y ffin yn Lloegr?

Y Prif Weinidog: Nid yw'n glir imi mai anfantais gystadleuol yw hyn. Un maes sydd wedi ei grybwyll wrthyf dros y misoedd diwethaf yw'r ansicrwydd ynghylch tariffau cyflenwi trydan. Mae hynny wedi bod yn fater o bwys mawr o ran yr ansicrwydd sydd wedi cael ei greu i fusnesau. O ran cynhyrchu ynni yn gyffredinol, rydym wedi dweud sawl gwaith ein bod am weld cydsyniadau ynni yn cael eu datganoli i Gymru. Rydym yn fwy na pharod i weld hynny'n digwydd ac i dystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy gael eu datganoli. Yna, byddwn yn fwy na pharod i beidio â threulio fy amser yn beirniadu Llywodraeth y DU ar y pwnc hwnnw, ac i symud ymlaen i greu swyddi i bobl Cymru. Fodd bynnag, mae angen i Lywodraeth y DU symud ymlaen ar y mater hwn.

Llyr Huws Gruffydd: I am sure that we all welcome the Welsh Government's new Welsh language strategy—and there will be an opportunity later today to discuss it further. Would you agree that that strategy is being undermined by the requirement on local authorities to build thousands more houses than are needed according to local demand?

The First Minister: That is something for local authorities to consider. The Welsh language is a consideration within the planning system: there is a technical advice note dealing with the language. It is important that local authorities consider the effect on the Welsh language in planning, especially in relation to housing.

Priorities for Transport

13. Peter Black: *Will the First Minister make a statement on his priorities for transport in Wales. OAQ(4)0422(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau

found in the national transport plan, which was published in December.

Peter Black: Thank you for that answer. You will know that many local authorities and bus companies are struggling with your Government's decision to cut the bus fuel subsidy by £3 million this year—very much a last-minute decision. At the same time, you are subsidising the north Wales air service by £1.6 million for 10,000 passengers, and the Hollywood to Cardiff—[*Laughter.*]

2.15 p.m.

I will start again. You are subsidising the Holyhead to Cardiff train service by £1.7 million, yet 114 million passengers use buses. Therefore, do you think that you have your priorities right in subsidising air services and an exclusive train service between north and south Wales instead of the buses that many people use?

The First Minister: I can assure the Member that we do not run trains to Hollywood, whether that is in County Down or California. [*Laughter.*]

The Member seems to suggest that we should not subsidise train services between north and south Wales. I cannot accept that. It is important that people in Wales are able to travel easily between north and south. One of the great criticisms often voiced in years gone by was of the lack of connectivity between north and south. That has changed immensely during the past decade. When this institution was first set up in 1999, I do not think that there was a single north-south train service; that much has changed. We should also bear in mind that the bus service operators grant is still higher per litre in Wales than in England; it is not as if there has been a cut to below the level in England.

I very much welcome the cross-party support that has been demonstrated within this Chamber for the electrification of the Valley lines and also for electrification west of

i'w gweld yn y cynllun trafniadaeth cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Byddwch yn gwybod bod llawer o awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau yn cael trafferth gyda phenderfyniad eich Llywodraeth i leihau'r cymhorthdal tanwydd bws £3 miliwn eleni, a oedd yn benderfyniad munud olaf a dweud y lleiaf. Ar yr un pryd, rydych yn rhoi cymhorthdal o £1.6 miliwn i wasanaeth awyr gogledd Cymru ar gyfer 10,000 o deithwyr, ac mae'r gwasanaeth o Hollywood i Gaerdydd—[*Chwerthin.*]

Dechreuaf eto. Rydych yn rhoi cymhorthdal o £1.7 miliwn i wasanaeth trên Caerdybi i Gaerdydd, ond mae 114 miliwn o deithwyr yn defnyddio bysiau. Felly, a ydych yn meddwl eich bod wedi blaenoriaethu'n gywir drwy noddi gwasanaethau awyr a gwasanaeth trên hynod ddethol rhwng gogledd a de Cymru yn lle'r bysiau y mae nifer o bobl yn eu defnyddio?

Y Prif Weinidog: Gallaf sicrhau'r Aelod nad ydym yn rhedeg trenau i Hollywood, boed hynny yn County Down neu yng Nghaliffornia. [*Chwerthin.*]

Mae'n ymddangos bod yr Aelod yn awgrymu na ddylem roi cymhorthdal i wasanaethau trên rhwng gogledd a de Cymru. Ni allaf dderbyn hynny. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn gallu teithio yn rhwydd rhwng y gogledd a'r de. Un feirniadaeth fawr a leisiwyd yn aml yn y gorffennol oedd bod diffyg cysylltedd rhwng y gogledd a'r de. Mae hynny wedi newid yn aruthrol yn ystod y degawd diwethaf. Pan sefydlwyd y corff hwn yn gyntaf yn 1999, nid wyf yn credu bod un gwasanaeth trên o'r gogledd i'r de; mae hynny wedi newid. Dylem gofio hefyd bod y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yn dal yn uwch fesul litr yng Nghymru nag yw yn Lloegr; nid yw wedi cael ei dorri fel ei fod yn is na'r lefel yn Lloegr.

Rwy'n croesawu'n fawr y gefnogaeth drawsbleidiol sydd wedi cael ei dangos yn y Siambr hon ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a hefyd ar gyfer trydaneiddio i'r

Cardiff. I look forward now to the Secretary of State committing her personal support to both projects.

Vaughan Gething: It is apt that you mention electrification of the Valley lines, First Minister, given that we had a cross-party group of Assembly Members meeting MPs, peers, and representatives of the rail industry yesterday in Parliament to push the case for full electrification of the Valleys lines. Can you confirm whether you have had an update on the current position of the Secretary of State for Wales and the UK Government, and whether they are now reconsidering electrification of the Valleys lines, including the Ebbw Vale, Vale of Glamorgan and the Maesteg lines?

The First Minister: Lots of discussions have taken place. The Welsh Government's position is quite simply this: we want to see electrification to Swansea. We also want to see electrification of the Valley lines in the broader sense, including the Vale of Glamorgan line, the Ebbw Vale line and the Llynfi Valley line as part of the Valley lines network. I look forward to the Secretary of State for Wales supporting these projects. Thus far, she has said that she looks forward to the business case being presented. That was done a long time ago, and I ask her to join Members in this Chamber in supporting both these projects, and give her the opportunity to do so.

Byron Davies: On the issue of transport priorities for Wales, it was not unreasonable for me and others to assume that your priorities would have been included within your national transport plan, but that seems to have been cast aside, with consultation on new tunnels on the M4 being announced with no reference to that in your transport plan. Do not get me wrong: I very much welcome your Government's u-turn and recognition of the need to ease congestion in south Wales. However, why is there no mention of these important schemes in your national transport plan? Or is it the truth that your priorities are just ad-hoc?

gorllewin o Gaerdydd. Rwy'n edrych ymlaen yn awr at weld yr Ysgrifennydd Gwladol yn datgan ei chefnogaeth bersonol i'r ddau brosiect.

Vaughan Gething: Mae'n briodol eich bod yn sôn am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, Brif Weinidog, o gofio bod grŵp trawsbleidiol o Aelodau Cynulliad wedi cyfarfod ag Aelodau Seneddol, Arglwyddi, a chynrychiolwyr y diwydiant rheilffyrdd yn Senedd San Steffan ddoe i hyrwyddo'r achos dros drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn llawn. A allwch gadarnhau a ydych wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU, ac a ydynt yn awr yn ailystyried trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys llinellau Glyn Ebwy, Bro Morgannwg a Maesteg?

Y Prif Weinidog: Mae llawer o drafodaethau wedi digwydd. Yn syml, safbwynt Llywodraeth Cymru yw: rydym am weld trydaneiddio i Abertawe. Rydym hefyd am weld trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn yr ystyr ehangach, gan gynnwys llinell Bro Morgannwg, llinell Glyn Ebwy a llinell Dyffryn Llynfi fel rhan o rwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd. Edrychaf ymlaen at glywed Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cefnogi'r prosiectau hyn. Hyd yma, mae hi wedi dweud ei bod yn edrych ymlaen at weld yr achos busnes yn cael ei gyflwyno. Gwnaethpwyd hynny amser maith yn ôl, a gofynnaf iddi ymuno ag Aelodau yn y Siambr hon wrth gefnogi'r prosiectau hyn, ac rwy'n rhoi cyfle iddi wneud hynny.

Byron Davies: O ran y mater o flaenoriaethau trafndiaeth yng Nghymru, nid oedd yn afresymol i mi ac eraill gymryd y byddai eich blaenoriaethau wedi eu cynnwys yn eich cynllun trafndiaeth cenedlaethol, ond mae'n ymddangos eu bod wedi cael eu rhoi i'r neilltu, gydag ymgynghoriad ar dwneli newydd ar yr M4 yn cael ei gyhoeddi heb unrhyw gyfeiriad at hynny yn eich cynllun trafndiaeth. Peidiwch â'm camddeall: rwyf yn croesawu tro pedol eich Llywodraeth a'r gydnabyddiaeth o'r angen i leihau tagfeydd yn ne Cymru. Fodd bynnag, pam nad oes unrhyw sôn am y cynlluniau pwysig hyn yn eich cynllun trafndiaeth cenedlaethol? Ai'r gwir yw bod eich blaenoriaethau yn rhai ad-

hoc?

The First Minister: The plan clearly marks the way forward for transport in Wales. However, there will be projects that will come forward from time to time for consideration. That is being flexible, and I see no problem with that. The problem with the railways is that the budget for rail infrastructure is not held by the Welsh Government; it is held by the UK Government. We would reasonably expect to see projects funded in Wales with Welsh taxpayers' money. That is perfectly reasonable. We are looking at ways to reduce congestion along the M4. There are a number of ways to do this that are being looked at, but it would certainly be helpful if we were able to get borrowing powers to finance some of the bigger projects.

Rhodri Glyn Thomas: Ynghylch eich cyfeiriad chi, a chyfeiriad llefarydd y Ceidwadwyr, at y sefyllfa ar yr M4 a'r angen am fesurau lliniarol, byddwch yn cofio, o dan Lywodraeth Cymru'n Un, gwnaeth y Gweinidog dros drafnidiaeth ar y pryd, Ieuan Wyn Jones, gyflwyno mesurau lliniarol ar gyfer yr M4 i'r Cabinet. Rwy'n credu eich bod chi, fel aelod o'r Cabinet, wedi cefnogi'r cynlluniau hynny. A ydych dal i wneud hynny fel y Prif Weinidog, ac a yw'r Cabinet presennol dal i gytuno â'r cynlluniau hynny?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn credu ei fod yn berthnasol i siarad am beth ddigwyddodd mewn Llywodraeth flaenorol. Roedd llawer iawn o ddadlau yn digwydd ar y pryd, ac ystyriwyd sawl papur, o gofio am y sefyllfa ariannol. Nid wyf am fynd i mewn i'r manylion—nid wyf yn credu fod hynny'n deg—ond nid oedd y sefyllfa yn union fel yr oeddech yn sôn amdani. Hoffwn weld ffordd i sicrhau gwelliannau ar yr M4, nid dim ond yn ardal Casnewydd ond, hefyd, mewn amser, yn ardal Port Talbot, lle mae'r heol yn gul a lle byddai'n rhaid cael gwaith peirianyddol eithaf mawr er mwyn datrys y problemau fydd yn bodoli yn yr ardal honno mewn degawd.

Y Prif Weinidog: Mae'r cynllun yn nodi yn glir y ffordd ymlaen ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd prosiectau yn cael eu cyflwyno o bryd i'w gilydd i'w hystyried. Bod yn hyblyg yw hynny, ac nid wyf yn gweld unrhyw broblem gyda hynny. Y broblem gyda'r rheilffyrdd yw'r ffaith nad Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r gyllideb ar gyfer seilwaith rheilffyrdd; mae'n cael ei gadw gan Lywodraeth y DU. Byddem yn disgwyl gweld prosiectau yn cael eu hariannu yng Nghymru gydag arian trethdalwyr Cymru. Mae hynny'n gwbl resymol. Rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau tagfeydd ar hyd yr M4. Mae nifer o ffyrdd o wneud hyn yn cael eu hystyried, ond byddai'n sicr yn ddefnyddiol pe bai modd i ni gael pwerau benthyca i ariannu rhai o'r prosiectau mwy.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, as regards your reference and the Conservatives' spokesperson's reference to the situation on the M4 and the need for relief measures, you will remember that, under the One Wales Government, the Minister for transport at the time, Ieuan Wyn Jones, presented M4 relief measures to the Cabinet. I believe that, as a member of the Cabinet, you supported those plans. Do you still do so as the First Minister and is the current Cabinet still in agreement with those plans?

The First Minister: I do not think that it is relevant to mention what happened in the previous Government. A lot of debate took place at that time and a number of papers were considered, bearing in mind the financial position. I will not go into the details—I do not think that would be fair—but it is not quite as you mentioned it. I would like to see a means of ensuring improvements on the M4, not only in the Newport area, but, in time, in the Port Talbot area, where the road is narrow and where quite major engineering works would be required to solve the problems that will exist in the area within a decade.

Diwygio Lles

14. Mick Antoniw: *A wnaiff y Prif Weinidog egluro pa drafodaethau y mae wedi'u cael*

Welfare Reform

14. Mick Antoniw: *Will the First Minister clarify what discussions he has had*

ynghylch yr effaith ar economi Cymru yn sgil cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio lles. OAQ(4)0414(FM)

The First Minister: We continue to raise concerns about the Welfare Reform Act 2012 and its effect on Wales. Those concerns include implications for the Welsh economy.

Mick Antoniw: First Minister, I welcome the answers that you gave earlier to my colleagues on the issue of Remploy workers. The families of the workers will also be hit hard, therefore will the Welsh Government look specifically at measures that it can take to give support to the families of the Remploy workers, who look as though they may be thrown on to the scrapheap by the Tory Government?

The First Minister: We will see what we can do to assist them; we know that the situation is desperate. The Conservatives opposite are heckling on this: go to talk to Remploy workers and shout ‘rubbish’ at them, because that is what your Government thinks of them. The reality of the situation is that Remploy workers are desperately worried about their future, they are desperately worried about being able to get jobs when Remploy factories close, they are desperately worried about the fact—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

The First Minister: The Conservatives do not like it, but I will carry on. Those workers are desperately worried about the fact that their sickness record will hamper them in trying to get jobs in the future. If you do not believe me, go to talk to them. I doubt that any of you have done so. It is absolutely incredible to us on this side of the Chamber that, once again, we see a Conservative Government waging economic war on the weakest in society, but that is just typical of them. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

Janet Finch-Saunders: First Minister, it is worth remembering that, according to a

regarding the impact of the UK Government’s plans for welfare reform on the Welsh economy. OAQ(4)0414(FM)

Y Prif Weinidog: Rydym yn parhau i fynegi pryderon am Ddeddf Diwygio Lles 2012 a’i effaith ar Gymru. Mae’r pryderon hynny yn cynnwys goblygiadau ar gyfer economi Cymru.

Mick Antoniw: Brif Weinidog, croesawaf yr atebion a roesoch yn gynharach i’m cydweithwyr ar y mater o weithwyr Remploy. Bydd teuluoedd y gweithwyr hefyd yn cael eu taro’n galed, felly a wnaiff Llywodraeth Cymru edrych yn benodol ar fesurau y gall eu cymryd i roi cymorth i deuluoedd gweithwyr Remploy, y mae’n ymddangos y bydd y Llywodraeth Dori’aid, o bosibl, yn eu taflu ar y domen ysbwriel?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ystyried beth y gallwn ei wneud i’w cynorthwyo; rydym yn gwybod bod y sefyllfa yn un ddifrifol. Mae’r Ceidwadwyr gyferbyn yn heclo ar hyn: ewch i siarad â gweithwyr Remploy a gweiddi ‘lol’ arnynt, oherwydd dyna beth mae eich Llywodraeth yn ei feddwl ohonynt. Realiti’r sefyllfa yw bod gweithwyr Remploy yn poeni’n arw am eu dyfodol, maent yn poeni’n arw am allu cael swyddi wedi i ffatrioedd Remploy gau, maent yn poeni’n arw am y ffaith—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Y Prif Weinidog: Nid yw’r Ceidwadwyr yn ei hoffi, ond rwyf am barhau. Mae’r gweithwyr hynny’n poeni’n arw am y ffaith y bydd eu cofnod salwch yn eu rhwystro rhag ceisio cael swyddi yn y dyfodol. Os nad ydych yn fy nghredu, ewch i siarad â nhw. Rwy’n amau bod unrhyw un ohonoch wedi gwneud hynny. Mae’n gwbl anhygoel i ni ar ochr hon y Siambr, unwaith eto, ein bod yn gweld Llywodraeth Geidwadol yn cynnal rhyfel economaidd yn erbyn y bobl wannaf mewn cymdeithas, ond mae hynny’n nodweddiadol ohonynt. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Janet Finch-Saunders: Brif Weinidog, mae’n werth cofio, yn ôl arolwg barn

YouGov poll in January, 74% of the population supported a benefits cap at £26,000. The Institute for Fiscal Studies has suggested that the impact of changes to benefits on the UK economy will be that the incentive to undertake paid work will be strengthened. The Department for Work and Pensions has said that, when the universal credit is implemented fully, it will lift some 900,000 people out of poverty. First Minister, based on this analysis, the welfare reforms will have a positive effect on the Welsh economy by boosting employment. Do you not feel that is your responsibility as the First Minister of Wales to stop the scaremongering, because that is what is demoralising people, not the policies to introduce welfare reform, which will seek to support the vulnerable and help people to get out of the poverty trap and back into work?

The First Minister: Go and say that to the Remploy workers. Go and say that to those people who are earning £17,000 a year who will lose tax credits of more than £3,000 a year, while, at the same time, those earning over £150,000 a year will, apparently, see a cut in their income tax. Go and say that to the family with an income of £42,000, £43,000 or £44,000 a year, which will lose child benefit, while a family with a joint income of £80,000 a year will not. Explain that to them. The Welfare Reform Act is simply a way of cutting money, regardless of the effect on the most vulnerable people in society. That is why the Conservatives opposite, and the Liberal Democrats who are backing them, should hang their heads in shame.

Lindsay Whittle: Given that the Welfare Reform Act has yet to come into force, the figures published last week showing an 11% rise in the number of people seeking help for homelessness in Wales are frightening to say the least, and I speak as a former housing professional. First Minister, what work is the Government doing to ensure that the people of Wales are not forced out of their homes as a consequence of the proposed cuts to welfare advocated by those opposite?

YouGov ym mis Ionawr, bod 74% o'r boblogaeth yn cefnogi cap budd-daliadau o £26,000. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi awgrymu mai effaith y newidiadau i fudd-daliadau ar economi'r DU yw y bydd y cymhelliant i wneud gwaith â thâl yn cael ei gryfhau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dweud, pan fydd y credyd cynhwysol yn cael ei weithredu'n llawn, y bydd yn codi tua 900,000 o bobl allan o dlodi. Brif Weinidog, yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, bydd y diwygiadau lles yn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru drwy roi hwb i gyflogaeth. Onid ydych yn teimlo bod gennych gyfrifoldeb fel Prif Weinidog Cymru i atal y codi bwganod, oherwydd dyna sy'n digalonni pobl, nid y polisïau diwygio lles, a fydd yn ceisio cefnogi pobl sy'n agored i niwed ac yn helpu pobl i ddianc o'r fagl tlodi a mynd yn ôl i'r gwaith?

Y Prif Weinidog: Ewch a dywedwch hynny wrth weithwyr Remploy. Ewch a dywedwch hynny wrth y bobl hynny sy'n ennill £17,000 y flwyddyn a fydd yn colli credydau treth o fwy na £3,000 y flwyddyn, tra, ar yr un pryd, bydd y rhai sy'n ennill dros £150,000 y flwyddyn, yn ôl pob golwg, yn gweld toriad yn eu treth incwm. Ewch a dywedwch hynny wrth y teulu gydag incwm o £42,000, £43,000 neu £ 44,000 y flwyddyn a fydd yn colli budd-dal plant, er na fydd teulu gydag incwm ar y cyd o £80,000 y flwyddyn yn ei gollu. Esboniwch hynny iddynt. Mae'r Ddeddf Diwygio Lles yn ffordd syml o dorri arian, waeth beth yw'r effaith ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Dyna pam y dylai'r Ceidwadwyr gyferbyn, a'r Democratiaid Rhyddfrydol sy'n eu cefnogi, ostwng eu pennau mewn cywilydd.

Lindsay Whittle: O ystyried bod y Ddeddf Diwygio Lles eto i ddod i rym, mae'r ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf sy'n dangos cynnydd o 11% yn nifer y bobl sy'n chwilio am gymorth ar gyfer digartrefedd yng Nghymru yn frawychus a dweud y lleiaf, ac rwy'n siarad fel rhywun a weithiodd yn y maes. Brif Weinidog, pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl Cymru yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi o ganlyniad i'r toriadau arfaethedig i les a argymhellir gan y rhai sy'n eistedd gyferbyn?

The First Minister: We are looking to see what we can do to help people who have been made homeless. The injustice of the situation is that, following the benefit cuts made by the UK Government, it is the Welsh Government that will pick up the tab for homelessness. It is a direct transfer of liability from the UK Government to Welsh Government and local authorities. The reality is that more people will be homeless, more people will be left without support, and more people in our society will fail to get the opportunities that they badly need to improve their position and that of their families.

Mynediad i Gymru ar gyfer Twristiaid

15. Eluned Parrott: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i'w gwneud yn hawdd i dwristiaid ac ymwelwyr tramor eraill gael mynediad i Gymru. OAQ(4)0421(FM)*

The First Minister: The programme for government sets out the actions being undertaken to promote Wales as a destination.

Eluned Parrott: I am sure that we all listened with great concern to the news about falling passenger numbers at Cardiff Airport. In looking at passenger numbers in terms of the economic benefits that they bring to Wales, it is vital that we distinguish between those flights that take Welsh people out of Wales to spend money elsewhere and those that bring tourists and business people into Wales to spend and invest money here. Will your Government be bringing forward an aviation strategy for Wales to better target the support that you are able to give on those strategically important priorities?

The First Minister: I have to say that, given the condition of the airport at the moment, I would not want to bring people in through Cardiff Airport, because of the impression of Wales that it would give. That is a feeling that has been conveyed to me time after time by passengers who use it. The time has now come for the airport's owners to decide to either run the airport properly or sell it.

Y Prif Weinidog: Rydym yn edrych i weld beth y gallwn ei wneud i helpu pobl sydd wedi cael eu gwneud yn ddigartref. Anghyfiawnder y sefyllfa yw, yn dilyn toriadau budd-dal Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r bil ar gyfer digartrefedd. Mae'n trosglwyddo atebolrwydd yn uniongyrchol o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Y realiti yw y bydd mwy o bobl yn ddigartref, bydd mwy o bobl yn cael eu gadael heb gymorth, a bydd mwy o bobl yn ein cymdeithas yn methu â chael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt er mwyn gwella eu sefyllfa a sefyllfa eu teuluoedd.

Visitor Access to Wales

15. Eluned Parrott: *What is the Welsh Government doing to make it easy for tourists and other foreign visitors to access Wales. OAQ(4)0421(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi'r hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan.

Eluned Parrott: Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn bryderus ar ôl inni glywed y newyddion bod nifer teithwyr Maes Awyr Caerdydd yn gostwng. Wrth edrych ar nifer y teithwyr o ran y budd economaidd i Gymru o'u herwydd, mae'n hanfodol ein bod yn gwahaniaethu rhwng y teithiau awyr sy'n mynd â phobl o Gymru allan o Gymru i wario arian mewn mannau eraill a'r rhai sy'n denu twristiaid a phobl busnes i Gymru i wario a buddsoddi arian yma. A fydd eich Llywodraeth yn cyflwyno strategaeth hedfan i Gymru er mwyn targedu'n well y gefnogaeth y gallwch ei roi i'r blaenoriaethau hynny sy'n strategol bwysig?

Y Prif Weinidog: Rhaid i mi ddweud, o ystyried cyflwr y maes awyr ar hyn o bryd, ni fyddwn am ddod â phobl i mewn drwy Faes Awyr Caerdydd, oherwydd yr argraff y byddai'n ei roi o Gymru. Dyna'r teimlad sydd wedi cael ei gyfleu i mi dro ar ôl tro gan deithwyr sy'n ei ddefnyddio. Mae'r amser wedi dod i berchnogion y maes awyr benderfynu naill ai i redeg y maes awyr yn gywir neu i'w werthu.

Suzy Davies: First Minister, a few weeks ago, I asked the Minister for Housing, Regeneration and Heritage about how he was using our heritage to persuade people visiting London for the Olympics to make the journey here to Wales. Perhaps I can ask you that question in reverse. How is your Government approaching those who are already considering coming to Wales for traditional reasons to take an interest in our sporting past and present, with a view to possibly developing that as a way of marketing Wales in future?

The First Minister: Visit Wales is currently working with Visit England on a version of the 'Britain You're Invited' campaign, which will run in the UK market. Visit Wales is also ensuring that the media planning of Wales's campaign from this month is designed to take optimum advantage of the heightened interest in taking holidays in the UK that will be stimulated by this all-Britain campaign. We know that the Olympics represent a good opportunity for Wales, and we are working with other bodies elsewhere in the UK to ensure that visitors come to Wales.

Alun Ffred Jones: O gofio'r nifer o ymwelwyr fydd yn dod i Lundain ar gyfer y Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd, pa fesurau arbennig mae Croeso Cymru a'r Llywodraeth wedi rhoi yn eu lle er mwyn denu'r bobl fydd yn dod i Lundain i Gymru am ran o'r cyfnod hwnnw?

Y Prif Weinidog: Soniais yn gynharach am yr ymgyrch 'Prydain—rydych wedi'ch gwahodd', a fydd yn y farchnad. Rydym hefyd yn edrych ar ffordd o ddenu pobl i Gymru. Mae gennyf gyfarfod y prynhawn yma i symud yr ymgyrch hwnnw ymlaen er mwyn sicrhau nad yw pobl ond yn dod i Lundain, ond hefyd yn dod i Gymru.

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

The Presiding Officer: Members may be **Y Llywydd:** Efallai y bydd Aelodau yn

Suzy Davies: Brif Weinidog, ychydig wythnosau yn ôl, gofynnais i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth sut roedd yn defnyddio ein treftadaeth i berswadio pobl sy'n ymweld â Llundain ar gyfer y Gemau Olympaidd i wneud y daith yma i Gymru. Efallai y gallaf ofyn y cwestiwn hwnnw ichi o chwith. Sut y mae eich Llywodraeth yn mynd ati i berswadio'r rhai sydd eisoes yn ystyried dod i Gymru am resymau traddodiadol i gymryd diddordeb yn hanes chwaraeon yng Nghymru a'r gweithgareddau chwaraeon presennol, gyda'r bwriad o ddatblygu hynny fel ffordd bosibl o farchnata Cymru yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Mae Croeso Cymru yn gweithio gyda Visit England ar fersiwn o'r ymgyrch 'Britain You're Invited', ar gyfer marchnad y DU. Mae Croeso Cymru hefyd yn sicrhau bod y cynllunio ar gyfer hysbysebu ymgyrch Cymru yn y cyfryngau o'r mis hwn wedi'i lunio i fanteisio gymaint â phosibl ar y cynnydd yn niddordeb pobl mewn mynd ar eu gwyliau yn y DU, a fydd yn cael eu hybu gan yr ymgyrch hon ar gyfer Prydain gyfan. Gwyddom fod y Gemau Olympaidd yn gyfle da i Gymru, ac rydym yn gweithio gyda chyrrff eraill mewn manau eraill yn y DU i sicrhau bod ymwelwyr yn dod i Gymru.

Alun Ffred Jones: Bearing in mind the number of visitors coming to London for the Olympic Games and the Paralympic Games, what particular measures have Visit Wales and the Government put in place in order to attract those people who will be visiting London to Wales for part of that period?

The First Minister: Earlier, I mentioned the 'Britain You're Invited' campaign, which will be in the market. We are also looking at a way of attracting visitors to Wales. I have a meeting this afternoon to discuss that campaign in order to ensure that people do not just go to London, but come to Wales.

aware that yesterday was Commonwealth Day. The theme of Her Majesty the Queen's address to the Commonwealth this year is 'connecting cultures'. As is our convention, Her Majesty's address will be published as part of today's Record of Proceedings.

ymwybodol mai ddoe oedd Diwrnod y Gymanwlad. Thema anerchiad Ei Mawrhydi y Frenhines i'r Gymanwlad eleni yw 'cysylltu diwylliannau'. Yn ôl ein confensiwn, bydd annerchiad Ei Mawrhydi yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Gofnod y Trafodion heddiw.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): There are no changes to report to this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i'r busnes a drefnwyd ar gyfer yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

Mark Isherwood: I call for statements on two matters. First, last week was the first cross-party group on hospices and palliative care in the Assembly. Several matters were raised by hospices and palliative care providers in Wales. I would welcome a statement by the Welsh Government on palliative care and hospices in Wales in this fourth Assembly. They particularly wanted information on the changes to the palliative care implementation board, the impact of your Government's third-sector funding review on capital funding, and on the call for a national strategy on end-of-life care addressing regional variations across Wales. Secondly, I call for a Welsh Government statement on prostate cancer in Prostate Cancer Awareness Month. You may well have seen the statistics that demonstrate that this is the most common cancer among men in Wales, with 2,500 diagnosed every year and 13,300 men in Wales living with the disease.

Mark Isherwood: Galwaf am ddatganiadau ar ddau fater. Yn gyntaf, yr wythnos diwethaf cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp trawsbleidiol ar hosbisau a gofal lliniarol yn y Cynulliad. Codwyd nifer o faterion gan hosbisau a darparwyr gofal lliniarol yng Nghymru. Byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru ar ofal lliniarol a hosbisau yng Nghymru yn y pedwerydd Cynulliad. Roeddynt yn arbennig o awyddus i gael gwybodaeth am y newidiadau i'r bwrdd gweithredu gofal lliniarol, am effaith adolygiad cyllido'r trydydd sector ar gyllid cyfalaf eich Llywodraeth, ac am y galw am strategaeth genedlaethol ar ofal diwedd-oes yn ymdrin ag amrywiadau rhanbarthol ledled Cymru. Yn ail, galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar ganser y brostad ym Mis Ymwybyddiaeth o Ganser y Brostad. Efallai eich bod wedi gweld yr ystadegau sy'n dangos mai hwn yw'r cancer mwyaf cyffredin ymysg dynion yng Nghymru, gyda 2,500 diagnosis bob blwyddyn a 13,300 o ddynion yng Nghymru yn byw gyda'r clefyd.

2.30 p.m.

A recent survey carried out by the Prostate Cancer Charity showed that men had different experiences of care across Wales, but when diagnosed, one in four said that information received was too little and that these differences occurred at each stage of the prostate cancer journey. As they said, these differences are unacceptable; men

Dangosodd arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Elusen Canser y Brostad bod dynion yn cael profiadau gwahanol o ran gofal ledled Cymru, ond pan gawsant ddiagnosis, dywedodd un o bob pedwar na chawsant ddigon o wybodaeth a bod y gwahaniaethau hyn yn digwydd ar bob cam o daith canser y brostad. Fel y dywedasant, mae'r

everywhere deserve the same high-quality prostate cancer care.

Jane Hutt: Thank you very much to Mark Isherwood for his request for information on both those important issues. We are very proud of the work that has been done by the Welsh Government in terms of palliative care and, indeed, support to hospices, which has been taken forward by not only the current Minister, but former Ministers for health and social services, acknowledging the important role that hospices play with regard to end-of-life palliative care. We also welcome the integration with the health service, as we saw in the recent Marie Curie Foundation event, which the Minister for Health and Social Services attended, as did many Members across the Chamber.

In terms of prostate care, this cancer site is key, as is the awareness of our cancer professionals and clinical networks, and I am sure that it will engage the Member and Minister in an update on this issue.

Rhodri Glyn Thomas: Ategaf, yn y lle cyntaf, alwad Mark Isherwood am wasanaethau cancr i ddynion ac am sicrwydd bod y gwasanaethau hynny ar gael i bawb yn gyfartal drwy Gymru gyfan. A yw'n fwriad gennych, Weinidog, i wneud datganiad cyn toriad y Pasg ynglŷn â sefyllfa gyfredol yr ymchwiliadau i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan—AWEMA? Nid ydym wedi clywed unrhyw beth gennych ers rhai wythnosau erbyn hyn. Mawr obeithiaf y bydd modd ichi roi diweddariad i ni cyn toriad y Pasg, a'n sicrhau ni na fydd datganiad yn ystod toriad y Pasg, ac y byddwch chi, pan fydd modd ichi wneud datganiad terfynol am y mater yma, yn gwneud hynny yn y Siambr, gan roi cyfle i Aelodau eich holi chi a chraffu ar y datganiad hwnnw.

Jane Hutt: I acknowledge your points about awareness, particularly with regard to prostate cancer. With regard to AWEMA, you know that the Wales Audit Office review has commenced and a report will be

gwahaniaethau hyn yn annerbyniol; mae dynion ym mhob man yn haeddu'r un gofal ansawdd uchel ar gyfer canser y brostad.

Jane Hutt: Diolch yn fawr iawn i Mark Isherwood am ei gais am wybodaeth am y materion pwysig hyn. Rydym yn falch iawn o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o ran gofal lliniarol ac, yn wir, o ran cefnogi hosbisau, sydd wedi cael ei wneud nid yn unig gan y Gweinidog presennol, ond gan gyn Weinidogion dros iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gydnabod y rôl bwysig y mae hosbisau yn ei chwarae o ran gofal lliniarol diwedd bywyd. Rydym hefyd yn croesawu'r integreiddio gyda'r gwasanaeth iechyd, fel y gwelsom yn nigwyddiad diweddar Sefydliad Marie Curie, lle'r oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol, fel yr oedd nifer o Aelodau ar draws y Siambr.

O ran gofal y brostad, mae'r safle canser hwn yn allweddol, fel y mae ymwybyddiaeth ein gweithwyr proffesiynol canser a rhwydweithiau clinigol, ac rwy'n siŵr y bydd yn cynnwys yr Aelod a'r Gweinidog mewn diweddariad ar y mater hwn.

Rhodri Glyn Thomas: First, I endorse the call made by Mark Isherwood regarding cancer services for men and an assurance that those services are available to everyone throughout Wales on an equal basis. Is it your intention, Minister, to make a statement before Easter recess about the current situation regarding the inquiries into the All Wales Ethnic Minority Association? We have not heard anything from you on that for some weeks now. I very much hope that you will be in a position to update us before the Easter recess, and assure us that there will not be a statement during Easter recess, and that, when you are in a position to make a final statement on this matter, you will do so in the Chamber, which will give Members the opportunity to question you and scrutinise you on that statement.

Jane Hutt: Rwy'n cydnabod eich pwyntiau ynghylch ymwybyddiaeth, yn enwedig o ran canser y brostad. O ran AWEMA, byddwch yn gwybod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau cynnal adolygiad a bydd

delivered to the Public Accounts Committee. It is not appropriate to comment on historical issues in advance of that. However, I report that AWEMA is in the legal process of winding itself up and the company has appointed an insolvency practitioner. The Welsh Government is taking all appropriate legal steps to protect its position as a creditor. We are also working to ensure that continued support is made available to people participating in AWEMA's programmes, and again, that is about ensuring that alternative arrangements are in place with regard to securing the delivery of current and future project activity.

Kirsty Williams: Will you make time available for your colleague, the Minister for Health and Social Services, to make a statement on IVF services in Wales? By the end of this month, approximately 140 patients being treated at the Cardiff centre will have been waiting longer for treatment than Welsh Government guidelines suggest they should be. In a recent letter to me, the Minister for Health and Social Services admitted that there will be a contingency plan to send a cohort of these patients to an NHS provider in England to try to address the shortfall in services in Wales, and that the rate of patients being treated for IVF services in Wales is actually falling. You will be aware of my longstanding concern about the disruption to services for women who potentially will use the Swansea clinic. It is clear that there is a growing problem with regard to IVF services in Wales, and it is an issue that warrants the attention of the Chamber.

Jane Hutt: I reassure the leader of the Welsh Liberal Democrats that the Minister is concerned about this issue. You have corresponded with her on this matter, and I am sure that she updated you on the fact that Abertawe Bro Morgannwg and Cardiff and Vale University LHBs are working together to act on independent clinical advice provided through the Welsh Health Specialised Services Committee and that a strong NHS-based service is being put in place, particularly in relation to south and

adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Nid yw'n briodol imi roi sylwadau ar faterion hanesyddol cyn hynny. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod AWEMA yn y broses gyfreithiol o ddirwyn ei hun i ben ac mae'r cwmni wedi penodi ymarferydd methdal. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam cyfreithiol priodol i ddiogelu ei sefyllfa fel credydwr. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod cefnogaeth barhaus ar gael i bobl sy'n cymryd rhan yn rhaglenni AWEMA ac, unwaith eto, mae hynny'n golygu sicrhau bod trefniadau eraill ar waith o ran sicrhau bod prosiectau presennol ac yn y dyfodol yn cael eu darparu.

Kirsty Williams: A wnewch chi neilltuo amser i'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wneud datganiad ar wasanaethau IVF yng Nghymru? Erbyn diwedd y mis hwn, bydd tua 140 o gleifion sy'n cael eu trin yng nghanolfan Caerdydd wedi bod yn aros yn hwy am driniaeth nag y mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylent. Mewn llythyr ataf yn ddiweddar, cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd cynllun wrth gefn i anfon carfan o'r cleifion hyn i ddarparwr y GIG yn Lloegr i geisio mynd i'r afael â'r diffyg yn y gwasanaethau yng Nghymru, a bod cyfradd y cleifion sy'n cael gwasanaethau IVF yng Nghymru mewn gwirionedd yn gostwng. Byddwch yn ymwybodol fy mod yn pryderu ers tro byd am y ffaith bod gwasanaethau i fenywod a fydd o bosibl yn defnyddio clinig Abertawe yn cael eu hamharu. Mae'n amlwg bod problem gynyddol o ran gwasanaethau IVF yng Nghymru, ac mae'n fater sy'n haeddu sylw'r Siambr.

Jane Hutt: Rwy'n sicrhau arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bod y Gweinidog yn pryderu am y mater hwn. Rydych wedi gohebu â hi ar y mater hwn, ac rwy'n siŵr iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y ffaith bod byrddau iechyd lleol Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'i gilydd i weithredu ar gyngor clinigol annibynnol a roddwyd drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a bod gwasanaeth cryf sy'n rhan o'r GIG yn cael ei roi ar waith, yn enwedig

west Wales. I am aware that the leader of the Welsh Liberal Democrats is asking on behalf of the whole of Wales, and I will raise that with the Minister.

Darren Millar: I want to ask for two statements, Minister. First, I would like a statement from the Minister for Health and Social Services on the current waiting times for orthopaedic patients, which are still significant, particularly in north Wales. Secondly, I would like a statement from the Minister for Local Government and Communities in relation to his transport portfolio, with particular reference to signage on the trunk road network. I understand that a primary destination review has not been undertaken since 1994 in Wales, when the then UK Department for Transport undertook a review of primary destinations. I am very keen to see Colwyn Bay added to the primary route map in Wales; it is extremely important in terms of trying to supplement the work that the Welsh Government and others are doing to regenerate that particular part of the coast. You will be aware that it is the largest population centre in north Wales. Colwyn Bay is home to the national zoo of Wales; we have the Parc Eirias development there; the promenade is being completely revamped; and, indeed, it is the home of Rygbi Gogledd Cymru. Therefore, it is important that Colwyn Bay features on the primary destination map of Wales. It does not currently feature, and I would appreciate a statement on that in due course.

Jane Hutt: I thank Darren Millar for his requests. Your first request gives me an opportunity to put the record straight about the waiting times, particularly in relation to orthopaedics, where we have invested more funding and where you will see a huge decrease in the waiting times. The number of patients waiting more than 26 and 36 weeks for treatment fell between December and January of this year, with a 15% decrease in the number of patients waiting more than 36 weeks for treatment, which is lowest it has been over the past nine months. Also, the number of patients waiting more than 26 weeks is the lowest it has been over the past six months. The vast majority of patients are

mewn perthynas â de a gorllewin Cymru. Gwn fod arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gofyn ar ran Cymru gyfan, a byddaf yn codi'r mater hwnnw gyda'r Gweinidog.

Darren Millar: Rwyf am ofyn am ddau ddatganiad, Weinidog. Yn gyntaf, hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr amseroedd aros presennol ar gyfer cleifion orthopedig, sydd yn dal i fod yn sylweddol, yn enwedig yn y gogledd. Yn ail, hoffwn gael datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â'i bortffolio trafniadaeth, gan gyfeirio'n benodol at arwyddion ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Rwy'n deall na chynhaliwyd adolygiad o gyrchfannau cynradd yng Nghymru ers 1994, pan gynhaliodd Adran Drafniadaeth y DU adolygiad ohonynt. Rwy'n awyddus iawn i weld Bae Colwyn yn cael ei ychwanegu at y map o lwybrau cynradd yng Nghymru; mae'n hynod o bwysig o ran ceisio ategu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru ac eraill yn ei wneud i adfywio y rhan arbennig hwnnw o'r arfordir. Byddwch yn gwybod mai hi yw'r ganolfan boblogaeth fwyaf yng ngogledd Cymru. Mae Bae Colwyn yn gartref i sw cenedlaethol Cymru, mae datblygiad Parc Eirias yno; mae'r promenâd yn cael ei ailwampio'n llwyr; ac, yn wir, mae'n gartref i Rygbi Gogledd Cymru. Felly, mae'n bwysig bod Bae Colwyn yn cael ei gynnwys ar y map o gyrchfannau cynradd Cymru. Nid yw'n ymddangos ar y map hwnnw ar hyn o bryd, a byddwn yn gwerthfawrogi datganiad am hynny maes o law.

Jane Hutt: Diolch i Darren Millar am ei geisiadau. Mae eich cais cyntaf yn rhoi cyfle imi egluro'r sefyllfa ynglŷn â'r amseroedd aros, yn enwedig mewn perthynas ag orthopedeg, lle rydym wedi buddsoddi mwy o gyllid a lle byddwch yn gweld gostyngiad mawr yn yr amseroedd aros. Cafwyd gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 26 a 36 wythnos am driniaeth rhwng mis Rhagfyr a mis Ionawr eleni, gyda gostyngiad o 15% yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos am driniaeth, sef y nifer isaf dros y naw mis diwethaf. Hefyd, nifer y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos yw'r nifer isaf dros y chwe mis diwethaf. Mae'r mwyafrif llethol o gleifion yn cael eu trin o fewn yr

treated within target times, which is important information for the whole Assembly.

The Minister for Local Government and Communities heard your message about signage on the trunk road network in Wales, at the end of which we came directly back to your constituency and to Colwyn Bay. I am sure that the Minister heard your point.

Andrew R.T. Davies: Leader of the House, in the light of the First Minister's comments regarding Cardiff Airport, I am sure that you, as the constituency Member, would say that his comments were robust in the actions that he believed that the airport needs to undertake. Therefore, I think that it is incumbent upon the Government Minister to come forward with a statement to back up the First Minister's statement that he would not encourage people to come to Cardiff Airport. Ultimately, the success of Cardiff Airport relies on a partnership between the Government and the operators to make Wales an attractive destination for passengers using Cardiff Airport. Therefore, I ask you again: in the light of the First Minister's response to a question in the Chamber this afternoon, will the Minister bring forward a statement so that we can see exactly what actions the Government is taking and what route it believes should be developed for the airport so that it has a sustainable future, because I am sure that many Members in the Chamber have an interest in the success of Cardiff Airport?

Jane Hutt: I am sure that the leader of the opposition will approve and support the move that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science made to include Cardiff Airport as part of the St Athan enterprise zone, which gives us a clear opportunity. Of course, it is a cross-governmental issue very much led by the First Minister, as he indicated today, with the Minister for business and the Minister for Local Government and Communities. Including the airport in the St Athan enterprise zone is key to addressing the issue that the leader of the opposition raises today.

amserau targed, sy'n wybodaeth bwysig ar gyfer y Cynulliad cyfan.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi clywed eich neges am arwyddion ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru, ac ar ddiwedd eich neges daethom yn syth yn ôl at eich etholaeth ac i Fae Colwyn. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed eich pwynt.

Andrew R.T. Davies: Arweinydd y Tŷ, yn sgîl sylwadau'r Prif Weinidog ynghylch Maes Awyr Caerdydd, rwy'n siŵr y byddech, fel Aelod yr etholaeth, yn dweud bod ei sylwadau yn gadarn o ran y camau gweithredu yr oedd yn credu bod angen i'r maes awyr eu cymryd. Felly, credaf ei bod yn ddyletswydd ar Weinidog y Llywodraeth i gyflwyno datganiad i gefnogi datganiad y Prif Weinidog na fyddai'n annog pobl i ddod i Faes Awyr Caerdydd. Yn y pen draw, mae llwyddiant Maes Awyr Caerdydd yn dibynnu ar bartneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r gweithredwyr i wneud Cymru yn gyrchfan deniadol ar gyfer teithwyr sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd. Felly, gofynnaf ichi eto: yn sgîl ymateb y Prif Weinidog i gwestiwn yn y Siambr y prynhawn yma, a wnaiff y Gweinidog gyflwyno datganiad fel y gallwn weld yn union pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd a pha lwybr y mae'n credu y dylid ei ddatblygu ar gyfer y maes awyr fel bod ganddo ddyfodol cynaliadwy, oherwydd rwy'n siŵr bod gan nifer o Aelodau yn y Siambr ddiddordeb yn llwyddiant Maes Awyr Caerdydd?

Jane Hutt: Rwy'n siŵr y bydd arweinydd yr wrthblaid yn cymeradwyo ac yn cefnogi'r hyn y mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi'i wneud o ran cynnwys Maes Awyr Caerdydd yn rhan o ardal fenter Sain Tathan, sy'n rhoi cyfle clir inni. Wrth gwrs, mae'n fater trawslywodraethol sydd, i raddau helaeth, o dan arweiniad y Prif Weinidog, fel y nododd heddiw, gyda'r Gweinidog busnes a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae cynnwys y maes awyr yn ardal fenter Sain Tathan yn hollbwysig o ran mynd i'r afael â'r mater y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei godi heddiw.

Nick Ramsay: Minister, I wonder whether we could have a statement from the Minister for Health and Social Services on the availability of specialist nursing staff in the NHS in Wales. In south-east Wales, the number of nurses dedicated to Parkinson's disease is far less than the recommended ratio—I think that it should be 1:300—with just one nurse for the whole of the Aneurin Bevan health board area. Concerns have been raised with me by sufferers of Parkinson's disease and their families about what this is doing to the provision of care in that area. It would be timely for the Minister for health to come to the Chamber with both an analysis of where we are at the moment and how she anticipates improving that supply of specialist nursing care in the future.

Nick Ramsay: Weinidog, tybed a allwn ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar argaeledd staff nyrsio arbenigol yn y GIG yng Nghymru. Yn ne-ddwyrain Cymru, mae nifer y nyrsys sydd wedi'u neilltuo i drin clefyd Parkinson yn llawer llai na'r gymhareb a argymhellir—rwy'n credu mai 1:300 y dylai fod—a dim ond un nyrs sydd ar gyfer holl ardal bwrdd iechyd Aneurin Bevan. Mae pryderon wedi'u mynegi i mi gan ddioddefwyr clefyd Parkinson a'u teuluoedd am yr hyn y mae hyn yn ei wneud i ddarpariaeth y gofal yn yr ardal honno. Byddai'n amserol i'r Gweinidog iechyd ddod i'r Siambr gyda dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol a sut y mae'n disgwyl gwella'r cyflenwad hwnnw o ofal nyrsio arbenigol yn y dyfodol.

Jane Hutt: The provision of specialist nursing care is related to clinical pathways and strategies, particularly the specialist nurses who are required in pathways to support long-term conditions, including Parkinson's, which you described. It is part of her long-term strategy 'Together for Health'.

Jane Hutt: Mae darparu gofal nyrsio arbenigol yn gysylltiedig â llwybrau a strategaethau clinigol, yn enwedig y nyrsys arbenigol, sydd eu hangen mewn llwybrau i gefnogi cyflyrau hirdymor, gan gynnwys clefyd Parkinson, a ddisgrifiwyd gennych. Mae'n rhan o'r strategaeth hirdymor, 'Law yn Llaw at Iechyd'.

Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

Statement: The Welsh Government's Response to the Children's Commissioner for Wales's Annual Report

The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas): Today, I would like to set out the Welsh Government's response to the tenth annual report of the Children's Commissioner for Wales. I thank the commissioner for continuing to raise important issues on behalf of children and young people. We have provided a full response to the report, which you have all received. As you can see, the Welsh Government has made significant progress during the last year.

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Heddiw, hoffwn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i ddegfed adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru. Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd am barhau i godi materion pwysig ar ran plant a phobl ifanc. Rydym wedi rhoi ymateb llawn i'r adroddiad, ac rydych i gyd wedi'i gael. Fel y gwelwch, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

We are fully committed to improving the lives of children, young people and their families. We want children to have the best start in life and to grow and develop, reach their potential and live fulfilled lives. This will require concerted effort. We must address the barriers for children and young

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i wella bywydau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym am i blant gael y cychwyn gorau mewn bywyd ac i dyfu a datblygu, cyrraedd eu potensial a byw bywydau llawn. Bydd hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd. Rhaid inni fynd i'r afael â'r rhwystrau i blant a phobl

people and reduce the inequalities that put some children and young people at a disadvantage. If children and young people have positive experiences, they are more likely to achieve sustainable positive change throughout their lives.

We place the rights of children at the heart of what we do. We have been the first Government to do this in the United Kingdom and we must celebrate that more often. We have created a unique rights-based approach to policy, a different approach, and one that means that we lead the way. The fact that this was recognised in the final report of the family justice review was in no small measure due to the influence and contribution of the commissioner as the Wales representative on the panel. I am very grateful to the commissioner for representing the interests of children in Wales so diligently.

We have introduced the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. This Measure has enabled us to incorporate the United Nations Convention on the Rights of the Child into domestic law and, as I have said, we are the first of the UK jurisdictions to take such a historic step forward. I am very grateful to the commissioner for his invaluable contribution to this work. We worked closely with him in developing this Measure, and I welcome his wholehearted support. We will continue to work with him on its implementation in order to secure ever better outcomes for the children and young people of Wales.

Through his report, the children's commissioner has once again challenged us to do better for the children of Wales. He has identified a number of important issues to which we must respond, and I will take this opportunity to briefly touch on some of them. In relation to children and young people's emotional and mental health, we have developed an action plan called 'Breaking the Barriers: Meeting the Challenges'. This sets out how we and Welsh public services will achieve the strategic goals detailed in 'Everybody's Business' to support children and young people with emotional wellbeing and mental health needs. The action plan

ifanc a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n rhoi rhai plant a phobl ifanc o dan anfantais. Os bydd plant a phobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol, maent yn fwy tebygol o gyflawni newid cadarnhaol a chynaliadwy drwy gydol eu bywydau.

Rydym yn gosod hawliau plant wrth wraidd yr hyn a wnawn. Ni oedd y Llywodraeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i wneud hyn a rhaid inni ddathlu hynny'n fwy aml. Rydym wedi creu dull o greu polisi sy'n unigryw ac sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'n ddull gwahanol, sy'n golygu ein bod yn arwain y ffordd. Roedd y ffaith y cafodd hyn ei gydnabod yn adroddiad terfynol yr adolygiad cyfiawnder teuluol, i raddau helaeth, o ganlyniad i ddylanwad a chyfraniad y comisiynydd fel cynrychiolydd Cymru ar y panel. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r comisiynydd am gynrychioli buddiannau plant yng Nghymru mewn modd mor ddiwyd.

Rydym wedi cyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn wedi ein galluogi i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig ac, fel y dywedais, ni yw'r cyntaf ymhlith awdurdodaethau'r DU i gymryd y fath gam hanesyddol ymlaen. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r comisiynydd am ei gyfraniad amhrisiadwy i'r gwaith hwn. Buom yn gweithio'n agos gydag ef wrth ddatblygu'r Mesur hwn, a chroesawaf ei gefnogaeth frwd. Byddwn yn parhau i weithio gydag ef ar weithredu'r Mesur er mwyn sicrhau canlyniadau gwell fyth i blant a phobl ifanc Cymru.

Yn ei adroddiad, mae'r comisiynydd plant unwaith eto wedi ein herio i wneud yn well i blant Cymru. Mae wedi nodi nifer o faterion pwysig y mae'n rhaid inni ymateb iddynt, a byddaf yn cymryd y cyfle hwn i siarad yn fyr am rai ohonynt. Mewn perthynas ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu o'r enw 'Chwalu'r Rhwystrau: Ateb y Sialensau'. Mae hwn yn nodi sut y byddwn ni, a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, yn cyrraedd y nodau strategol a nodir yn 'Busnes Pawb' i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r cynllun gweithredu yn

commits to providing a report each year on progress against delivery and covers mental health in its broadest sense. The first report in December last year provided an update on school-based counselling, child and adolescent mental health services specialist organisations, universal and targeted services, and priorities for the coming year. This report provided a wealth of information and addressed many of the issues raised by the commissioner.

The commissioner also raises the importance of play and the duties in relation to play within the Children and Families (Wales) Measure 2010. We prioritised play in our manifesto and our programme for government, and we will shortly commence section 11 of the Measure. The first duty on local authorities will be to conduct a play sufficiency assessment, and commencement of the second element will place a duty on local authorities to secure sufficient play opportunities for children in their areas so far as is reasonably practicable. Again, we are the first Government in the UK to recognise the importance of play in this way.

2.45 p.m.

I would also like to comment on one more issue, which is something that we are all very passionate and very concerned about. It is an issue that has once again been raised in the commissioner's report, and that is child poverty. There is no higher priority for the Welsh Government than to ensure that children and young people whose lives are affected by poverty have the same chances in life as their better-off peers. We know that poverty levels in Wales remain stubbornly high. While a number of policy levers around tackling income poverty lie within the control of the UK Government, the Welsh Government has a vital role to play.

Our Children and Families (Wales) Measure 2010 places a duty on Welsh Ministers, local

ymrwymo i ddarparu adroddiad bob blwyddyn ar gynnydd yn erbyn cyflawniadau ac mae'n cwmpasu iechyd meddwl yn ei ystyr ehangaf. Roedd yr adroddiad cyntaf ym mis Rhagfyr y llynedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gwnsela yn yr ysgol, sefydliadau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasoed, gwasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu, a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu cyfoeth o wybodaeth ac aeth i'r afael â nifer o'r materion a godwyd gan y comisiynydd.

Mae'r comisiynydd hefyd yn nodi pwysigrwydd chwarae a'r dyletswyddau mewn perthynas â chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Rhoesom flaenoriaeth i chwarae yn ein manifestto a'n rhaglen lywodraethu, a byddwn yn cychwyn adran 11 o'r Mesur cyn bo hir. Y ddyletswydd gyntaf ar awdurdodau lleol fydd cynnal asesiad o ddigonolrwydd chwarae, a bydd y cam o gychwyn yr ail elfen yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael i blant yn eu hardaloedd, i'r graddau ei bod yn rhesymol ymarferol. Unwaith eto, ein Llywodraeth ni yw'r Llywodraeth gyntaf yn y DU i gydnabod pwysigrwydd chwarae yn y modd hwn.

Hoffwn wneud sylwadau hefyd ar fater arall—mater y mae pob un ohonom yn angerddol a phryderus yn ei gylch. Unwaith eto, codwyd y mater dan sylw yn adroddiad y comisiynydd, a'r mater hwnnw yw tlodi plant. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw flaenoriaeth uwch na sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n gweld eu bywydau'n cael eu heffeithio gan dlodi yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â chyfoedion gwell eu byd. Gwyddom fod lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Er bod nifer o ysgogiadau polisi sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi incwm yn dod o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU, mae gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion

authorities and other Welsh authorities to develop a new child poverty strategy and set out what actions they are taking to tackle poverty in their area. Our programme for government sets out the key actions we are taking to address these issues and to improve the skills, health and educational outcomes of children, young people and families living in poverty.

The programme for government also contains a commitment to develop a single tackling poverty action plan. This will bring together the contribution made by the Welsh Government as a whole to tackling poverty, while keeping a strong focus on child poverty. Our plan will set out how the Welsh Government will tackle the causes and effects of poverty. It will draw on a wide range of programmes to address poverty, including the Communities First programme, Flying Start, Families First, Jobs Growth Wales and the pupil deprivation grant.

Ministers have established a tackling poverty programme board to report on cross-cutting initiatives to tackle poverty in their areas. The board held its first meeting in November 2011. A ministerial programme board has also been established, and it will monitor progress in delivering the tackling poverty action plan across the Welsh Government. It met for the first time in January 2012. In addition, an independent external advisory group is being established to provide expert advice to the ministerial programme board on progress on tackling child poverty and wider poverty.

As I have said before, there is a political will and vision here in Wales that is ultimately steering the agenda for children and young people. The Welsh Government is fully committed to it and we will continue to work with organisations and the office of the Children's Commissioner for Wales to drive this forward. I am sure that the commissioner will continue to speak up and hold us to account wherever and whenever necessary to promote the rights of children and young people in Wales.

Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill Cymru i ddatblygu strategaeth newydd ar dlodi plant ac i nodi pa gamau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yn eu hardal. Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi'r camau allweddol rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i wella canlyniadau sgiliau, iechyd ac addysg plant, pobl ifanc a theluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r rhaglen lywodraethu hefyd yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu sengl ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Bydd hyn yn dwyn ynghyd y cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd i fynd i'r afael â thlodi, gan gadw ffocws cryf ar dlodi plant. Bydd ein cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi a'i effaith. Bydd yn defnyddio gwybodaeth am ystod eang o raglenni ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Twf Swyddi Cymru a'r grant amddifadedd disgyblion.

Mae Gweinidogion wedi sefydlu bwrdd rhaglen ar gyfer mynd i'r afael â thlodi i adrodd ar fentrau trawsbynciol a fydd yn mynd i'r afael â thlodi yn eu hardaloedd. Cynhaliodd y bwrdd ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2011. Sefydlwyd bwrdd rhaglen gweinidogol hefyd, a bydd y bwrdd hwnnw'n monitro'r cynnydd a wneir wrth gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ar draws Lywodraeth Cymru. Cynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2012. Yn ogystal, mae grŵp cynghori annibynnol allanol yn cael ei sefydlu i roi cyngor arbenigol i'r bwrdd rhaglen gweinidogol ar sicrhau cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi plant a thlodi ehangach.

Fel y dywedais eisoes, mae ewyllys gwleidyddol a gweledigaeth yn bodoli yma yng Nghymru sydd, yn y pen draw, yn llywio'r agenda ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig iddo, a byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i fwrw ymlaen â'r agenda hwn. Rwyf yn siŵr y bydd y comisiynydd yn parhau i leisio ei farn a'n dwyn i gyfrif lle bynnag a phryd bynnag y bo hynny'n angenrheidiol, o ran hyrwyddo

Finally, I can confirm to the Assembly that the children's commissioner has operated within the budget set for 2010-11 of £1.837 million and the budget set for 2011-12 of £1.749 million.

The Presiding Officer: Thank you, Deputy Minister, for that. I remind Members that this is not a time for speeches, but to ask questions of the Deputy Minister.

Angela Burns: Deputy Minister, I thank you for your statement. I also thank the children's commissioner for his report and the Welsh Government for its response to it. I do have a number of questions to put to you, Deputy Minister, so forgive me as I try to rattle through them.

The commissioner again brought his concerns to our attention over the local safeguarding children boards. Deputy Minister, I appreciate that you are stepping forward and considering a national safeguarding board, but can you give us a little more information about when that is likely to come into being, and not just be in the process of being put in place? As you are very well aware, we have real safeguarding issues with children in a number of areas throughout Wales, not least in my own constituency.

On young carers, I am very disappointed to see that new services will not be included before 2014. I wondered if you might be able to give an explanation as to that time frame or to address any way of compressing it slightly, so that we can swing into action a bit quicker on that.

The Welsh Government response mentions the pilot schemes that have been run across Wales in terms of child budgeting. May I briefly draw your attention to the fact that, in the Children and Young People Committee, I raised the issue of child budgeting because we had looked at it for a committee report? I said to the children's commissioner that we had looked at it, but that I did not know where it had gone, and I asked him if he had a clue. He replied, 'No, it has just gone'.

hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn olaf, gallaf gadarnhau i'r Cynulliad bod y comisiynydd plant wedi gweithredu o fewn y gyllideb a bennwyd ar gyfer 2010-11, sef £1.837 miliwn, a'r gyllideb a bennwyd ar gyfer 2011-12, sef £1.749 miliwn.

Y Llywydd: Diolch am hynny, Ddirprwy Weinidog. Hoffwn atgoffa'r Aelodau nad yw hwn yn amser ar gyfer gwneud areithiau, ond ar gyfer gofyn cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog.

Angela Burns: Diolch am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Diolch hefyd i'r comisiynydd plant am ei adroddiad ac i Lywodraeth Cymru am ei hymateb iddo. Mae gennyf nifer o gwestiynau i'w gofyn ichi, Ddirprwy Weinidog, felly maddeuwch imi wrth imi geisio rhuthro drwyddynt.

Unwaith eto, mae'r comisiynydd wedi tynnu ein sylw at ei bryderon ynghylch byrddau lleol diogelu plant. Ddirprwy Weinidog, rwyf yn gwerthfawrogi eich bod yn camu ymlaen ac yn ystyried sefydlu bwrdd cenedlaethol diogelu, ond a allwch chi roi ychydig mwy o wybodaeth inni am pryd y mae'r bwrdd hwnnw'n debygol o gael ei sefydlu, yn hytrach na bod yn y broses o gael ei sefydlu yn unig? Rydych yn bur ymwybodol bod gennym faterion diogelu gwirioneddol sy'n ymwneud â phlant mewn nifer o ardaloedd ledled Cymru, yn enwedig yn fy etholaeth i.

O ran gofawyr ifanc, rwyf yn siomedig iawn o weld na fydd gwasanaethau newydd yn cael eu cynnwys cyn 2014. Tybed a fydddech yn gallu rhoi eglurhad ynghylch yr amserlen hon, neu'n gallu canfod modd o'i chywasgu ychydig, fel y gallwn fwrw ymlaen â hynny ychydig yn gynt?

Mae ymateb Llywodraeth Cymru'n sôn am y cynlluniau peilot a gynhaliwyd ledled Cymru o ran cyllidebu ar gyfer plant. Yn fyr, hoffwn dynnu'ch sylw at y ffaith fy mod wedi codi'r mater o gyllidebu ar gyfer plant yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, am ein bod wedi ystyried y mater hwn ar gyfer un o adroddiadau'r pwyllgor. Dywedais wrth y comisiynydd plant ein bod wedi ystyried cyllidebu ar gyfer plant, ond nad oeddwn yn gwybod i ble yr aeth y mater hwn. Gofynnais

There are warm words in your statement and in the Welsh Government's response about children's budgeting, but what I really want to know is whether the voice of the child has really been heard on this issue, and whether you can demonstrate to us how local authority and Welsh Government departments are listening to the voice of the child when budgeting for their needs.

I have two more questions, if I may, Presiding Officer. First, I would like to return to a perennial favourite issue of mine—school toilets. The guidance has had to be redesigned and repurposed as it was established that the initial proposal for the development of standards for school toilets was undeliverable because there was no statutory basis for their production. Could you clarify that? What kind of statutory basis would we require? Is it something that we need to put into place? We all know that school toilets have an enormous impact on the health of children and have been unacceptable for decades now.

Finally, I want to raise my concerns about advocacy. Again, this was something that the children's commissioner raised, and the Children and Young People Committee published a report on this in the last Assembly. You kindly accepted all the committee's recommendations bar the main one, which was that advocacy should be independent. The commissioner is now so concerned that advocacy is not being delivered that he is doing his own report. I urge you, Deputy Minister, to give us an overview as to whether you will take action on this or wait for his report. I also urge you to please make advocacy for children truly independent and well-advertised, so that children can take advantage of it. Their voices are so small and quiet that they need this opportunity. County councils and Government departments are not listening to them, as has been amply demonstrated.

Gwenda Thomas: On local safeguarding children boards, I am surprised that you are not clear on my intention, because I issued a

iddo a oedd ganddo syniad. Atebodd yntau, 'Na. Yn syml, mae wedi mynd'. Mae geiriau dymunol am gyllidebu plant yn eich datganiad ac yn ymateb Llywodraeth Cymru, ond rwyf yn awyddus iawn i wybod a yw llais y plentyn wedi cael ei glywed mewn gwirionedd ar y mater hwn, ac i wybod a allwch chi ddangos i ni sut y mae awdurdod lleol ac adrannau o Lywodraeth Cymru yn gwrandao ar lais y plentyn wrth gyllidebu ar gyfer eu hanghenion.

Mae gennyf ddau gwestiwn arall, os caf eu gofyn, Lywydd. Yn gyntaf, hoffwn ddychwelyd i un o'm hoff faterion parhaus—toiledau mewn ysgolion. Roedd yn rhaid ailgynllunio ac addasu'r canllawiau yn sgîl canfod y byddai'n amhosibl cyflawni'r cynnig cychwynnol i ddatblygu safonau ar gyfer toiledau mewn ysgolion gan nad oedd unrhyw sail statudol ar gyfer eu llunio. A allwch chi egluro'r sefyllfa hon? Pa fath o sail statudol sydd ei hangen? A yw hyn yn rhywbeth y mae angen inni ei roi ar waith? Gwyddom oll fod toiledau mewn ysgolion yn cael effaith enfawr ar iechyd plant a'r ffaith y buont yn annerbyniol ers degawdau bellach.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy mhryderon ynghylch eiriolaeth. Unwaith eto, codwyd y mater hwn gan y comisiynydd plant, a chyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc adroddiad arno yn ystod y Cynulliad diwethaf. Roeddech mor garedig a derbyn yr holl argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, ar wahân i'r prif argymhelliad, sef y dylai eiriolaeth fod yn annibynnol. Mae'r comisiynydd yn awr yn pryderu gymaint nad yw eiriolaeth yn cael ei gyflawni fel ei fod yn llunio ei adroddiad ei hun. Pwysaf arnoch, Ddirprwy Weinidog, i roi trosolwg inni ynghylch a fyddwch yn cymryd camau ar y mater hwn neu'n aros am ei adroddiad. Rwyf hefyd yn eich annog i sicrhau bod eiriolaeth i blant yn wirioneddol annibynnol a'i bod yn cael ei hysbysebu'n dda, fel y gall plant fanteisio ar y gwasanaeth hwn. Mae eu lleisiau mor fychain ac mor dawel, ac mae angen y cyfle hwn arnynt. Nid yw cynghorau sir nac adrannau'r Llywodraeth yn gwrandao arnynt, fel y dangoswyd yn glir.

Gwenda Thomas: O ran byrddau lleol diogelu plant, rwyf yn synnu nad yw fy mwriad yn glir ichi, gan fy mod wedi

full written statement on 18 October. That set out my intentions quite clearly, that I wish to reduce the number of LSCBs because we know that the existing structure is not good enough. We will reduce the number to six, and we expect those to be in place in 2013. That was clearly set out in the statement on 18 October. I know that you will agree that this is a matter for all public services, not just social services or education. I am pleased with the development of co-operation between local authorities through the Welsh Local Government Association on that issue.

On young carers, they are of course included in the Carers Strategies (Wales) Measure 2010. There is a separate chapter, fully funded, within that Measure. The regulations were introduced in January and the strategies are now being developed jointly between health, social services and the voluntary sector. I will expect to see immediate improvements for young carers in accordance with those strategies.

On child budgeting, our first priority for children should be ensuring that we make the most effective use of our interventions to deliver outcomes for children. Children's budgeting might assist in that, but this is a development that we should look at for the future. As part of the Welsh Government's commitment to the United Nations Convention on the Rights of the Child, children and young people's budgeting has been identified as a priority within 'Getting it Right', the UNCRC action plan for Wales. It is a key component in taking forward our progress towards the full realisation of the United Nations Convention on the Rights of the Child in Wales.

On school toilets, as you mentioned, guidance has been issued. I will ask the Minister for Education and Skills to respond in detail to the points that you raised this afternoon; I am sure that he will be glad to do that. It is my responsibility to ensure that

cyhoeddi datganiad ysgrifenedig llawn ar 18 Hydref. Nododd y datganiad hwnnw fy mwriad yn glir, sef fy mod am leihau nifer y byrddau lleol diogelu plant am ein bod yn gwybod nad yw'r strwythur presennol yn ddigon da. Byddwn yn lleihau nifer y byrddau i chwech, ac rydym yn disgwyl i'r rheini fod ar waith yn 2013. Cafodd y cam hwnnw ei nodi'n glir yn y datganiad ar 18 Hydref. Gwn y byddwch yn cytuno bod hwn yn fater sy'n ymwneud â'r holl wasanaethau cyhoeddus, ac nid gwasanaethau cymdeithasol neu addysg yn unig. Rwyf yn falch o'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol ar y mater hwnnw a ddatblygwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mewn perthynas â gofalwyr ifanc, maent wedi'u cynnwys, wrth gwrs, ym Mesur Gofalwyr Strategaethau (Cymru) 2010. Mae pennod ar wahân, sydd wedi'i hariannu'n llawn, o fewn y Mesur. Cyflwynwyd y rheoliadau ym mis Ionawr ac mae'r strategaethau'n cael eu datblygu ar y cyd rhwng y sector iechyd, y sector gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Byddaf yn disgwyl gweld gwelliannau ar unwaith i ofalwyr ifanc, yn unol â'r strategaethau hynny.

O ran cyllidebu ar gyfer plant, ein prif flaenoriaeth ar gyfer plant ddylai fod i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hymyriadau er mwyn sicrhau canlyniadau ar gyfer plant. Gallai cyllidebu ar gyfer plant gynorthwyo'r broses honno, ond mae hwn yn ddatblygiad y dylem ei ystyried ar gyfer y dyfodol. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae cyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn y cynllun 'Gwneud Pethau'n Iawn', sef cynllun gweithredu'r CCUHP i Gymru. Mae'n elfen allweddol o sicrhau cynnydd o ran gwreiddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn yng Nghymru.

O ran toiledau mewn ysgolion, fel y crybwyllwyd gennych, mae canllawiau wedi'u cyhoeddi. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ymateb yn fanwl i'r pwyntiau a godwyd gennych y prynhawn yma; rwyf yn siŵr y bydd yn falch

there is a response to the children's commissioner's report, but, on these detailed questions that you ask, I would prefer to ask for a written answer to follow that up.

I share some of your concerns on advocacy. I do not think that we have got it right yet, but I must point out that there are some excellent examples of good advocacy being provided, such as through the Meic service and the national independent advocacy board. Indeed, I have met young people who have served on that board, with whom I was very impressed. It has taken them a lot to be involved in that process. Therefore, I await the children's commissioner's review of advocacy with interest, and I will be providing a full response to that.

Christine Chapman: I thank the Deputy Minister for her statement and the children's commissioner for his report and his ongoing good work. I am pleased that the Welsh Government has made a commitment in this Assembly term to the delivery of our policies. The children's commissioner has highlighted once more the priority of addressing child poverty, and we need to remind ourselves of the stories behind the statistics. We know that children living in poverty are more likely to be at risk of traffic accidents, to be living in poor quality homes and are less likely to do well at school. They do not experience holidays like their peers and are reliant on day trips organised by their schools or youth clubs to experience anything beyond their own community. In view of the extent to which children's lives are directly affected by the implementation of our policies, what assurances can you give that the voices and experiences of children and young people are drawn upon by all Ministers, across their portfolios, in tackling the poverty agenda?

Gwenda Thomas: I thank Chris Chapman for that important contribution. I mentioned the external advisory group, through which I can assure you that we will ensure that the voices of children and young people are heard; it is the best way for us to listen to

o wneud hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y ceir ymateb i adroddiad y comisiynydd plant, ond byddai'n well gennyf ymateb i'r cwestiynau manwl yr ydych yn eu gofyn drwy ddarparu ateb ysgrifenedig.

Rwyf yn rhannu rhai o'ch pryderon am eiriolaeth. Ni chredaf ein bod wedi taro deuddeg eto, ond mae'n rhaid imi nodi bod rhai enghreifftiau rhagorol o eiriolaeth dda sy'n cael ei darparu, er enghraifft drwy'r gwasanaeth Meic a'r bwrdd eiriolaeth annibynnol cenedlaethol. Yn wir, rwyf wedi cwrdd â phobl ifanc sydd wedi gwasanaethu ar y bwrdd—pobl a wnaeth argraff fawr arnaf. Maent wedi gwneud ymdrech gref i gymryd rhan yn y broses honno. Felly, rwyf yn disgwyl yn awyddus am adolygiad y comisiynydd plant o wasanaethau eiriolaeth, a byddaf yn darparu ymateb llawn i'r adolygiad hwnnw.

Christine Chapman: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad a diolch i'r comisiynydd plant am ei adroddiad a'i waith da parhaus. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn y tymor hwn yn y Cynulliad i gyflawni ein polisiau. Unwaith eto, mae'r comisiynydd plant wedi tynnu sylw at y flaenoriaeth hon, sef mynd i'r afael â thlodi plant. Mae angen inni atgoffa ein hunain o'r straeon sydd y tu ôl i'r ystadegau. Gwyddom fod plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fod mewn perygl o gael damweiniau traffig ac o fod yn byw mewn tai o ansawdd gwael, ac yn llai tebygol o lwyddo yn yr ysgol. Nid ydynt yn cael gwyliau fel eu cyfoedion ac maent yn dibynnu ar wibdeithiau a drefnir gan eu hysgolion neu glybiau ieuenedid i gael profiad o unrhyw beth y tu hwnt i'w cymuned eu hunain. O ystyried y graddau y mae bywydau plant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan weithrediad ein polisiau, pa sicrwydd y gallwch chi ei roi y bydd yr holl Weinidogion, ar draws eu portffolios, yn gwrando ar leisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc wrth fynd i'r afael â'r agenda tlodi?

Gwenda Thomas: Diolch i Chris Chapman am y cyfraniad pwysig hwnnw. Soniais am y grŵp ymgynghorol allanol, a gallaf eich sicrhau y byddwn yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed drwy'r grŵp hwnnw; dyma'r ffordd orau inni

their views. I will be meeting tomorrow, I believe, with the End Child Poverty Network. We will ensure that the voices of children are heard in that way and that we build our policies in accordance with the advice that we receive.

Lindsay Whittle: The report's main point, I am afraid, is the poor record in implementing the proposals and policies of the Welsh Government. There is nothing wrong with the proposals or the policies, but it is the implementation gap that seems to be the biggest barrier to some of our most vulnerable groups of children and young people realising their rights and accessing basic services.

In the foreword to the Deputy Minister's response, the First Minister lists nine actions that the Welsh Government has taken. However, unfortunately, this does not give us an assurance in any way that the Government is proceeding quickly enough in responding to the 29 key issues that the commissioner raises in his report. Deputy Minister, how will you speed that up?

The Deputy Minister's response is detailed, but I sometimes wonder whether the various fora and strategy groups are helping to delay rather than accelerate any real action on some of the many serious concerns set out by the commissioner. Deputy Minister, are we establishing too many of these fora and strategies?

The commissioner draws particular attention to the time that it is taking to deliver on the child poverty strategy. Therefore—looking to the other side of this Chamber—given that the impact of the London Government's welfare reforms on our economy is thundering down the line, should we make this our No. 1 priority, so that the 2020 target remains realistic? I fear that too many vulnerable young people and children will be the first to suffer. Will you keep that as a realistic target?

3.00 p.m.

Deputy Minister, you have rightly highlighted the need to provide proper

wrando ar eu barn. Credaf fod gennyf gyfarfod yfory gyda'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant. Byddwn yn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn y modd hwnnw, a'n bod yn llunio ein polisiau yn unol â'r cyngor a gawn.

Lindsay Whittle: Mae arnaf ofn mai prif bwynt yr adroddiad yw'r record wael sy'n bodoli o ran gweithredu cynigion a pholisiau Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw beth o'i le ar y cynigion a'r polisiau, ond mae'n ymddangos mai'r bwlch gweithredu yw'r rhwystr mwyaf i rai o'n grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed wrth iddynt geisio gweithredu eu hawliau a chael mynediad at wasanaethau sylfaenol.

Yn y rhagair i ymateb y Dirprwy Weinidog, rhestrodd y Prif Weinidog naw o gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd. Fodd bynnag, yn anffodus, nid yw hyn yn rhoi unrhyw sicrwydd inni fod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen yn ddigon cyflym gyda'r dasg o ymateb i'r 29 o faterion allweddol a godwyd gan y comisiynydd yn ei adroddiad. Ddirprwy Weinidog, sut y byddwch yn cyflymu'r broses honno?

Mae ymateb y Dirprwy Weinidog yn un manwl, ond ni wn weithiau a yw'r fforymau a'r grwpiau strategaeth gwahanol yn helpu i arafu yn hytrach na chyflymu unrhyw wir weithredu ynghylch rhai o'r pryderon difrifol a amlinellwyd gan y comisiynydd. Ddirprwy Weinidog, a ydym yn sefydlu gormod o'r fforymau a strategaethau hyn?

Mae'r comisiynydd yn tynnu sylw arbennig at yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni'r strategaeth tlodi plant. Felly—gan edrych i ochr arall y Siambr—o ystyried bod effaith diwygiadau lles y Llywodraeth yn Llundain ar ein heconomi yn rhuthro tuag atom, a ddylem sicrhau mai hon yw ein prif flaenoriaeth, fel bod y targed ar gyfer 2020 yn parhau i fod yn realistig? Rwy'n ofni y bydd gormod o bobl ifanc a phlant sy'n agored i niwed yn dioddef gyntaf. A wnewch chi gadw hynny fel targed realistig?

Ddirprwy Weinidog, rydych wedi tynnu sylw priodol at yr angen i ddarparu cefnogaeth

support for children who have to take on the role of carers in their families, as mentioned by Angela Burns. Are you satisfied that local authorities and health boards are meeting their responsibilities in this important area of social care? You said that you expect to see improvement, but by when do you expect to see that improvement? On this side of the Chamber, we agree with the commissioner that the Welsh Government needs to commission advocacy services for children and young people. That must remain a crucial part of the commissioner's own responsibility. You said that there were good examples of advocacy, but when is the advocacy review due? It takes time to put well-intentioned policies into practice, but the main feeling that comes across in the commissioner's report is frustration.

On all the points that I have mentioned, and there are many more dealt with adequately and otherwise in the Deputy Minister's response, we know that she has pledged her commitment—that is clear; there is no question of that—but commitment is no good without real and positive action. We do not need more forums, meetings and discussions; we know what needs to be done to safeguard and improve the lives of our children and young people—we need action and we need it now. We must help fight the political corner for children in Wales. I am sure that there is a united voice on that; I have not heard any political dissent on this issue. I assure you that, as long as I am the spokesperson for my party, you will always have that political backing.

Gwenda Thomas: I thank Lindsay Whittle. With regard to the agenda that we are dealing with, I do not think that there are too many strategies or plans. However, if you have anything to say on that, I hope that you accept my open invitation to make me aware of any concerns at any time. You do not have to wait for a debate in the Chamber to bring anything that is of concern to you to my attention. The child poverty strategy is now well supported, as I explained in my previous answer to Christine Chapman. I remind the

briodol i blant sy'n gorfod ymgymryd â rôl gofawr yn eu teuluoedd, fel y soniodd Angela Burns. A ydych yn fodlon bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y maes pwysig hwn o ofal cymdeithasol? Bu ichi ddweud eich bod yn disgwyl gweld gwelliant, ond erbyn pryd rydych yn disgwyl gweld y gwelliant hwnnw? Ar yr ochr hon o'r Siambr, rydym yn cytuno gyda'r comisiynydd bod angen i Lywodraeth Cymru gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i hynny barhau i fod yn rhan hanfodol o gyfrifoldeb y comisiynydd ei hun. Dywedasoed fod enghreifftiau da o eiriolaeth, ond pryd y gallwn ddisgwyl gweld yr adolygiad eiriolaeth? Mae'n cymryd amser i roi ar waith bolisiau sy'n llawn bwriadau da, ond y prif deimlad sy'n cael ei gyfleu yn adroddiad y comisiynydd yw rhwystredigaeth.

Ar yr holl bwyntiau a grybwyllais, ac mae llawer mwy yn cael eu trin yn ddigonol ac fel arall yn ymateb y Dirprwy Weinidog, gwyddom ei bod wedi cadarnhau ei hymrwymiad—mae hynny'n glir; nid oes unrhyw amheuaeth o hynny—ond nid oes gwerth i ymrwymiad heb weithredu gwirioneddol a chadarnhaol. Nid oes angen rhagor o fforymau, cyfarfodydd a thrafodaethau; gwyddom beth sydd angen ei wneud i ddiogelu a gwella bywydau ein plant a phobl ifanc—mae angen gweithredu ac mae angen hynny nawr. Mae'n rhaid i ni helpu i ymladd cornel gwleidyddol plant yng Nghymru. Rwy'n siŵr bod llais unedig ar hynny; nid wyf wedi clywed unrhyw anghytuno gwleidyddol ar y mater hwn. Gallaf eich sicrhau, cyhyd ag y byddaf yn llefarydd i'm plaid, y byddwch bob amser yn cael y gefnogaeth wleidyddol honno.

Gwenda Thomas: Diolch, Lindsay Whittle. O ran yr agenda yr ydym yn ymdrin â hi, nid wyf yn credu bod gormod o strategaethau neu gynlluniau. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw beth i'w ddweud am hynny, rwy'n gobeithio eich bod yn derbyn fy ngwahoddiad agored i fynegi unrhyw bryderon ar unrhyw adeg. Nid oes yn rhaid i chi aros am ddatl yn y Siambr i dynnu fy sylw at unrhyw beth sy'n peri pryder i chi. Mae'r strategaeth tloedi plant yn cael cefnogaeth dda, fel yr eglurais yn fy ateb

Chamber that the UK Government has set up a commission to look at mobility and poverty and we have been invited, as we expected, to nominate a person for membership of that commission. The commission will look at the targets, policies and progress of devolved nations as well as those of England. It will be useful for us to have membership of that commission. I am concerned that we are hearing of a possible redefinition of poverty; we will be watching to see what comes of that. Feeding into that commission will be a step forward. I will keep the Chamber informed of progress on the appointment of Wales's representative to that commission.

On young carers, we have taken positive action in accordance with what young carers have told us and what they voiced their concerns about. I expect improvement to be ongoing. I do not expect any public body to wait for certain dates for improvement. The agenda has been set for quite a while and there have been improvements in service delivery. I am concerned about inconsistency, but there has been improvement and we need to celebrate that. The children's commissioner's review on advocacy is imminent. It is wise for us to await that review and then I will share my thoughts and response to that with Members.

Julie Morgan: One of the children's commissioner's roles is to give children a voice in their communities. Has the Deputy Minister assessed how much progress has been made in that field, for example with children having a voice in decisions made by local authorities, health boards or schools?

Gwenda Thomas: Thank you for that question, Julie Morgan. I would not expect that local authorities, health boards or any other public body should need to be told. We have established quite clearly—there are positive indications from local government via the Welsh Local Government Association, from the directors of social services, from the independent sector and from the voluntary sector in their responses to 'Sustainable Social Services'—that the

blaenorol i Christine Chapman. Atgoffaf y Siambr fod Llywodraeth y DU wedi sefydlu comisiwn i edrych ar symudedd a thlodi ac rydym wedi cael ein gwahodd, fel yr oeddem yn ei ddisgwyl, i enwebu rhywun i fod yn aelod o'r comisiwn. Bydd y comisiwn yn edrych ar dargedau, polisiau a chynnydd y cenhedloedd datganoledig yn ogystal â rhai Lloegr. Bydd yn ddefnyddiol i ni gael aelod ar y comisiwn. Rwy'n poeni ein bod yn clywed am y posibilrwydd o ailddiffinio tlodi; byddwn yn gwyllo i weld beth a ddaw o hynny. Bydd cyfrannu at y comisiwn yn gam ymlaen. Byddaf yn sicrhau bod y Siambr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran penodi cynrychiolydd Cymru ar y comisiwn hwnnw.

O ran gofalwyr ifanc, rydym wedi cymryd camau cadarnhaol yn unol â'r hyn y mae gofalwyr ifanc wedi ei ddweud wrthym a'r hyn sy'n peri pryder iddynt. Rwy'n disgwyl i'r gwelliant fod yn barhaus. Nid wyf yn disgwyl i unrhyw gorff cyhoeddus aros am ddyddiadau penodol i wella. Mae'r agenda wedi ei osod ers cryn amser a chafwyd gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Rwy'n poeni am anghysondeb, ond bu gwelliant ac mae angen dathlu hynny. Rydym yn disgwyl adolygiad y comisiynydd plant ar eiriolaeth cyn bo hir. Mae'n ddoeth i ni aros am yr adolygiad hwnnw ac yna byddaf yn rhannu fy meddyliau a'm hymateb i hynny gydag Aelodau.

Julie Morgan: Un o rolau'r comisiynydd plant yw rhoi llais i blant yn eu cymunedau. A yw'r Dirprwy Weinidog wedi asesu faint o gynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwnnw, er enghraifft gyda phlant yn cael llais o ran penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd neu ysgolion?

Gwenda Thomas: Diolch am y cwestiwn hwnnw, Julie Morgan. Ni fyddwn yn disgwyl gorfod tynnu sylw awdurdodau lleol, byrddau iechyd neu unrhyw gorff cyhoeddus arall at hynny. Rydym wedi sefydlu yn eithaf clir—mae arwyddion cadarnhaol oddi wrth lywodraeth leol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, oddi wrth gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, ac oddi wrth y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol yn eu hymatebion i

voices of children have to be heard. That is not negotiable; it is critical to the development of sustainable social services. The social services Bill that I introduced yesterday to people in Pontypridd will make it absolutely clear that the voices of children have to underpin all policy developments, and children have to be involved in all decisions that affect them.

Aled Roberts: Diolch am eich datganiad y prynhawn yma, Ddirprwy Weinidog. Hoffwn gydnabod gwaith Keith Towler, y comisiynydd plant, ond mae perygl imi ailadrodd rhai o'r pwyntiau a wnaeth Lindsay Whittle. Yn ystod dadl ym mis Tachwedd, soniodd Lynne Neagle am rwystredigaeth—sy'n air da yn y Gymraeg—ynglŷn â faint o weithiau rydym yn clywed yr un materion yn cael eu codi yn yr adroddiadau hyn. Mae sôn yn yr adroddiad am broblemau o ran cyflwyno gwasanaethau. Clywais yr wythnos diwethaf am blentyn yn y gogledd a oedd wedi aros 17 mis am gadair olwyn. Mae'n hawdd inni eistedd yma yn y Cynulliad yn sôn am gyhoeddi strategaethau a chreu grwpiau gorchwyl ar y gwahanol bolisiau a strategaethau, ond rwy'n credu bod rhwystredigaeth ynglŷn â rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni ar ran ein plant a'n pobl ifanc. A oes rôl, felly, i uned gyflawni'r Llywodraeth o ran gweld a yw'r strategaethau hynny'n cael eu gwireddu a'u cyflawni?

Hefyd, o ran y pwynt a wnaeth Angela Burns, yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, nid oedd yn glir sut yn union mae'r Llywodraeth yn defnyddio cyllidebu plant ar gyfer ei gwahanol raglenni. A ydych yn sicr yn eich barn eich hun ynglŷn â'r ffaith bod gwasanaeth Decrhau'n Deg yn cael ei ehangu? Wrth gyflawni'r addewid ynglŷn â'r plant mwyaf difreintiedig, a oes perygl o amharu ar wasanaethau cyffredinol, oherwydd bod ymwelwyr iechyd yn cael eu trosglwyddo o'r gwasanaethau cyffredinol i wasanaethau plant?

Gwenda Thomas: Os ydym yn codi'r un materion dro ar ôl tro, efallai ei bod yn bwysig inni wneud hynny. Fel y dywedais wrth Lindsay Whittle, nid wyf yn meddwl

'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'—bod yn rhaid i leisiau plant gael eu clywed. Nid yw hynny'n agored i drafodaeth; mae'n hanfodol i ddatblygiad gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Bydd y Mesur gwasanaethau cymdeithasol a gyflwynais ddoe i bobl ym Mhontypridd yn ei gwneud yn gwbl glir mai leisiau plant yw sail pob datblygiad polisi, ac mae'n rhaid cynnwys plant yn yr holl benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Aled Roberts: Thank you for your statement, Deputy Minister. I would like to recognise the work of Keith Towler, the children's commissioner, but there is a risk that I would reiterate some of the points made by Lindsay Whittle. During a debate in November, Lynne Neagle said that there was frustration—*rhwystredigaeth* is a good word in Welsh—at how many times we had heard the same issues raised in these reports. There is mention in the report of problems with the delivery of services. I heard last week of a child in north Wales who had waited 17 months for a wheelchair. It is all very well for us to sit here in the Assembly talking about the publication of strategies and the creation of taskforces on various policies and strategies, but I think that there is some frustration about some of the services delivered on behalf of our children and young people. Is there a role, therefore, for the Government's delivery unit in assessing whether these strategies are implemented and delivered?

Also, in terms of the point made by Angela Burns, in the deliberations of the Children and Young People Committee, it was not clear how the Government is using children's budgeting for its various programmes. Are you certain in your own mind that the Flying Start service is being expanded? In delivering that pledge on the most disadvantaged children, is there not a risk that more general services are being impaired, as health visitors are transferred from general services into children's services?

Gwenda Thomas: If we raise the same issues time and again, it may be that that is important. As I told Lindsay Whittle, I do not think that there are too many strategies or

bod gormod o strategaethau na pholisïau, ond mae'n rhaid inni edrych ar ddwyn popeth at ei gilydd, a gwneud hynny'n effeithiol.

Rwy'n clywed eich pwynt ar gadeiriau olwyn. Mae'r Gweinidog wedi ymateb i ddadl yr wythnos diwethaf yn y Siambr. Rwy'n siŵr ein bod yn cofio'r hyn a ddywedodd y Gweinidog ac rwy'n siŵr y bydd yn mynd â'r mater hwn yn ei flaen. Rwy'n sylwi bod y comisiynydd ei hun yn dweud bod gwelliant wedi bod, ond bod rhai materion o hyd i ymateb iddynt.

Mae'r Bil gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Bydd hynny'n hollbwysig, yn enwedig i blant sy'n gadael gofal, neu blant bregus. Byddwn hefyd yn gosod safonau sefydledig, a bydd hynny'n bwysig. Rwy'n meddwl mai'r Bil yw'r cyfrwng inni fynd â'r agenda hollbwysig honno yn ei blaen.

Ar Dechrau'n Deg, rydych wedi codi'r pwynt o'r blaen a yw gwasanaethau cyffredinol eraill yn mynd i orfod talu am godi'r niferoedd sydd ar gael ar gyfer Dechrau'n Deg. Rhaid ystyried y bydd y plant o dan sylw yn rhan o'r gwasanaeth cyffredinol ac yn rhan o Dechrau'n Deg—yn aml, yr un plant fydd y rhain. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i roi ateb i chi ar y pwynt hwn. Nid wyf yn gwybod a gawsoch ateb, ond rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ymrwymedig i wneud hynny.

Kenneth Skates: I thank you for your statement today, and for the clear vision and commitment that you have consistently shown for improving social services for young people in Wales. As you know, one of the issues that I am very much concerned to see addressed is the transition pathway of looked-after children from care to independent adult life. I look forward to working with you on the care-leavers scheme that we have agreed to develop together.

Following on from that, one issue that has come up in my role as chair of the all-party group on mental health is the issue of the new mental health strategy for Wales. One item raised by the children's commissioner in his

policies, but we have to look at co-ordinating everything effectively.

I heard your point about wheelchairs. The Minister responded to a debate last week in the Chamber. I am sure that we will all remember what the Minister said, and I am sure that she will take this matter forward. I see that the commissioner himself says that there has been an improvement but that there are still some matters to be addressed.

The social services Bill includes a framework for national outcomes. That will be vital, especially for children leaving care or for vulnerable children. We will also set established standards, which will be important. I believe that the Bill is the tool by which we take this vital agenda forward.

On Flying Start, you have previously asked whether general services will have to pay the price for increasing the numbers available for Flying Start. We must consider that the children concerned will come under general services and Flying Start—they will often be the same children. However, the Minister has already given a commitment to reply to you on that point. I do not know whether you have received a reply, but I know that the Minister has given a commitment to reply to you.

Kenneth Skates: Diolch am eich datganiad heddiw, ac am y weledigaeth glir a'r ymrwymiad rydych wedi ei ddangos yn gyson o ran gwella gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Fel y gwyddoch, un o'r materion rwy'n awyddus iawn i'w gweld yn cael sylw yw'r llwybr pontio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wrth iddynt symud o ofal i fywyd annibynnol fel oedolyn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar y cynllun ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yr ydym wedi cytuno i'w ddatblygu gyda'n gilydd.

Yn dilyn hynny, un mater sydd wedi codi yn fy rôl fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar iechyd meddwl yw'r strategaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer Cymru. Un eitem a godwyd gan y comisiynydd plant yn ei

report is the mainstream child and adolescent mental health services provision and improving services for children and young people with emotional and mental health needs. What work are you doing with the Minister for Health and Social Services in developing the mental health strategy and in helping to shape a co-ordinated approach to the delivery model of mental health services for care leavers and for other vulnerable young people in Wales?

Gwenda Thomas: Thank you for that contribution, and for your ongoing co-operation in developing the scheme for looked-after children, which you so successfully moved in this Chamber. I am sure that that will move forward apace and that, by the summer, we will be able to tell the Assembly how we have taken that forward.

On the mental health of children and young people, the Minister for health has developed clear policies. We work closely together and consider these issues, as they affect the social care and health needs of these children. I am sure that the Minister will want to respond to you, and will give you an update on her position on mental health. She is committed to the strategy and also to developing these services. The recent development in Bridgend is, I am sure, very welcome.

Vaughan Gething: Thank you for your statement and for your transparent commitment to the welfare of children, Deputy Minister. I want to raise a matter that has been touched on by others, and also in the commission's report, on the impact on our child poverty targets. The reality is that not all the levers that affect child poverty in Wales are based here; we are affected by the actions of the UK Government. That is particularly true today, given that Save the Children has released a report that estimates that up to 54,000 single-parent families in Wales could lose up to £68 a week with the universal credit. We also know that, in relation to welfare reform, only 12% of cuts have been made thus far. I welcome our

adroddiad yw darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd i blant a phobl ifanc a gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Pa waith yr ydych yn ei wneud gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl ac i helpu i lunio dull cydgysylltiedig o ran y model i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl sy'n gadael gofal ac i bobl ifanc eraill sy'n agored i niwed yng Nghymru?

Gwenda Thomas: Diolch yn fawr am y cyfraniad hwnnw, ac am eich cydweithrediad parhaus wrth ddatblygu'r cynllun ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y bu ichi ei gynnig yn llwyddiannus yn y Siambr hon. Rwy'n siŵr y bydd yn symud ymlaen yn gyflym ac y byddwn, erbyn yr haf, yn gallu dweud wrth y Cynulliad sut rydym wedi symud ymlaen ar hynny.

O ran iechyd meddwl plant a phobl ifanc, mae'r Gweinidog iechyd wedi datblygu polisïau clir. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n gilydd ac yn ystyried y materion hyn, oherwydd maent yn effeithio ar anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd y plant hyn. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn dymuno ymateb i chi, ac y bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ei safbwynt ynghylch iechyd meddwl. Mae hi wedi ymrwmo i'r strategaeth a hefyd i ddatblygu'r gwasanaethau hyn. Rwy'n siŵr bod croeso mawr i'r datblygiad diweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Vaughan Gething: Diolch ichi am eich datganiad ac am eich ymrwymiad clir i les plant, Ddirprwy Weinidog. Rwyf am godi mater a grybwyllwyd gan eraill, a hefyd yn adroddiad y comisiwn, sef yr effaith ar ein targedau tlodi plant. Y realiti yw nad yw popeth sy'n effeithio ar dlodi plant yng Nghymru wedi ei leoli yma; rydym yn cael ein heffeithio gan weithredoedd Llywodraeth y DU. Mae hynny'n arbennig o wir heddiw, o gofio bod Achub y Plant wedi cyhoeddi adroddiad sy'n amcangyfrif y gallai hyd at 54,000 o deuluoedd un rhiant yng Nghymru gollu hyd at £68 yr wythnos gyda'r credyd cynhwysol. Gwyddom hefyd, mewn perthynas â diwygio lles, mai dim ond 12% o'r toriadau a wnaed hyd yn hyn. Rwy'n

commitment and the commitment of Flying Start and other programmes, but my question is this: given the differing policy levers and directions between the Welsh Government and the UK Government, as far as child poverty is concerned, how much progress will we be able to make on reducing child poverty in Wales? Will you continue to update Members on the progress of that child poverty work, bearing in mind the impact of UK Government policies in that area?

Gwenda Thomas: I thank Vaughan Gething for that question. The impact of income poverty on child poverty targets cannot be underestimated. Those are levers that are firmly in the control of the United Kingdom Government. That is not to say that we should use that as a reason for not doing our best, as the Welsh Government, to alleviate the effects of poverty. We are responsible for the welfare of those children, and we will seek to reach those targets. When you see the full impact of welfare reform, you feel that you are moving one step forward and two steps back.

3.15 p.m.

There is no doubt that the poorest people, and, therefore, children, will be affected regressively by these policies. However, we are determined to invest in and to develop preventative services such as Flying Start, Families First and integrated family support teams. We are beginning to see the shoots of success as a result of that investment, and we have legislated here for the integration of health and social services. I believe that taking preventative action is the best way that we as a Government can attempt to alleviate the effects of the terrible poverty that some children have to live with.

croesawu ein hymrwymiad ac ymrwymiad Dechrau'n Deg a rhaglenni eraill, ond fy nghwestiwn yw: o ystyried yr ysgogiadau polisi a'r cyfeiriadau gwahanol sydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran tlodi plant, faint o gynnydd y gallwn ei wneud o ran lleihau tlodi plant yng Nghymru? A fyddwch yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd y gwaith hwnnw ar dlodi plant, gan gofio effaith polisïau Llywodraeth y DU yn y maes hwnnw?

Gwenda Thomas: Diolch i Vaughan Gething am y cwestiwn hwnnw. Ni ellir diystyru effaith tlodi incwm ar dargedau tlodi plant. Mae'r rheini'n ffactorau sydd o dan reolaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid yw hynny'n rheswm dros beidio â gwneud ein gorau, fel Llywodraeth Cymru, i leddfu effeithiau tlodi. Rydym yn gyfrifol am les y plant hynny, a byddwn yn ceisio cyrraedd y targedau hynny. Pan welwch effaith lawn diwygio lles, rydych yn teimlo eich bod yn symud un cam ymlaen a dau gam yn ôl.

Nid oes amheuaeth y bydd y bobl dlotaf, ac, felly, plant, yn cael eu heffeithio mewn modd atchweliadol gan y polisïau hyn. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a thimau cymorth integredig i deuluoedd a'u datblygu. Rydym yn dechrau gweld llwyddiant o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw, ac rydym wedi deddfu yma er mwyn integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Credaf mai cymryd camau ataliol yw'r ffordd orau y gallwn ni, fel Llywodraeth, geisio lliniaru effaith y tlodi erchyll y mae rhai plant yn gorfod ei ddioddef.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.16 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.16 p.m.*

Diwygio Budd-dal Tai Housing Benefit Reform

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Peter Black, amendments 2 and 3 in the name of

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Peter Black, gwelliannau 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 4

Jocelyn Davies, and amendments 4 and 5 in the name of William Graham. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 4 will be deselected.

Cynnig NDM4934 Jane Hutt

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at yr effaith y bydd newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i fudd-dal tai yn ei chael ar bobl dlotaf Cymru;

2. Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w wneud gyda rhanddeiliaid i helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I move the motion.

I am pleased to open this debate on housing benefit reform. It is an opportunity for me to highlight the significant impacts that the changes will have on the people of Wales and what this Welsh Government is doing to try to mitigate those impacts.

First, I would like to address the amendments tabled to the motion for debate. We will support the amendments to the motion from Jocelyn Davies with regard to low-paid workers and the report from Cuts Watch Cymru, amendments 2 and 3.

However, amendment 4 from William Graham states his belief that

‘the time has come for talking with stakeholders to end’.

DU, sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, yn ymwneud â rhoi sgiliau newydd i bobl sydd ymhell o'r farchnad swyddi. Yng nghynhadledd Goleuo'r Gogledd fis Tachwedd diwethaf, disgrifiwyd rhaglen waith y DU fel un o'r rhaglenni budd-dal i waith mwyaf y mae'r DU wedi'u gweld erioed. O blith y 244,000 o aelwydydd yng Nghymru sy'n cael budd-dal tai, amcangyfrifir bod y newidiadau i'r lwfans tai lleol yn effeithio ar 48,000 ohonynt. Dim ond 22% o'r bobl hyn sy'n ddi-waith yn swyddogol, ac mae'r rhan fwyaf o'r gweddill ymhlith y 550,000 o bobl oed gweithio ychwanegol yng Nghymru nad ydynt yn gweithio. Mae llawer o'r rhain yn bobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl ac sy'n awyddus i weithio, ond maent yn cael eu hatal gan y rhwystrau presennol yn y system dreth a budd-daliadau. Mae'r diwygiadau sydd ar y gweill yn ceisio ymdrin â'r rhain.

Mae gwelliant 4 yn cydnabod ei bod yn bryd i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i siarad â rhanddeiliaid—ac roedd ail ran na chyfeiriwyd ati gan y Gweinidog—a sefydlu modelau darparu da i gynorthwyo pobl gyda'r newidiadau. Bron flwyddyn yn ôl, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid wrthyf ei bod, drwy weithio gydag asiantaethau gosod cymdeithasol, eisoes wedi cynnwys gostyngiadau newydd yn y lwfans tai lleol a bod angen rheoli newid mewn awdurdodau lleol. Dywedwyd wrthyf fod landlordiaid yn gwybod sut a ble i brynu, a'u bod yn gwybod beth sydd ei angen arnynt i adnewyddu i safon dderbyniol. Fodd bynnag, ychwanegodd y gymdeithas na fyddai'r cyflenwad o dai ond yn addasu pe baem yn gwneud rhywbeth bryd hynny, a fyddai'n gofyn am ffordd newydd o weithio a gwir bartneriaeth â'r sector cyhoeddus mewn cyfnod o newid er mwyn i'r cyflenwad ddod yn gyfartal. Flwyddyn yn ddiweddarach, dywedir wrthyf fod llawer o siarad, ond nad oes llawer yn digwydd o hyd yn y rhan fwyaf o Gymru. Gyda chymaint yn cael ei gynnig gan y sector cyhoeddus ar gyfer y sector rhentu preifat, maent yn teimlo na fyddant yn darparu'r gwerth gorau ar gyfer y bunt Gymreig os nad ydynt yn cael eu cynnwys yn llawn. Yr wythnos diwethaf oedd hynny.

Ar ôl gorfodi toriadau enfawr ym maes tai cymdeithasol ers datganoli, er gwaethaf

of a housing crisis, going back a decade, it is for the Welsh Government to explain why there is insufficient appropriately sized accommodation for social housing tenants. Some might think that the Welsh Government was seeking to maximise the pain in order to capitalise on the blame. However, if you are not part of the solution, you are part of the problem.

The Deputy Presiding Officer: A lot of Members wish to speak in this debate, and I will only be able to call everyone if they are as succinct as possible.

Lynne Neagle: I believe that the latest raft of changes to the housing benefit system will do huge damage to households and communities here in Wales, just as the thirtieth percentile change to local housing allowance last April left nearly 40,000 low-income households in Wales an average £500 a year worse off. The DWP's own figures suggest that the Tories' latest attack on the poorest—the so-called bedroom tax—will leave nearly 40,000 Welsh social housing tenants an average £11 a week out of pocket. Bron Afon Community Housing Ltd, the largest providers of social housing in my constituency, estimates that, depending on how this is implemented, anywhere between 1,700 and 1,900 of its tenants in Torfaen will be considered to be underoccupying under these plans. Melin Homes has told me that it thinks that nearly 350 of its tenants will be affected. So, that is at least 2,000 households in Torfaen alone potentially facing a choice between moving home or going into arrears and debt. That is 2,000 households that may need to join the already long waiting lists, competing with those needing accommodation for the first time, including vulnerable adults, care leavers and women fleeing domestic abuse, who already need our help and support and a roof over their heads.

I really fear for the kind of chaotic and unstable situations that this will lead to, with

rhybuddyn dro ar ôl tro ynghylch argyfwng tai, hyd at ddegawd yn ôl, rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes digon o lety o faint priodol ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol. Efallai y bydd rhai yn credu bod Llywodraeth Cymru'n ceisio peri'r poen mwyaf er mwyn elwa o roi'r bai. Fodd bynnag, os nad ydych yn rhan o'r ateb, rydych yn rhan o'r broblem.

Y Dirprwy Lywydd: Mae llawer o Aelodau yn dymuno siarad yn y ddaidl hon, ac ni fyddaf yn gallu galw pawb oni bai eu bod mor gryno â phosibl.

Lynne Neagle: Credaf y bydd y gyfres ddiweddaraf o newidiadau i'r system budd-daliadau tai yn gwneud niwed mawr i aelwydydd a chymunedau yng Nghymru, yn union fel y gwnaeth y newid 30 canradd i lwfans tai lleol fis Ebrill diwethaf olygu bod bron 40,000 o gartrefi incwm isel yng Nghymru yn waeth eu byd o £500 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau ei hun yn awgrymu y bydd ymosodiad diweddaraf y Torïaid ar y bobl dlotaf—y dreth ystafell wely, fel y'i gelwir—yn golygu y bydd bron 40,000 o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn cael £11 yn llai, ar gyfartaledd, bob wythnos. Mae Tai Cymunedol Bron Afon Cyf, y darparwr mwyaf o dai cymdeithasol yn fy etholaeth, yn amcangyfrif y bydd rhwng 1,700 a 1,900 o'i denantiaid yn Nhor-faen yn cael eu hystyried yn tanfeddiannu o dan y cynlluniau hyn, yn dibynnu ar sut y caiff hyn ei weithredu. Mae Tai Melin wedi dweud wrthyf ei fod yn credu y bydd y cynlluniau'n effeithio ar bron 350 o'i denantiaid. Felly, bydd o leiaf 2,000 o aelwydydd yn Nhor-faen yn unig o bosibl yn wynebu'r dewis rhwng symud cartref neu fynd i ddyledion ac ôl-ddyledion. Mae hynny'n 2,000 o gartrefi y gallai fod angen iddynt ymuno â rhestrau aros, sydd eisoes yn hir, gan gystadlu â'r rhai y mae angen llety arnynt am y tro cyntaf, gan gynnwys oedolion sy'n agored i niwed, pobl sy'n gadael gofal a menywod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, y mae angen ein cymorth, ein cefnogaeth, a tho uwch eu pennau eisoes arnynt.

Rwyf yn wir yn pryderu am y mathau o sefyllfaoedd anhrefnus ac ansefydlog y bydd

families constantly toing and froing between different accommodation as their needs change and big increases in the number of households forced to live in temporary accommodation because of underlying shortages of suitable accommodation.

This is frightening enough on its own, but drill down into the detail and a myriad potential pitfalls and unforeseen consequences are exposed. Is it right, for example, that only one single-sized bedroom should be allowed for every two children of the same sex, regardless of their age? Leaving aside the practicalities, such as how you would fit two teenage boys who may be 6 ft tall and 14 stone in a small single bedroom, evidence has demonstrated that having private space to study is closely linked to educational achievement, and we know that overcrowding can seriously impact on health outcomes. This could mean real heartache for parents who have separated but share parental access and need a spare bedroom for when their child stays. As things stand, they would be considered to be underoccupying two rooms. Surely, we should not be financially penalising people for trying to do the right thing by their families, thereby forcing people to choose between debt, potential homelessness and seeing their child. It is still unclear what will happen to foster parents who face losing benefits during periods when a spare bedroom is not in use by a child in their care. We should be seeking to encourage them in their vital work, not putting them off by forcing them into financial difficulties.

3.45 p.m.

All of this will be exacerbated by the moves towards the direct payment of housing benefit by the UK Government. We know that when it was piloted in England it resulted in an 80% increase in rent arrears. If that was replicated here, as well as leading to a dramatic increase in homelessness, it has the potential to threaten the very financial stability of Welsh housing associations.

hyn yn eu creu, gyda theuluoedd yn mynd a dod yn gyson rhwng cartrefi gwahanol wrth i'w hanghenion newid, a chynnydd mawr yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu gorfodi i fyw mewn llety dros dro oherwydd prinder sylfaenol o lety addas.

Mae hyn yn ddigon brawychus ar ei ben ei hun, ond o fynd at wraidd y sefyllfa mae lluo o faglau posibl a chanlyniadau annisgwyl yn cael eu hamlygu. A yw'n iawn, er enghraifft, mai dim ond un ystafell wely maint sengl y dylid ei ganiatáu ar gyfer pob dau blentyn o'r un rhyw, waeth beth yw eu hoed? Gan adael yr agweddau ymarferol o'r neilltu, fel sut y byddai lle i ddau fachgen yn eu harddegau, a allai fod yn 6 troedfedd o daldra a 14 stôn o bwysau, mewn ystafell wely sengl bychan, mae tystiolaeth wedi dangos bod cysylltiad agos rhwng cael lle preifat i astudio a chyrhaeddiad addysgol, a gwyddom y gall gorlenwi gael effaith ddifrifol ar ganlyniadau iechyd. Gallai hyn olygu gofid gwirioneddol i rieni sydd wedi gwahanu ond sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros eu plant, ac y mae angen ystafell wely sbâr arnynt pan fydd eu plentyn yn aros. Fel y mae ar hyn o bryd, ystyrir eu bod yn tanfeddiannu dwy ystafell. Yn sicr, ni ddylem fod yn cosbi pobl yn ariannol am geisio gwneud y peth iawn ar gyfer eu teuluoedd, gan orfodi pobl i ddewis rhwng dyled, digartrefedd posibl a gweld eu plentyn. Mae'n dal yn aneglur beth fydd yn digwydd i rieni maeth sy'n wynebu colli budd-daliadau yn ystod cyfnodau pan na fydd ystafell wely sbâr yn cael ei defnyddio gan blentyn yn eu gofal. Dylem fod yn ceisio eu hannog yn eu gwaith hanfodol, nid yn eu perswadio i beidio â'i wneud gan eu gorfodi i brofi trafferthion ariannol.

Bydd hyn oll yn gwaethygu o ganlyniad i'r newid i gael taliadau uniongyrchol ar gyfer budd-dal tai a weithredir gan Lywodraeth y DU. Pan gafodd ei dreialu yn Lloegr, gwyddom y bu iddo arwain at gynnydd o 80% mewn ôl-ddyledion rhent. Os bydd hynny'n cael ei ailadrodd yma, yn ogystal ag arwain at gynnydd dramatig mewn digartrefedd, mae ganddo'r potensial i fygwth sefydlogrwydd ariannol cymdeithasau tai Cymru.

I welcome the work that the Welsh Government is doing to analyse data on the impact of these changes, and I fully support its commitment to try to mitigate the worst effects of these reforms on the most vulnerable, but I think that we all need to be alive to the tidal wave that is about to engulf the Welsh social housing sector. That is why I was genuinely shocked when Antoinette Sandbach stood up in this Chamber last week and said that only 2,000 households in Wales would be hit by the raft of changes to the housing benefits system. It was a grossly laissez-faire attitude to adopt when you consider the tens of thousands of households in this country, including her constituents, who will be affected by these changes to housing benefit. For me, her intervention underlines the gaping disconnect between the Welsh Conservatives and the worries and pressures facing people up and down this country.

Perhaps fairness simply is not in the Tory DNA, but I must say that I am also disappointed at the Lib Dem amendment before us today. The party has made great play of its supposed influence over the coalition Government in recent weeks. In my view, making those with the least pay the most should never be the answer of a party that claims to believe in social justice. The Lib Dem amendment that tries to justify these changes in the name of tackling the deficit ignores the fact that Lib Dem Members of Parliament had a choice about whether to support one of the most pernicious pieces of housing legislation that we have seen in many years. There are other ways to tackle the deficit and reform housing benefit without persecuting the poor and driving them into homelessness.

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Lynne Neagle: Yet support it the Lib Dem MPs did. Shame on them for doing so, and shame on the Welsh Lib Dems for defending that today.

Croesawaf y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddadansoddi data ar effaith y newidiadau hyn, ac rwy'n cefnogi'n llwyr ei hymrwymiad i geisio lliniaru effeithiau gwaethaf y diwygiadau hyn ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed, ond credaf fod angen i ni i gyd fod yn ymwybodol o'r don anferth sydd ar fin llyncu'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Cefais felly sioc wirioneddol pan safodd Antoinette Sandbach yn y Siambr hon yr wythnos diwethaf a dweud mai dim ond 2,000 o aelwydydd yng Nghymru fydd yn cael eu heffeithio gan y llu o newidiadau i'r system budd-daliadau tai. Roedd yn agwedd ofnadwy o laissez-faire i'w mabwysiadu pan ystyriwch y degau o filoedd o aelwydydd yn y wlad hon, gan gynnwys ei hetholwyr hi, a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn i'r budd-dal tai. I mi, mae ei hymyriad yn tanlinellu'r bwlch enfawr rhwng y Ceidwadwyr Cymreig a'r pryderon a'r pwysau sy'n wynebu pobl ledled y wlad hon.

Efallai nad yw tegwch yn y DNA Toriaidd, ond rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig hefyd i weld gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol sydd ger ein bron heddiw. Mae'r blaidd wedi gwneud yn fawr o'i dylanwad honedig dros y Llywodraeth glymbleidiol dros yr wythnosau diwethaf. Yn fy marn i, ni ddylai gwneud i'r rhai sydd â'r lleiaf dalu'r mwyaf fyth fod yn ateb gan blaidd sy'n honni ei fod yn credu mewn cyfiawnder cymdeithasol. Mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n ceisio cyfiawnhau'r newidiadau hyn drwy honni eu bod yn mynd i'r afael â'r diffyg, yn anwybyddu'r ffaith bod gan Aelodau Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol ddewis ynghylch a ddylid cefnogi un o'r darnau o ddeddfwriaeth tai mwyaf dinistriol yr ydym wedi ei weld ers blynyddoedd. Mae ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r diffyg a diwygio budd-dal tai heb erlid y tlawd a'u gyrru i ddigartrefedd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rhaid i chi gloi yn awr, os gwelwch yn dda.

Lynne Neagle: Fodd bynnag, bu i Aelodau Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol ei gefnogi. Cywilydd arnynt am wneud hynny, a chywilydd ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am amddiffyn hynny heddiw.

Antoinette Sandbach: Back in January of this year, the Labour leader, Ed Miliband, stated plainly that he believed that anyone who can work, should work. That is one of the key principles of the Welfare Reform Bill and the proposals to change housing benefit, and it is one that I hope that all Members here could and would support. One-hundred-and-eighty-six thousand households in Wales will be unaffected by these changes. There is a clear need to reform the current system. In 2009, the UK Labour Government consultation noted that,

‘In some areas, Housing Benefit can support customers to live in accommodation that many people in work cannot afford.’

Under Labour’s system, the maximum housing benefit awarded for a single property reached £104,000 a year. This cannot go on. It is a gross misallocation of public money, which should be targeted at those who genuinely need it most. The UK Government’s reforms are fundamentally driven by the need to put fairness back into the system, and to deliver value for money for the taxpayer. Size restrictions for tenants receiving housing benefit stops money being wasted on accommodation that is too big for a tenant’s needs. There are 40,000 under-occupied social housing tenancies in Wales. Again, we see that Lynne Neagle is badly briefed or poorly prepared in that there is an additional bedroom allowance for carers where there is a need for overnight care; that would deal with lone parents and, indeed, foster parents.

Lynne Neagle *rose*—

Antoinette Sandbach: I am not taking an intervention, Lynne; you took a pop at me.

That gives extra flexibility to allow social housing landlords to receive local housing allowance directly if they reduce their rents. Labour, which has held power in this Assembly since its inception, is also accountable for its lamentable failure to provide and build sufficient affordable

Antoinette Sandbach: Yn ôl ym mis Ionawr eleni, bu i arweinydd Llafur, Ed Miliband, ddatgan yn glir ei fod yn credu y dylai unrhyw un sy’n gallu gweithio, weithio. Dyna un o egwyddorion allweddol y Bil Diwygio Lles a’r cynigion i newid budd-dal tai, ac mae’n un yr wyf yn gobeithio y gallai bob Aelod yma ei gefnogi, a gobeithiaf y gwnânt hynny. Ni fydd 186,000 o aelwydydd yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn. Mae angen clir i ddiwygio’r system bresennol. Yn 2009, nododd ymgynghoriad Llywodraeth Llafur y DU,

Mewn rhai ardaloedd, gall budd-dal tai gynorthwyo cwsmeriaid i fyw mewn llety na all nifer o bobl sydd mewn gwaith ei fforddio.

O dan system Llafur, y budd-dal tai mwyaf a roddwyd ar gyfer un eiddo oedd £104,000 y flwyddyn. Ni all hyn barhau. Mae’n gam-ddyraniad llwyr o arian cyhoeddus, y dylid ei dargedu at y rhai sydd wirioneddol ei angen fwyaf. Yn sylfaenol, mae diwygiadau Llywodraeth y DU yn ganlyniad i’r angen i ailgyflwyno tegwch i’r system, ac i sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr. Mae cyfyngiadau maint ar gyfer tenantiaid sy’n cael budd-dal tai yn rhwystro arian rhag cael ei wastraffu ar lety sy’n fwy nag sydd ei angen i ddiwallu anghenion y tenant. Mae 40,000 o denantiaethau tai cymdeithasol sydd wedi eu tanfeddiannu yng Nghymru. Unwaith eto, rydym yn gweld bod Lynne Neagle wedi cael ei briffio’n wael neu heb baratoi yn iawn, oherwydd mae lwfans ystafell wely ychwanegol ar gael ar gyfer gofalwyr lle mae angen gofal dros nos; byddai hynny’n ymdrin â rhieni unigol ac, yn wir, rhieni maeth.

Lynne Neagle *a gododd*—

Antoinette Sandbach: Nid wyf yn ildio, Lynne; bu ichi ymosod arna i.

Mae hynny’n rhoi hyblygrwydd ychwanegol i ganiatáu i landlordiaid tai cymdeithasol gael lwfans tai lleol yn uniongyrchol os ydynt yn lleihau eu rhenti. Mae Llafur, a fu mewn pŵer yn y Cynulliad ers ei sefydlu, hefyd yn atebol am ei fethiant truenus i ddarparu ac adeiladu digon o dai fforddiadwy. Mae llai yn

housing. There is less being built now than under Margaret Thatcher in 1993. Why are these changes necessary? The Labour UK Government ruined the state of public finances with wasteful overspending and presided over a benefits system that discouraged people able to work from seeking employment. This has left Wales with up to one in five children growing up in a workless household. The Welfare Reform Bill and the cap on benefits are fundamentally fair: £26,000 is the equivalent of a pre-tax income of £35,000. It is simply not fair for workless households to receive more in benefits than the average wage of a working family. Those who have a genuine need for additional support are exempt—those receiving disability living allowance, the personal independence payment, the attendance allowance, and so on.

The UK Government's approach with the Welfare Reform Bill is to tackle the legacy of unfairness, abuse and waste. The Minister claims that the UK is either not listening or does not care. That is completely inaccurate and, again, is typical of the kind of briefing that is being given to Ministers in this Chamber. Both the Social Security Advisory Committee and the House of Commons' Work and Pensions Select Committee have carried out consultation exercises in relation to these changes that were announced in June 2010. In response to representations made by these committees, the Government announced a delay in implementing the local housing allowance changes in respect of existing payments, additional flexibility to pay LHA direct to landlords when they reduce their rents, additional funding for discretionary housing payments and independent research into the impact of the changes to report by 2013, before the transition to universal credits begins.

The First Minister has gone on record as saying that it would be better if these proposals were not taken forward at all in any part of the UK. I believe that he is badly out of touch with working families across Wales. His Government should reconsider its opposition and work with the UK

cael eu hadeiladu yn awr nag o dan Margaret Thatcher ym 1993. Pam fod y newidiadau hyn yn angenrheidiol? Bu i Lywodraeth Llafur y DU ddifetha cyflwr cyllid cyhoeddus gyda gorwariant gwastraffus a llywyddodd dros system fudd-dal a oedd yn annog pobl a oedd yn gallu gweithio i beidio â chwilio am waith. Mae hyn wedi gadael Cymru gyda hyd at un o bob pump o blant yn tyfu i fyny mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio. Yn eu hanfod, mae'r Bil Diwygio Lles a'r cap ar fudd-daliadau yn deg: mae £26,000 yn cyfateb i incwm cyn treth o £35,000. Nid yw'n deg i aelwydydd di-waith gael mwy o fudd-daliadau na'r cyflog cyfartalog ar gyfer teulu sydd mewn gwaith. Mae'r rhai sydd ag angen gwirioneddol am gymorth ychwanegol yn cael eu heithrio—y rheini sy'n cael lwfans byw i'r anabl, y taliad annibyniaeth bersonol, y lwfans gweini, ac yn y blaen.

Diben dull Llywodraeth y DU o ymdrin â'r broblem drwy'r Bil Diwygio Lles yw mynd i'r afael â'r etifeddiaeth o annhegwch, camddefnydd a gwastraff. Mae'r Gweinidog yn honni bod y DU naill ai ddim yn gwranddo neu ddim yn poeni. Mae hynny'n gwbl anghywir ac, unwaith eto, yn nodweddiadol o'r math o friffio sy'n cael ei roi i Weinidogion yn y Siambr hon. Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Nawdd Cymdeithasol a Phwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin wedi cynnal ymgynghoriadau ar y newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010. Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y pwyllgorau hyn, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n oedi cyn gweithredu'r newidiadau i'r lwfans tai lleol mewn perthynas â thaliadau sy'n bodoli eisoes, yr hyblygrwydd ychwanegol i dalu'r lwfans tai lleol yn uniongyrchol i landlordiaid pan fyddant yn lleihau eu rhenti, a'r cyllid ychwanegol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn a gwaith ymchwil annibynnol ar effaith y newidiadau, a fydd yn adrodd erbyn 2013, cyn newid i ddefnyddio credydau cynhwysol.

Mae'r Prif Weinidog wedi cael ei gofnodi yn dweud y byddai'n well pe na bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu o gwbl mewn unrhyw ran o'r DU. Credaf ei fod wedi colli cysylltiad â theuluoedd sy'n gweithio ledled Cymru. Dylai ei Lywodraeth ailystyried ei gwrthwynebiad a gweithio gyda Llywodraeth

Government to support a system of benefits that protects the most vulnerable and makes work pay.

Sandy Mewies: Do you know what? I almost wish that we were wrong on this side, because the picture that we are painting is absolutely horrific. It will be bleak and, when it happens, I hope that people will remember those cheerleaders for the cuts—prime among them, Antoinette Sandbach, Janet Finch-Saunders, Mark Isherwood and Peter Black. I hope that people will remember them and what they have said today. I hope that they also remember what they have said today.

When there is mention of being in touch with working families—and I am constantly in touch with working families, as I suppose that you are—I wonder who the working families are that the opposition speaks to. I will give you a few facts—these are not from us, from our briefings, but the briefings of organisations that work in housing. The Chartered Institute of Housing Cymru stated that 30,640 homes in Wales will be put out of the reach of people on housing benefits in the private rented sector as a result of the reforms that came into force in January 2012. Demand will outstrip supply in 20 out of the 22 council areas, with some local authorities facing situations where three people will be chasing every affordable private home for let. People have already touched on what will happen to people under the age of 35 in shared accommodation. Rents have gone up in 57% of the rental market areas in Wales in the past year, because landlords, unlike the predictions and promises of the Tory Government, did not reduce rents. When they saw that they could get more, they went for more.

One of the saddest things is that a recent Samaritans report revealed that one in five people who contacted the Samaritans in Wales last year talked about job concerns, housing problems, debt and other financial pressures. That had doubled from one in 10 calls in 2008. What do you think is making them worry? What is causing all of this?

y DU i gefnogi system o fudd-daliadau sy'n gwarchod y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac yn gwneud i waith dalu.

Sandy Mewies: Wyddoch chi beth? Rwyf bron yn dymuno i ni ar yr ochr hon fod yn anghywir, gan fod y darlun rydym yn ei baentio yn gwbl erchyll. Bydd yn llwm a, pan fydd yn digwydd, rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cofio'r rhai a oedd yn cefnogi'r toriadau—yn bennaf yn eu plith, Antoinette Sandbach, Janet Finch-Saunders, Mark Isherwood a Peter Black. Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn eu cofio ac yn cofio'r hyn y maent wedi ei ddweud heddiw. Rwy'n gobeithio y byddant hwy hefyd yn cofio beth maent wedi ei ddweud heddiw.

Pan fydd sôn am fod mewn cysylltiad â theuluoedd sy'n gweithio-ac rwyf mewn cysylltiad cyson â theuluoedd sy'n gweithio, fel y mae'n siŵr eich bod chi—tybed pa deuluoedd sy'n gweithio y mae'r wrthblaid yn siarad â hwy. Rhoddaf ychydig o ffeithiau i chi—ac nid yw'r rhain yn dod gennym ni, o'n sesiynau briffio, ond o sesiynau briffio gan sefydliadau sy'n gweithio ym maes tai. Dywedodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru y bydd 30,640 o gartrefi yng Nghymru yn cael eu rhoi y hwnt i gyrraedd y bobl sy'n cael budd-daliadau tai yn y sector rhentu preifat o ganlyniad i'r diwygiadau a weithredwyd ym mis Ionawr 2012. Bydd y galw yn fwy na'r cyflenwad mewn 20 o'r 22 o gynghorau, gyda rhai awdurdodau lleol yn wynebu sefyllfaoedd lle bydd tri o bobl yn mynd ar ôl pob cartref preifat fforddiadwy sydd wedi ei osod i'w rentu. Mae pobl eisoes wedi sôn am beth fydd yn digwydd i bobl o dan 35 oed mewn llety a rennir. Mae rhenti wedi codi mewn 57% o'r ardaloedd marchnad rhentu yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf, gan nad yw landlordiaid, yn wahanol i ragfynegiadau ac addewidion y Llywodraeth Doriaidd, wedi gostwng rhenti. Pan welsant y gallent gael mwy, aethant ar ôl mwy.

Un o'r pethau tristaf yw bod adroddiad diweddar gan y Samariaid yn dangos bod un o bob pump o bobl a gysylltodd gyda'r Samariaid yng Nghymru y llynedd yn sôn am bryderon ynghylch eu swydd, problemau tai, dyled a phwysau ariannol eraill. Roedd hwn wedi dyblu o un o bob 10 o alwadau yn 2008. Beth ydych yn meddwl sy'n peri iddynt

Peter Black made great play of the Department for Work and Pensions' efforts on the discretionary housing payments, which are meant to help mitigate the impact of welfare benefit reform. However, it is actually dependent on housing sections in local authorities paying them. It is true that those who need them the most are not getting them, and Wrexham is one of those authorities—[*Interruption.*] I see that the Member is not here, but Wrexham is one of them.

Shelter states that DHPs are essentially sticking-plaster solutions that are dwarfed by the enormity of the impacts of the overall changes to housing benefits. I agree that it is wholly unacceptable that the size of the DHP pot bears no relation to local need. Minister, I was heartened by what you said. I hope that I am wrong on this—I really do—but I do not think that I am. I ask you and your colleagues in the Cabinet to go on doing what you can to mitigate the shameful cuts in every area affecting poor people in this country. Let us go on doing what we can to help them in every way that we can. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. I sense that there is not much common ground, but when a speaker from one side is shouted down by the other and then the position is reversed, it is not elegant. We should hear each other's views in a calm silence, please.

Janet Finch-Saunders: There is no denying that welfare reform in the United Kingdom is always going to be a contentious issue and that vested interests or political opportunism will take precedence even if the reform is for the better in the long term. The UK Government, led by our party, with our colleagues on the other side of the Chamber in coalition, is currently committed to the biggest shake up of the welfare state in over 60 years. The underlying rationale of the reform is simple: we need to make the system fairer and less complicated. Changes brought forward in the Welfare Reform Act 2012, passed by Parliament less than a fortnight ago, reflect this rationale. On housing

boeni? Beth sy'n achosi hyn i gyd? Bu i Peter Black bwysleisio ymdrechion yr Adran Gwaith a Phensiynau ar daliadau tai yn ôl disgresiwn, y mae bwriad iddynt helpu i liniaru effaith diwygio budd-daliadau lles. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'n dibynnu ar adrannau tai awdurdodau lleol yn eu talu. Mae'n wir nad yw'r rhai sydd eu hangen fwyaf yn eu cael, ac mae Wrecsam yn un o'r awdurdodau hynny—[*Torri ar draws.*] Gwelaf nad yw'r Aelod yma, ond mae Wrecsam yn un ohonynt.

Mae Shelter yn datgan bod taliadau tai yn ôl disgresiwn, yn eu hanfod, yn ateb dros dro sy'n cael ei fodd gan effeithiau difrifol y newidiadau cyffredinol i fudd-daliadau tai. Rwy'n cytuno ei bod yn gwbl annerbyniol nad yw maint y gyllideb ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn yn adlewyrchu'r angen lleol. Weinidog, roedd yr hyn a ddywedasoeh yn galonogol. Gobeithiaf yn wir fy mod yn anghywir am hyn, ond nid wyf yn meddwl fy mod. Gofynnaf i chi a'ch cydweithwyr yn y Cabinet i barhau i wneud yr hyn y gallwch ei wneud i liniaru'r toriadau cywilyddus ym mhob maes sy'n effeithio ar bobl dlawd y wlad hon. Gadewch inni wneud yr hyn y gallwn ei wneud i'w helpu ym mhob ffordd bosibl. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rwy'n synhwyro nad oes llawer o dir cyffredin, ond pan fydd siaradwr o un ochr yn gweiddi ar draws y llall ac yna bydd y sefyllfa yn cael ei wrthdroi, nid yw'n urddasol. Dylem glywed safbwyntiau ein gilydd mewn tawelwch, os gwelwch yn dda.

Janet Finch-Saunders: Nid ydym yn gwadu y bydd diwygio lles yn y Deyrnas Unedig bob amser yn bwnc llosg ac y bydd buddiannau personol neu gyfle gwleidyddol yn cael blaenoriaeth hyd yn oed os yw'r diwygio er gwell yn y tymor hir. Mae Llywodraeth y DU, o dan arweiniad ein plaid, gyda'n cydweithwyr ar ochr arall y Siambr mewn clymblaid, wedi'i hymrwymo ar hyn o bryd i'r ad-drefniad mwyaf o'r wladwriaeth les mewn dros 60 mlynedd. Mae'r rhesymeg sylfaenol dros ddiwygio yn syml: mae angen i ni wneud y system yn decach ac yn llai cymhleth. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn y Ddeddf Diwygio Lles 2012, a basiwyd gan y Senedd

benefits, the changes implemented are fair and sensible and contrast sharply with the system that was allowed to evolve under Labour, which was complex and, in some cases, ludicrously unfair.

Mick Antoniw: Will you take an intervention?

Janet Finch-Saunders: No, I will not. How Labour can justify awards of up to £104,000 a year in housing benefits in some cases simply beggars belief. You talk about supporting the economy and childcare, yet it was under your regime that childcare costs increased 50%.

Under the new Welfare Reform Act, housing benefits will initially be capped and the local housing allowance rate reduced. In theory, no-one in receipt of benefits will be able to afford accommodation that is beyond the means of the average working family. That is considerably less than what many of us sitting here earn. The estimated cost of this change in Wales, although affecting 99.6% of all LHA recipients, will be less in cash terms than compared with the UK as a whole. The differences in the rules for social housing tenants and private sector tenants will also be harmonised as a result of the reform. At present, claimants living in private sector accommodation have their entitlements restricted if they are deemed to be living in a property that is larger than the needs of their family demand. However, no such restrictions currently apply to tenants in the social housing sector. This will all help to curtail ballooning housing benefit expenditure, increase mobility within the social rented sector and free up the depleted and much-in-demand social housing stock.

Eventually, after the introduction of universal credit, housing benefit will be completely abolished with the housing element of the UC administered centrally by the Department for Work and Pensions. Universal credit is explicitly designed to simplify the entire welfare and benefits system with the

lai na phythefnos yn ôl, yn adlewyrchu'r rhesymeg hwn. O ran budd-daliadau tai, mae'r newidiadau a weithredwyd yn deg ac yn synhwyrol ac yn cyferbynnu'n llwyr â'r system a esblygodd o dan y Blaid Lafur, a oedd yn gymhleth ac, mewn rhai achosion, yn chwerthinllyd o annheg.

Mick Antoniw: A wnewch chi ildio?

Janet Finch-Saunders: Na, ni wnaif ildio. Mae cyfiawnhad Llafur dros ddyfarniadau o hyd at £104,000 y flwyddyn mewn budd-daliadau tai mewn rhai achosion yn anhygoel. Rydych yn sôn am gefnogi'r economi a gofal plant ac, eto, o dan eich trefn chi, cynyddodd costau gofal plant 50%.

O dan y Ddeddf Diwygio Lles newydd, bydd budd-daliadau tai yn cael eu capio i ddechrau a bydd cyfradd y lwfans tai lleol yn cael ei ostwng. Mewn egwyddor, ni fydd unrhyw un sy'n cael budd-daliadau yn gallu fforddio llety sydd y tu hwnt i fodd teulu cyffredin sy'n gweithio. Mae hynny gryn dipyn yn llai na'r hyn y mae llawer ohonom sy'n eistedd yn y fan hon yn ei ennill. Amcangyfrifir y bydd cost y newid hwn yng Nghymru, er ei fod yn effeithio ar 99.6% o'r bobl sy'n cael lwfans tai lleol, yn llai mewn termau ariannol o'i gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd. Bydd y gwahaniaethau yn y rheolau ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol a thenantiaid y sector preifat hefyd yn cael eu cysoni o ganlyniad i'r diwygio. Ar hyn o bryd, cyfyngir ar hawliau'r hawlwyd sy'n byw mewn llety sector preifat os ystyrir eu bod yn byw mewn eiddo sy'n fwy nag y mae eu teuluoedd ei angen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw cyfyngiadau o'r fath yn berthnasol i denantiaid yn y sector tai cymdeithasol. Bydd hyn oll yn helpu i gwtogi gwariant budd-daliadau tai sy'n tyfu, cynyddu symudedd o fewn y sector rhentu cymdeithasol a rhyddhau'r stoc tai cymdeithasol prin y mae galw mawr amdano.

Yn y pen draw, ar ôl cyflwyno credyd cyffredinol, bydd budd-dal tai yn cael ei ddiddymu'n gyfan gwbl gydag elfen dai y credyd cynhwysol yn cael ei weinyddu'n ganolog gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae credyd cynhwysol wedi'i gynllunio'n benodol i symleiddio'r system lles a budd-

overriding hope that paying all welfare allowances in one payment will make it easier for individuals to see that the advantages of gaining a job are better than the alternative of long-term dependence on benefits.

On the motion tabled today, it is completely disingenuous of the Welsh Labour Government to accuse housing benefit reform of hitting the poorest the hardest. Any Government of any stripe would be faced with the challenge of welfare reform were it in power today, and many of your colleagues in London have said so. While the UK Government could have tinkered at the edges and tried to defend the unsustainable system it inherited, it chose not to. Instead, it opted to be brave and bold.

The Institute for Fiscal Studies has stated that the welfare reforms contained in the Act achieve the objective of strengthening the incentive to undertake paid work and, as such, will help to reduce the occurrence and negative impacts of being out of work, such as poor health, low self-esteem and other outcomes. Above all, I question the Welsh Government as to why this motion, as a non-devolved matter, is being discussed in the first place. I believe that it is a way to conceal the Welsh Labour Government's lack of legislative agenda and lack of policies for the renewal of our country. Also, for the record, I am tired of hearing about 'Tory cuts'. I am not a Tory; I am a Welsh Conservative and am extremely proud of it.

4.00 p.m.

Mick Antoniw: As has been said, benefits are not devolved, but the responsibility and the consequences are. The problem with the talk about reform is that, although I am sure that we all agree with reform, this is not reform: it is total devastation. Despite all the hype by the Tories and Lib Dems, there is one clear message that I hear coming out time and again from their statements: if you are poor, a woman, a child, vulnerable, elderly, disabled or just in hardship, then tough. Your benefits will be cut, your support will be cut,

daliadau gyfan yn y gobaith y bydd talu holl lwfansau lles mewn un taliad yn ei gwneud yn haws i unigolion weld bod manteision cael swydd yn well na'r dewis arall o ddibyniaeth hirdymor ar fudd-daliadau.

O ran y cynnig a gyflwynwyd heddiw, mae'n gwbl anonest i Lywodraeth Lafur Cymru gyhuddo'r broses ddiwygio budd-dal tai o effeithio ar y tlotaf yn galetach. Byddai unrhyw Lywodraeth o unrhyw blaid yn gorfod wynebu'r her o ddiwygio lles pe bai mewn grym heddiw, ac mae llawer o'ch cydweithwyr yn Llundain wedi dweud hynny. Er y gallai Llywodraeth y DU fod wedi potsian ar yr ymylon a cheisio amddiffyn y system anghynnaladwy y bu iddi ei hetifeddu, dewisodd beidio â gwneud hynny. Yn hytrach, dewisodd i fod yn ddewr a beiddgar.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi nodi bod y diwygiadau lles a gynhwysir yn y Ddeddf yn cyflawni'r amcan o gryfhau'r cymhelliant i wneud gwaith cyflogedig ac felly mae'n helpu i leihau nifer y bobl sydd allan o waith a'i effeithiau negyddol, megis iechyd gwael, diffyg hunan-barch a chanlyniadau eraill. Yn bennaf oll, rwyf am ofyn i Lywodraeth Cymru pam mae'r cynnig hwn, fel mater sydd heb ei ddatganoli, yn cael ei drafod yn y lle cyntaf. Credaf ei fod yn ffordd o guddio diffyg agenda deddfwriaethol Llywodraeth Lafur Cymru a diffyg polisiau ar gyfer adnewyddu ein gwlad. Hefyd, hoffwn iddo gael ei gofnodi fy mod wedi blino clywed am 'doriadau'r Toriaid'. Nid wyf yn Dori; rwy'n Geidwadwr Cymreig ac rwy'n hynod falch o hynny.

Mick Antoniw: Fel y dywedwyd, nid yw budd-daliadau wedi'u datganoli, ond mae'r cyfrifoldeb a'r canlyniadau wedi'u datganoli. Y broblem wrth sôn am ddiwygio, er fy mod yn siŵr ein bod i gyd yn cytuno â diwygio, yw nad diwygio yw hyn: dinistr llwyr ydyw. Er gwaethaf yr holl gynnwrf gan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, rwy'n clywed un neges glir dro ar ôl tro yn eu datganiadau: os ydych yn dlawd, yn fenyw, yn blentyn, yn agored i niwed, yn berson hŷn, yn anabl neu'n dioddef caledi, hen dro. Bydd eich

and if you complain, we will label you lazy, a scrounger and workshy. Get on your bike, look for work and head towards Cardiff. We have heard this mantra from the Tories and Lib Dems so many times—

Byron Davies *rose*—

Mick Antoniw: No; your side took no interventions during your speeches, so I am not taking any.

I find the mantra about the deserving poor the most offensive comment made. Last year, my office prepared a report on the impact of housing benefit reforms, and I recommend that some of the Conservatives read it. It appears that you are in denial as to the extent to which you are going to push thousands of Welsh families into financial hardship, poverty and even homelessness. The extent of this was shown last week, as has been said, during the Welsh Conservatives' debate on council tax, when Antoinette Sandbach, the regional Member for North Wales, said:

'The changes to housing benefit will, at most, affect 2,000 households in Wales and no more. That is absolutely clear. No more than 2,000 households in Wales will be affected. The rest will continue to receive support.'

This is simply untrue. The Welsh Government's own report analysing the impact of the welfare reforms makes it quite clear that housing benefit recipients are going to be hit in huge numbers. The Department for Work and Pensions estimates that over 48,000, or 99.6%, of local housing allowance recipients will be hit. My own research in my constituency in Rhondda Cynon Taf shows that the tenants of RCT Homes, the largest social housing provider in the area, will need to increase their annual payments by hundreds of thousands of pounds a year as a result of increased deductions for non-dependents. Claimants aged 25-35 currently living in one bedroom accommodation will see a reduction of nearly £100 per month in

budd-daliadau a'ch cymorthdaliadau yn cael eu torri, ac os byddwch yn cwyno, byddwn yn eich labelu yn berson diog sy'n byw ar gefn y gymdeithas. Ewch ar eich beic, edrychwch am waith ac ewch tuag at Gaerdydd. Rydym wedi clywed y bregeth hon gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol gymaint o weithiau—

Byron Davies *a gododd*—

Mick Antoniw: Na; ni dderbyniodd eich ochr chi ddim ymyriadau yn ystod eich areithiau, felly ni fyddaf yn eu derbyn chwaith.

I mi, y bregeth am y tlawd haeddiannol yw'r sylw mwyaf sarhaus a wnaed. Y llynedd, lluniodd fy swyddfa adroddiad ar effaith y diwygiadau budd-dal tai, ac rwy'n argymhell bod rhai o'r Ceidwadwyr yn ei ddarllen. Mae'n ymddangos eich bod yn gwadu i ba raddau y byddwch yn gwthio miloedd o deuluoedd yng Nghymru i galedi ariannol, flodi a hyd yn oed digartrefedd. Dangoswyd hyd a lled y broblem yr wythnos diwethaf, fel y dywedwyd, yn ystod dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar y dreth gyngor, pan ddywedodd Antoinette Sandbach, yr Aelod rhanbarthol dros Ogledd Cymru:

'Bydd y newidiadau i'r budd-dal tai'n effeithio, ar y mwyaf, ar 2,000 o gartrefi yng Nghymru, a dim mwy. Mae hynny'n gwbl glir. Ni fydd y newidiadau'n effeithio ar fwy na 2,000 o gartrefi yng Nghymru. Bydd y gweddill yn parhau i gael cymorth.'

Nid yw hyn yn wir o gwbl. Mae adroddiad Llywodraeth Cymru sy'n dadansoddi effaith y diwygiadau lles yn ei gwneud yn gwbl glir y bydd nifer enfawr o'r rhai sy'n cael budd-dal tai yn cael eu heffeithio. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif y bydd dros 48,000, neu 99.6%, o'r rheini sy'n cael y lwfans tai lleol yn cael eu heffeithio. Mae fy ngwaith ymchwil fy hun yn fy etholaeth i yn Rhondda Cynon Taf yn dangos y bydd angen i denantiaid Cartrefi RCT, sef y darparwr tai cymdeithasol mwyaf yn yr ardal, gynyddu eu taliadau blynyddol gannoedd o filoedd o bunnoedd y flwyddyn o ganlyniad i ddiydiniadau cynyddol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion. Bydd hawlwr rhwng 25 a 35 oed sy'n byw mewn llety un

their local housing allowance payments due to the shared room rate being extended from those aged under 25 to those aged under 35. The setting of local housing allowance for the cheapest 30%, rather than the previous 50%, will have an impact of £10 per week, or £520 per year. The changes to the local housing allowance will drastically reduce the amount of accommodation available to claimants and may lead to private landlords offering only the poorest quality accommodation. According to the Institute for Fiscal Studies, which the Conservatives regularly quote in the Chamber, the reforms are regressive and will most impact on the poorest. As the *Western Mail* reports today, thousands of mothers will lose up to £68 per week, and the reforms will push a generation of children into a life of poverty.

The underlying principle under which reforms should have been considered was the Council of Europe's 2008 report, 'Housing policy and vulnerable social groups'. This set the principles to which we signed up. The goals for a housing allowance system should be to improve access to decent, affordable housing for all households on low incomes and to function as a safety net for these households against increases in housing expenditure or decreases in income. Clearly, the UK coalition Government's welfare policy drastically fails to reach these goals, but I do not think that it ever intended to do so. It is the same time after time when there is a Tory Government: it puts the boot into working-class communities. That is exactly what is happening now.

Joyce Watson: We are clear that the stated aim of the UK Government's welfare reform agenda is to make work pay. That is a very good incentive, and I am sure that there is agreement on all sides of the Chamber in that respect. However, making work pay must not be attached to labelling those who cannot work as those who will not work, or labelling people as the deserving poor, the deserving homeless or the deserving disabled. I am fed up of hearing those words echoed in this Chamber by people who will then pretend to protect and care about those who are deserving. Therefore, we must recognise that

ystafell wely ar hyn o bryd yn gweld gostyngiad o bron i £100 y mis yn eu taliadau lwfans tai lleol oherwydd bod y gyfradd rhannu ystafell yn cael ei ymestyn o'r rhai o dan 25 oed i'r rhai o dan 35 oed. Bydd gosod y lwfans tai lleol ar gyfer y 30% rhataf yn hytrach na'r 50%, sef y ffigur yn flaenorol, yn cael effaith o £10 yr wythnos, neu £520 y flwyddyn. Bydd y newidiadau i'r lwfans tai lleol yn lleihau'n sylweddol faint o lety sydd ar gael i hawlwyd a gall olygu y bydd landlordiaid preifat dim ond yn cynnig y llety o'r ansawdd isaf. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, y mae'r Ceidwadwyr yn ei ddyfynnu'n rheolaidd yn y Siambr, mae'r diwygiadau yn gam yn ôl a byddant yn effeithio fwyaf ar y bobl dlotaf. Fel y mae'r *Western Mail* yn ei adrodd heddiw, bydd miloedd o famau yn colli hyd at £68 bob wythnos, a bydd y diwygiadau'n gwthio cenhedlaeth o blant i fywyd o dlodi.

Yr egwyddor sylfaenol a ddylai fod wedi'i hystyried oedd adroddiad Cyngor Ewrop yn 2008, 'Housing policy and vulnerable social groups'. Mae hwn yn gosod yr egwyddorion yr oeddem wedi ymrwymo iddynt. Y nodau ar gyfer system lwfans tai ddylai fod gwella argaeledd tai fforddiadwy da ar gyfer pob aelwyd ar incwm isel a gweithredu fel rhwyd ddiogelwch ar gyfer yr aelwydydd hyn yn erbyn cynnydd mewn gwariant tai neu ostyngiad mewn incwm. Yn amlwg, mae polisi lles Llywodraeth glymblaid y DU yn methu'n llwyr â chyrraedd y nodau hyn, ond nid wyf yn credu ei bod erioed wedi bwriadu gwneud hynny. Yr un yw'r sefyllfa dro ar ôl tro pan fydd Llywodraeth Doriadaid: mae'n rhoi cic i gymunedau dosbarth gweithiol. Dyna'n union sy'n digwydd nawr.

Joyce Watson: Rydym yn glir mai nod datganedig agenda diwygio lles Llywodraeth y DU yw sicrhau bod gwaith yn talu. Mae hynny'n gymhelliad da iawn, ac rwy'n siŵr bod cytundeb ar bob ochr o'r Siambr yn hynny o beth. Fodd bynnag, ni ddylai sicrhau bod gwaith yn talu olygu bod y rhai na allant weithio yn cael eu labelu yn rhai nad ydynt am weithio. Ni ddylid chwaith labelu pobl yn bobl dlawd haeddiannol, pobl ddigartref haeddiannol neu'n bobl anabl haeddiannol. Rwyf wedi cael llond bol o glywed y geiriau hynny yn y Siambr hon gan bobl a fydd wedyn yn esgus diogelu a gofalu am y rhai

it is genuinely the case that work, for some people, is not an option. However, for some families that are currently in work, some form of benefit system that helps them is the only option. I am a little concerned that the child tax credit will be reduced by £275 a month for a working mother who is trying to make her way; she will also face a possible reduction in her housing benefit. Therefore, I am a little fed up with the words that we have heard in this Chamber.

We have heard the Westminster Government say that it wants to shave hundreds of millions of pounds off the current £23 billion housing benefit budget. That is great, but if those savings are underpinned by spending elsewhere, and if the Welsh Government and local authorities are forced to carry the financial burden of mitigating the pressures in the system, that does not save any public money. It also makes people who understand devolution realise why we are debating that here today. Janet Finch-Saunders, if you looked at those elements you would, perhaps, understand why we are debating it here today. All that your Government is doing is shifting the problem from Westminster to us in Wales, and from the wealthy to the poor. The Welsh Government has already had to provide £1.4 million to local authorities to help people struggling with housing benefit cuts, and Communities and Local Government has said that the housing benefit cap will lead to 20,000 more people becoming homeless, and that dealing with that could wipe out the £270 million that it was meant to save.

Many of the changes have already been introduced. We have heard mention today of raising the age limit for those claiming a single-room rate from 25 to 35, and reducing the calculation that is used to work out the rate of local-housing allowance. I wonder where those people might go. They might find themselves in houses in multiple occupation. We know that, where there are four or less rooms, that is an unregulated market. That concerns me, and it concerns my colleagues.

We have heard from Peter Black that he has

sydd yn haeddiannol. Felly, rhaid inni gydnabod ei bod yn wir nad yw gwaith yn opsiwn i rai pobl. Fodd bynnag, i rai teuluoedd sy'n gweithio ar hyn o bryd, rhyw fath o system fudd-daliadau sy'n eu helpu yw'r unig opsiwn. Rwyf ychydig yn bryderus y bydd y credyd treth plant yn cael ei ostwng £275 y mis ar gyfer mam sy'n gweithio ac sy'n ceisio llwyddo; bydd hi hefyd yn wynebu gostyngiad posibl yn ei budd-dal tai. Felly, rwyf wedi cael llond bol ar y geiriau a glywsom yn y Siambr hon.

Rydym wedi clywed y Llywodraeth yn San Steffan yn dweud ei bod am dorri cannoedd o filiynau o bunnoedd oddi ar y gyllideb budd-dal tai presennol, sef £23 biliwn. Mae hynny'n iawn, ond os bydd gwario mewn manau eraill yn sail i'r arbedion hynny, ac os bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i gario baich ariannol lliniaru'r pwysau yn y system, nid yw hynny'n arbed dim arian cyhoeddus. Mae hefyd yn gwneud i bobl sy'n deall datganoli sylweddoli pam rydym yn trafod hynny yma heddiw. Janet Finch-Saunders, os byddech yn ystyried yr elfennau hynny byddech, efallai, yn deall pam rydym yn trafod hynny yma heddiw. Yr unig beth mae'ch Llywodraeth yn ei wneud yw symud y broblem o San Steffan i Gymru, ac o'r cyfoethog i'r tlawd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gorfod darparu £1.4 miliwn i awdurdodau lleol i helpu pobl sy'n cael trafferth gyda thoriadau i'r budd-dal tai, ac mae Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi dweud y bydd y cap budd-dal tai yn arwain at 20,000 yn fwy o bobl yn dod yn ddigartref, ac y gallai ymdrin â hynny gael gwared ar y £270 miliwn a oedd i fod i'w arbed.

Mae llawer o'r newidiadau eisoes wedi cael eu cyflwyno. Rydym wedi clywed sôn heddiw am godi'r terfyn oedran ar gyfer y rhai sy'n hawlio cyfradd un ystafell o 25 i 35 oed, ac am leihau'r cyfrifiad a ddefnyddir i gyfrifo'r gyfradd lwfans tai lleol. Tybed lle y bydd y bobl hynny'n mynd. Efallai y byddant yn gorfod byw mewn tai amlfeddiannaeth. Oes oes pedwar neu lai o ystafelloedd, rydym yn gwybod bod hynny'n farchnad heb ei rheoleiddio. Mae hynny'n peri pryder i mi a'm cydweithwyr.

Rydym wedi clywed gan Peter Black ei fod

recognised the need for the Government to allocate money to help those people who will undoubtedly find themselves in such a situation, but the Liberal Democrats still go ahead; they still support it. The Government does not put money in to help alleviate problems that it sees coming unless it knows that it is creating the problems. I urge the Liberal Democrats to be honest about its support. They have recognised a problem and have even mentioned it in this Chamber, but they are supporting something that will affect people in their constituencies. That is the truth that they need to tell people.

I urge circumspection when it comes to Tory claims of saving public money. We know—I have mentioned it, and I will mention it again—that the cost will fall elsewhere. It will fall here on our budget and on people in our communities. I really hope that they know that when you knock on their doors and ask for their support.

Julie Morgan: First, it is absolutely right that we are having this debate today, because the consequences of these cuts will affect all the services that we provide in Wales. There has been a lot of debate already about what these cuts consist of, so I will briefly look at the effects. The housing benefit cuts that have already been brought in, since April 2011, have had the effect of reducing the local housing allowance by about £9 per week. How is that affecting the tenants, where this reduction has already taken place? People working in the field report back that tenants are not able to pay their fuel bills, it is also well known that coping with other bills is getting difficult, and they often do not have enough money for food. Some people are managing on only £10 a week for food. This is before the full consequences of these housing benefit cuts come in. In the private rented sector, tenants have always had to top-up the housing benefit themselves, so this is making the situation much worse.

It has already been mentioned that single people under the age of 35 in the private rented sector will only get the housing benefit

wedi cydnabod yr angen i'r Llywodraeth roi arian i helpu'r bobl hynny a fydd, yn sicr, mewn sefyllfa o'r fath, ond mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dal i fwrw ymlaen; maent yn dal i'w gefnogi. Nid yw'r Llywodraeth yn rhoi arian i helpu i leddfu problemau sydd ar y gorwel oni bai ei bod yn gwybod ei bod yn creu'r problemau hynny. Rwy'n annog y Democratiaid Rhyddfrydol i fod yn onest am eu cefnogaeth. Maent wedi cydnabod y broblem ac wedi sôn amdani yn y Siambr hon hyd yn oed, ond maent yn cefnogi rhywbeth a fydd yn effeithio ar bobl yn eu hetholaethau. Dyna'r gwir sydd angen iddynt ei ddweud wrth bobl.

Rwy'n annog gochelgarwch o ran honiadau'r Torïaid ynghylch arbed arian cyhoeddus. Rydym yn gwybod—rwyf wedi sôn am hyn a byddaf yn sôn amdano eto—y bydd y gost yn cael ei thalu mewn manau eraill. Caiff ei thalu o'n cyllideb yma a chan bobl yn ein cymunedau. Rwy'n mawr obeithio y byddant yn gwybod hynny pan fyddwch yn curo ar eu drysau ac yn gofyn am eu cefnogaeth.

Julie Morgan: Yn gyntaf, mae'n gwbl briodol ein bod yn cael y ddadl hon heddiw, oherwydd bydd canlyniadau'r toriadau hyn yn effeithio ar yr holl wasanaethau a ddarparwn yng Nghymru. Bu llawer o ddadlau eisoes am gynnwys y toriadau hyn, felly rwyf am edrych yn fyr ar yr effeithiau. Mae'r toriadau budd-dal tai sydd eisoes wedi'u cyflwyno, ers mis Ebrill 2011, wedi lleihau'r lwfans tai lleol tua £9 yr wythnos. Sut y mae hynny'n effeithio ar y tenantiaid, lle mae'r gostyngiad hwn eisoes wedi digwydd? Mae pobl sy'n gweithio yn y maes yn dweud na all tenantiaid dalu eu biliau tanwydd. Mae hefyd yn hysbys bod ymdopi gyda biliau eraill yn mynd yn anodd, ac yn aml nid oes ganddynt ddigon o arian i brynu bwyd. Mae rhai pobl yn ymdopi ar ddim ond £10 yr wythnos ar gyfer bwyd. Dyma'r sefyllfa cyn inni weld canlyniadau llawn y toriadau budd-dal tai hyn. Yn y sector tai rhent preifat, mae tenantiaid wastad wedi gorfod ychwanegu at y budd-dal tai eu hunain, felly mae hyn yn gwneud y sefyllfa'n waeth o lawer.

Crybwyllwyd eisoes y bydd pobl sengl o dan 35 oed yn y sector tai rhent preifat dim ond yn cael y gyfradd budd-dal tai ar gyfer llety a

rate for shared accommodation. The Minister for housing has strongly pointed to the fact that people in Cardiff will suffer dramatically. I am pleased that he has drawn attention to the possible effects on our constituents in Cardiff and to the possible effect, we hope, in May on the Liberal Democrat administration. The figures for Cardiff are quite stark. For example, current housing benefit for a one-bedroomed self-contained flat is £103.85, but if you are aged under 35, you will only get £55.38 for shared accommodation. That is a drastic cut. People on the other side of the Chamber say that people who can work should work. We all agree with that, but most of these people cannot work or there are no jobs for them. Adopting this non-deserving poor attitude is backward-looking and destructive. So, there is a huge gap in Cardiff, and we know that an average of £24 a week will be lost in benefit for people under the age of 35. In fact, I can remember campaigning to reduce the 25 age limit, because it seemed unfair that younger people should be treated differently and discriminated against compared with older people, but the age limit has now gone up to 35, which is dispiriting.

In Cardiff, we have seen a rise in homelessness. We know that it is up 11% from last year in Wales. In Cardiff, in 2010-11, 2,020 people sought advice because of homelessness, compared with 1,541 people in the previous year. That is up about 25%. This is already hitting people hard, but the worst cuts are yet to come. I cannot see how anyone can defend the reduction in benefits for people who are seen as overoccupying social housing. We have heard arguments today that tenants are taking up too much room, but this will apply to people under the age of 65 who may have lived in their accommodation for 40 years. I can think of people who were brought up on the local authority estate where I was brought up, and who have lived in council housing since they set up a family when they were about 20 years old, and are now 60. Their partner may have died, or may still be there, and their children have gone. Those are the people whom you expect to move. They are tenants, but it is their home. There is discrimination in this legislation

rennir. Mae'r Gweinidog tai wedi nodi'n gryf y bydd pobl yng Nghaerdydd yn dioddef yn sylweddol. Rwy'n falch ei fod wedi tynnu sylw at yr effeithiau posibl ar ein hetholwyr yng Nghaerdydd ac at yr effaith bosibl, gobeithio, ym mis Mai ar weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r ffigurau ar gyfer Caerdydd yn ddigalon. Er enghraifft, y budd-dal tai presennol ar gyfer fflat hunangynhwysol un ystafell wely yw £103.85, ond os ydych yn iau na 35 oed, ni fyddwch ond yn cael £55.38 ar gyfer llety a rennir. Mae hynny'n ostyngiad enfawr. Mae pobl ar ochr arall y Siambr yn dweud y dylai pobl sy'n gallu gweithio, weithio. Rydym i gyd yn cytuno â hynny, ond ni all y rhan fwyaf o'r bobl hyn weithio, neu nid oes dim swyddi ar eu cyfer. Mae mabwysiadu'r agwedd hon nad yw pobl dlawd yn haeddiannol yn negyddol ac yn ddinistriol. Felly, mae bwloch enfawr yng Nghaerdydd, a gwyddom y bydd pobl o dan 35 oed yn colli cyfartaledd o £24 yr wythnos mewn budd-dal. Yn wir, gallaf gofio ymgyrchu i leihau'r terfyn oedran 25, oherwydd yr oedd yn ymddangos yn annheg y dylai pobl ifanc gael eu trin yn wahanol a'u gwahaniaethu o'u cymharu â phobl hŷn, ond mae'r terfyn oedran bellach wedi cynyddu i 35, sy'n ddigalon iawn.

Yng Nghaerdydd, rydym wedi gweld cynnydd mewn digartrefedd. Rydym yn gwybod ei fod wedi cynyddu 11% ers y llynedd yng Nghymru. Yng Nghaerdydd, yn 2010-11, gofynnodd 2,020 o bobl am gyngor oherwydd digartrefedd, o'i gymharu â 1,541 o bobl yn y flwyddyn flaenorol. Mae hynny'n gynydd o tua 25%. Mae hyn eisoes yn effeithio'n fawr ar bobl, ond mae'r toriadau gwaethaf eto i ddod. Ni allaf weld sut y gall unrhyw un amddiffyn y gostyngiad mewn budd-daliadau i bobl sy'n cael eu gweld yn gor-feddiannu tai cymdeithasol. Rydym wedi clywed dadleuon heddiw bod tenantiaid yn cymryd gormod o le, ond bydd hyn yn berthnasol i bobl o dan 65 oed a allai fod wedi byw yn eu tŷ ers 40 mlynedd. Gallaf feddwl am bobl a fagwyd ar yr ystâd awdurdod lleol lle cefais fy magu, ac sydd wedi byw mewn tai cyngor ers iddynt sefydlu teulu pan oeddent tua 20 mlwydd oed, ac maent bellach yn 60 oed. Efallai bod eu partner wedi marw, neu efallai ei fod yn dal i fod yno, ac mae eu plant wedi mynd. Dyna'r

against tenants, because most of the people making this legislation are not aware of what it is like, day to day, to pay rent and to be living close to the edge.

To conclude, there is no analysis of who receives housing benefit payments in Wales, but in the Cuts Watch Cymru document—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Julie Morgan: The Cuts Watch Cymru document states that 79% are single women, and that a third have a child. So, it is largely single women that you are hitting.

The Deputy Presiding Officer: Before I call the Minister, a Member has inadvertently made an inaccurate statement and wishes to correct it. Before I call the Member concerned, I ask you to just make the correction and not continue your speech, otherwise I will cut you off.

Sandy Mewies: When I referred to the Member for Wrexham not being here, I did not mean the Minister for health. [*Laughter.*]

4.15 p.m.

The Deputy Presiding Officer: Thank you for that correction.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): One thing is certain as a result of today's debate. I hope that the people of Wales will be crystal clear about where the parties stand on this critical issue facing the people of Wales. I hope that they will remember where the parties stood today on these tremendously important issues. Mind you, this debate has thrown up one first for me at least. I have achieved a lifetime ambition in that I have been accused of sanctimony by, wait for it, a Liberal Democrat. [*Laughter.*] I only need one more to complete the set; it is my determined ambition to be labelled 'small-minded' by a Conservative. Then I will have achieved

bobl yr ydych yn disgwyl iddynt symud. Maent yn denantiaid, ond eu cartref hwy ydyw. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwahaniaethu yn erbyn tenantiaid, oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n gwneud y ddeddfwriaeth hon yn ymwybodol o sut beth yw talu rhent a byw yn agos at y dibyn o ddydd i ddydd.

I gloi, nid oes dadansoddiad o bwy sy'n cael taliadau budd-dal tai yng Nghymru, ond mae dogfen Cuts Watch Cymru—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i ben yn awr, os gwelwch yn dda.

Julie Morgan: Mae dogfen Cuts Watch Cymru yn nodi bod 79% yn fenywod sengl, a bod gan draean blentyn. Felly, i raddau helaeth, menywod sengl sy'n cael eu heffeithio gennych.

Y Dirprwy Lywydd: Cyn imi alw'r Gweinidog, mae Aelod, yn anfwriadol, wedi gwneud gosodiad anghywir ac yn dymuno ei gywiro. Cyn imi alw'r Aelod dan sylw, gofynnaf ichi wneud y cywiriad ac i beidio â pharhau â'ch araith. Fel arall, byddaf yn diffodd eich meicroffon.

Sandy Mewies: Pan ddywedais nad oedd yr Aelod dros Wrecsam yma, nid oeddwn yn golygu'r Gweinidog iechyd. [*Chwerthin.*]

Y Dirprwy Lywydd: Diolch ichi am y cywiriad hwnnw.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): O ganlyniad i'r ddadl hon heddiw, mae un peth yn sicr: rwyf yn gobeithio y bydd pobl Cymru yn gwbl glir ynghylch safbwynt y pleidiau ar y mater hollbwysig hwn sy'n wynebu pobl Cymru. Gobeithiaf y byddant yn cofio beth oedd safbwynt y pleidiau heddiw ar y materion aruthrol o bwysig hyn. Serch hynny, mae'r ddadl hon wedi rhoi o leiaf un profiad newydd i mi. Rwyf wedi cyflawni uchelgais oes wrth gael fy nghyhuddo o fod rhagrithiol gan—arhoswch amdani—y Democratiaid Rhyddfrydol. [*Chwerthin.*] Dim ond un sarhad arall sydd ei angen arnaf i gwblhau'r set; rwyf yn benderfynol o wireddu fy

everything in politics that I set out to do. [Laughter.]

It is worth reiterating—[*Interruption.*] Do try to keep up. It is worth reiterating that, for many people, the financial impacts that we have talked about today are yet to bite. The financial changes that we have talked about are cumulative in many cases. There are issues that need to be resolved over the coming months in preparation for the introduction of universal credit. I have real concerns about the ‘bespoke IT system’—there is a description to send shivers down the spine. [Laughter.] Will it be able to cope? What happens if that system falls over? What contingencies are in place? I can tell you that, as a Minister, I have no idea. Does Westminster have any idea? I have concerns about the accessibility of universal credit with the centralised delivery of the DWP machinery and the expectation that all claims will be made electronically; the assumption, of course, is that everyone has access to that technology and is IT-literate.

Currently, if a person has an issue with their housing benefit, they can contact the local authority and get the matter resolved. They could pop into the local council office. How accessible is this new system actually going to be? As Ministers, we have agreed that there is a need, at least in Wales, to carry out a review of advisory services in light of challenges such as this, which we face as a result of these so-called reforms. My vision of the future includes a strong network of housing advisory services across Wales that are easily accessible and which can help people at any stage in their housing need. Good advice is going to have to be our first approach to maintaining a roof over many people’s heads. We are continuing to fund many of the advice services supporting vulnerable homeowners, including Shelter Cymru and the housing debt helpline run by the Consumer Credit Counselling Service.

uchelgais o gael fy labelu’n ‘fychanfrydig’ gan y Ceidwadwyr. Yna, byddaf wedi cyflawni popeth mewn gwleidyddiaeth yr oeddwn yn bwriadu ei wneud. [*Chwerthin.*]

Mae'n werth ailadrodd—[*Torri ar draws.*] Ceisiwch gadw i fyny. Mae'n werth ailadrodd y ffaith nad yw'r effeithiau ariannol yr ydym wedi sôn amdanynt heddiw wedi brathu hyd yn hyn i nifer o bobl. Mae'r newidiadau ariannol rydym wedi sôn amdanynt yn rhai cronnus mewn llawer o achosion. Mae materion y bydd angen mynd i'r afael â hwy dros y misoedd nesaf er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r system credyd cynhwysol. Rwy'n wir bryderu am y ‘system technoleg gwybodaeth bwrpasol’—mae'r disgrifiad hwnnw'n anfon ias i lawr fy asgwrn cefn. [*Chwerthin.*] A fydd y system hon yn gallu ymdopi? Beth fydd yn digwydd os bydd y system yn methu? Pa gynlluniau sydd wrth gefn? Fel Gweinidog, gallaf ddweud wrthyhch nad oes gennyf syniad. A oes gan San Steffan unrhyw syniad? Rwyf yn pryderu am hygyrchedd y system credyd cynhwysol oherwydd bod peirianwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei chyflwyno'n ganolog ac am y disgwyliad y bydd yr holl geisiadau'n cael eu gwneud yn electronig; y rhagdybiaeth, wrth gwrs, yw bod gan bawb fynediad at y dechnoleg honno a'u bod yn hyddysg mewn technoleg gwybodaeth.

Ar hyn o bryd, os oes gan berson broblem gyda'i fudd-dal tai, gall gysylltu â'i awdurdod lleol a datrys y broblem. Gallent alw i mewn i swyddfa'r cyngor lleol. Pa mor hygyrch fydd y system newydd hon, mewn gwirionedd? Fel Gweinidogion, rydym wedi cytuno bod angen cynnal—yng Nghymru, o leiaf—adolygiad o wasanaethau cynghori yng ngoleuni heriau o'r fath, sef yr heriau yr ydym yn eu hwynebu o ganlyniad i'r diwygiadau hyn, fel y'u gelwir. Mae fy ngweledigaeth i ar gyfer y dyfodol yn cynnwys rhwydwaith cryf o wasanaethau cynghori ar dai ledled Cymru sy'n hygyrch ac sy'n gallu helpu pobl ar unrhyw adeg mewn perthynas â'u hangen am dai. Bydd yn rhaid sicrhau mai darparu cyngor da yw ein prif ddull o gadw to dros bennau nifer o bobl. Rydym yn parhau i ariannu llawer o'r gwasanaethau cynghori sy'n cefnogi perchnogion tai sy'n agored i niwed, gan gynnwys Shelter Cymru a'r llinell gymorth ar

ddyledion tai sy'n cael ei rhedeg gan y Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr.

Over recent years, local authorities have successfully reduced their overreliance on temporary accommodation, particularly bed-and-breakfast accommodation. Worryingly, before all of these changes have even been implemented we are seeing an increase in the numbers of people presenting as homeless. The headline homelessness figure rose by 25% in the two years to September 2011, after having fallen by 40% over the previous five years.

The changes facing the Welsh Government and the Welsh public put all of us in an extraordinarily difficult position. What are low income families expected to do when the Department for Work and Pensions estimates that approximately 20% of properties in the private rented sector at present will no longer be financially attainable because of the reduction in local housing allowance levels. What are they to do? I do not have a magical supply of housing hidden under the desk here that I can suddenly make appear in order to solve this problem. Where are the tenants who underoccupy their rented property going to move to? Perhaps they would like to move next door to the Liberal Democrat and Tory spokespeople in this debate. I hope that they will remember, politically speaking, where they live.

At the same time, fewer properties will be available in the first place to housing benefit claimants because, as the National Landlords Association has indicated, some landlords are withdrawing—and will continue to withdraw—from the housing benefit market. These reforms will do the business as far as the UK coalition Government is concerned. They will save the UK Government money, and they are really going to do a job on Wales's poor, too.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi llwyddo i leihau eu dibyniaeth ar lety dros dro, yn enwedig llety gwely a brecwast. Mae'n destun pryder ein bod wedi gweld, cyn i bob un o'r newidiadau hyn gael eu gweithredu hyd yn oed, gynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ddigartref. Cododd y prif ffigur ar gyfer digartrefedd 25% yn y ddwy flynedd hyd at fis Medi 2011, ar ôl gostwng 40% dros y pum mlynedd blaenorol.

Bydd y newidiadau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd yng Nghymru yn rhoi pob un ohonom mewn sefyllfa hynod o anodd. Beth ddylai teuluoedd sydd ar incwm isel ei wneud, o ystyried bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif na fyddant yn gallu fforddio tua 20% o eiddo sydd yn y sector rhentu preifat ar hyn o bryd yn sgîl y gostyngiad yn lefelau'r lwfans tai lleol? Beth ddylai'r teuluoedd hyn ei wneud? Nid wyf wedi cuddio cyflenwad hud o dai o dan y ddesg—tai y gallaf eu datgelu'n sydyn er mwyn datrys y broblem hon. I ble y bydd y tenantiaid sy'n tan-lenwi eu heiddo wedi'i rentu yn symud? Efallai yr hoffent symud y drws nesaf i lefarwyr y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn y ddadl hon. Rwyf yn gobeithio y byddant yn cofio, o ran eu gwleidyddiaeth, lle maent yn byw.

Ar yr un pryd, bydd llai o eiddo ar gael yn y man cyntaf i hawlwyr budd-dal tai oherwydd, fel y nododd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, mae rhai landlordiaid yn tynnu yn ôl—a byddant yn parhau i dynnu yn ôl—o'r farchnad budd-daliadau tai. Ym marn Llywodraeth glymblaid y DU, bydd y diwygiadau hyn yn gwneud eu gwaith. Byddant yn arbed arian i Lywodraeth y DU, a byddant yn ergyd i bobl dlawd Cymru hefyd.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, rwyf yn gohirio pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17 Welsh Language Strategy 2012-17

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliant 6 yn enw Peter Black.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of William Graham, amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Jocelyn Davies, and amendment 6 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4935 Jane Hutt

Motion NDM4935 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Iaith fyw: iaith byw, a fabwysiadwyd yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'i chyhoeddi; a

1. Notes the publication of the Welsh Government's new Welsh Language Strategy, A living language: a language for living, adopted in accordance with section 78 of the Government of Wales Act 2006; and

2. Yn nodi ymhellach yr ymrwymiad sydd yn y Strategaeth i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru a chynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.

2. Further notes the Strategy's commitment to seeing the Welsh language thriving in Wales and to see an increase in the number of people who both speak and use the language.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Cynigiau y cynnig.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I move the motion.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i agor y ddadl heddiw ar strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef 'Iaith Fyw: Iaith Byw'. Mae'r iaith yn bwysig i bob un ohonom yng Nghymru. Mae'n bwysig i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Mae'n rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad Cymru.

I am grateful for the opportunity to open today's debate on the Welsh Government's new Welsh language strategy, 'A Living Language: a Language for Living'. The language is important to us all in Wales. It is important for Welsh-speakers and non-Welsh speakers alike. It is an essential part of the cultural identity and character of Wales.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru'n Un ar y strategaeth ddrafft rhwng Rhagfyr 2010 a Chwefror 2011. Mae'r strategaeth derfynol, a gyhoeddwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi, wedi cael ei datblygu ers hynny gyda chymorth grŵp cynghori. Cafodd y grŵp ei sefydlu gan y Gweinidog dros dreftadaeth blaenorol, Alun Ffred Jones. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Alun Ffred am ei waith yn arwain at gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ac i ddiolch i aelodau'r grŵp cynghori am eu cyfraniad gwerthfawr.

The One Wales Government consulted on the draft strategy between December 2010 and February 2011. The final strategy, published on St David's Day, has been developed since then with the assistance of an advisory group. The group was established by the previous Minister for heritage, Alun Ffred Jones. I would like to take this opportunity to thank Alun Ffred for his work leading to publication of the consultation document and to thank the members of the advisory group for their valuable input.

Wrth baratoi'r strategaeth derfynol, rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r consensws gwleidyddol sy'n bodoli o blaid yr iaith ar draws y Siambr. Rwyf hefyd yn gwybod bod llawer iawn o ewyllys da yn bodoli tuag at yr iaith ar draws Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar yr ewyllys da hwnnw wrth inni symud tuag at weithredu'r strategaeth.

Mae'r angen i ni weithio gyda'n gilydd i gefnogi'r iaith yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn parhau mewn cyflwr bregus, er gwaethaf y cynnydd calonogol yn nifer y siaradwyr Cymraeg a adroddwyd yng nghyfrifiad 2001. Mae byw ochr yn ochr ag un o ieithoedd cryfaf y byd yn her gyson, fel y mae cyflymder y newid technolegol a'i effaith ar yr holl ieithoedd lleiafrifol. Yn ogystal, mae prosesau mudo yn parhau i newid cymeriad ieithyddol cymunedau Cymraeg eu hiaith mewn sawl rhan o Gymru.

Mae amcanion y strategaeth yn cyd-fynd â'r drafft a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghoriad, er bod ffocws ychwanegol ar bwysigrwydd technoleg a chyfryngau digidol yn y fersiwn derfynol. Os ydym am berswadio plant a phobl ifanc i ymwneud â'r iaith, rhaid i hon fod yn flaenoriaeth bwysig.

Cafodd cynnwys y strategaeth derfynol ei ddylanwadu gan adolygiad o dystiolaeth a gomisiynais pan dderbyniais y cyfrifoldeb am bortffolio'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad ystadegol sy'n amcangyfrif ein bod yn colli rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl o Gymru bob blwyddyn. Mae'n ymddangos bod hyn yn bennaf oherwydd y gwahaniaeth rhwng y niferoedd sy'n gadael Cymru a'r rhai sy'n dychwelyd i Gymru. Ar y lleiaf, mae angen inni wrthdroi'r ffigur hwnnw.

Mae'n rhaid cydnabod mai prif ganfyddiad yr adolygiad dystiolaeth oedd bod diffyg dystiolaeth ar gael ar effaith mentrau sy'n anelu at hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn achos pryder i mi, a chredaf fel Llywodraeth fod rhaid inni ymdrechu i gau'r bwlch hwnnw. Rwyf felly wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith gwerthuso i eistedd ochr yn ochr â'r strategaeth. Bydd hynny'n cael ei ddatblygu, mewn ymgynghoriad â chyngor partneriaeth newydd y Gymraeg, yn

In preparing the final strategy, I have been conscious of the political consensus in support of the language that exists right across the Chamber. I also know that there is a huge amount of goodwill towards the language across Wales. It is important that we harness that goodwill as we move towards implementing the strategy.

The need for us to work together to support the language reflects the fact that it remains in a fragile state, notwithstanding the encouraging increase in the number of Welsh speakers reported in the 2001 census. Living alongside one of the world's strongest languages is a constant challenge, as is the pace of technological change and its impact on all minority languages. In addition, migration processes continue to change the linguistic character of Welsh-speaking communities in many parts of Wales.

The aims of the strategy are largely consistent with the draft issued for consultation, although there is an additional focus on the importance of technology and digital media in the final version. If we are to persuade children and young people to engage with the language, then this has to be an important priority.

The final strategy is informed by an evidence review that I commissioned when I was given responsibility for the Welsh language portfolio. This included a statistical analysis that estimates that we are losing between 1,200 and 2,200 fluent Welsh speakers from Wales each year. It seems that this is mainly due to the difference between the numbers leaving Wales and those returning to Wales. At the very least, we need to reverse that figure.

It has to be recognised that the main finding of the evidence review was that there is generally a lack of evidence available on the effect of initiatives aimed at promoting the use of Welsh. This is a cause of concern for me, and I think that as a Government we must strive to plug that gap. I have therefore committed to developing an evaluation framework to sit alongside the strategy. That will be developed, in consultation with the new Welsh language partnership council,

ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r strategaeth yn ddogfen lefel uchel a fydd yn parhau am bum mlynedd ac sy'n cynnwys datganiadau cryf o blaid y Gymraeg. Hoffem annog a chefnogi cynnydd yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith, er mwyn ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hynny'n her fawr ar adeg anodd yn economaidd, ond rwy'n benderfynol o wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Rydym wedi dynodi chwe maes strategol er mwyn gweithredu: annog a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn teuluoedd; cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc; cryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y gymuned; cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion; a chryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys defnydd da o'r Gymraeg mewn technoleg ddigidol.

Yn ogystal, mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol—ochr yn ochr ag annog defnydd yr iaith mewn teuluoedd—o gynhyrchu siaradwyr Cymraeg y dyfodol. Mae'r strategaeth yn anelu tuag at ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl fwynhau defnyddio eu sgiliau iaith, boed y rheini wedi eu caffael yn y cartref neu drwy'r system addysg—beth bynnag yw eu lefelau rhuglder—ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.

Mae pwyslais arbennig ar yr angen i ddatblygu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r system addysg, ac i wneud mwy i hybu gwerth defnyddio eu sgiliau iaith yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae hynny'n cysylltu â'r pwyslais ychwanegol sydd ar y gweithle fel parth pwysig lle gall defnydd y Gymraeg gael ei feithrin, lle gall hyder mewn sgiliau iaith gael ei adeiladu, a lle gall gwerth yr iaith gael ei wireddu. Mae hyn yn perthyn yn agos at y nod o wella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion.

during the next financial year.

The strategy is a high-level document that will continue for five years and which contains strong statements in support of the Welsh language. We want to encourage and support an increase in the numbers of those who can speak Welsh and who use it, in order to safeguard it for future generations. That will be a big challenge at what it is a difficult time economically, but I am determined to make the best use of the resources available.

We have identified six strategic areas in which action will be taken: encouraging and supporting the use of the Welsh language within families; increasing the provision of Welsh-medium activities for children and young people; strengthening the position of the Welsh language in the community; increasing opportunities for people to use Welsh in the workplace; improving Welsh-language services to citizens; and strengthening the infrastructure for the language, including good use of Welsh in digital technology.

In addition, the strategy emphasises the importance of the Government's Welsh-medium education strategy as an essential component—alongside encouraging the use of the language within families—in producing the Welsh speakers of the future. The strategy is geared towards providing more opportunities for people to enjoy using their Welsh-language skills, whether they were acquired in the home or through the education system—irrespective of fluency levels—in all aspects of everyday life.

There is a particular emphasis on the need to develop more opportunities for children and young people to participate in Welsh-medium activities outside the education system, and to do more to promote the value of using their Welsh-language skills both economically and culturally. That links in with the greater emphasis on the workplace as an important domain in which the use of Welsh can be nurtured, confidence in language skills can be built, and the value of the language can be realised. This is closely related to the aim of improving Welsh-language services to citizens.

Fel y soniais eisoes, agwedd allweddol yw'r angen i ddatblygu seilwaith ar gyfer yr iaith, ac yn arbennig i fanteisio ar y cyfleoedd y gall technoleg newydd eu darparu i hybu ei defnydd. Mae angen i gynnwys digidol fod ar gael yn y Gymraeg os yw'r iaith i gael ei gweld fel iaith fodern a byw, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Rwyf felly wedi sefydlu grŵp i edrych ar sut y gallwn ddarparu cefnogaeth ar gyfer datblygu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn.

Mae'r strategaeth yn cael ei gosod yn erbyn cefndir y newidiadau deddfwriaethol a strwythurol a ddaeth yn sgîl Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a basiwyd gan y Cynulliad blaenorol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Meri Huws pan fydd hi'n cychwyn yn ffurfiol ar ei rôl fel Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill. Bydd ei gwaith o ddatblygu safonau'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i wireddu amcanion y strategaeth. Wrth gwrs, bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar y rheoliadau. Rwyf wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'r comisiynydd i gynorthwyo gyda'r broses o sefydlu'r system reoleiddio newydd. Rwy'n gallu sicrhau'r Cynulliad y bydd annibyniaeth y comisiynydd yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.

Ochr yn ochr â'r system reoleiddio, mae angen gwaith effeithiol a chreadigol i annog a hybu defnydd y Gymraeg ar draws y chwe maes rwyf eisoes wedi eu crybwyll. Bydd cyfran sylweddol o staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn trosglwyddo i'm hadran wrth i'r bwrdd gael ei ddiddymu ar ddiwedd y mis. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i staff ac aelodau Bwrdd yr Iaith Gymraeg am eu gwaith dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae'r bwrdd yn sicr wedi helpu i godi proffil yr iaith.

4.30 p.m.

Rwy'n awyddus i ddatblygu ac adolygu'r gwaith a wnaed i gefnogi'r iaith hyd yma, ac i weithio gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys sefydliadau y tu allan i'r sector iaith Gymraeg traddodiadol. Byddaf yn fuan yn penodi aelodau i gyngor

As I have already mentioned, a key aspect is the need to develop the infrastructure for the Welsh language, and in particular to take advantage of the opportunities that new technology can provide to promote its use. Digital content needs to be available in Welsh if the language is to be seen as a modern and living language, particularly among young people. I have, therefore, established a group to explore how we can provide support for the development of more opportunities for people to use Welsh in this context.

The strategy is set against a background of legislative and structural changes brought about by the Welsh Language (Wales) Measure 2011 passed by the previous Assembly. I look forward to working with Meri Huws when she formally begins in her role as Welsh Language Commissioner from 1 April. Her work of developing Welsh language standards will play an important role in helping us to realise the strategy's aims. Of course, the Assembly will vote on the regulations. I am committed to working closely with the commissioner to assist with the process of establishing the new regulatory system. I can assure the Assembly that the commissioner's independence will be valued and respected.

Alongside the regulatory system, there is a need for effective and creative work to encourage and promote the use of the Welsh language across the six areas that I have already mentioned. A significant proportion of the Welsh Language Board's staff will transfer to my department when the board is abolished at the end of the month. I would like to take this opportunity to thank the Welsh Language Board's staff and members for their work over the past two decades. The board has undoubtedly helped to raise the profile of the language.

I am keen to develop and review the work undertaken to support the language to date, and to work with a wide range of organisations and individuals, including organisations outside the traditional Welsh language sector. I will soon be appointing

partneriaeth y Gymraeg, a sefydlwyd yn unol â Mesur y Gymraeg, i roi cyngor ar weithredu'r strategaeth. Hoffwn glywed gan leisiau newydd sy'n benderfynol o weld y Gymraeg yn ffynnu.

Fel Llywodraeth, ar draws y portffolios gweinidogol i gyd, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran prif ffrydio polisi iaith Gymraeg ac i feddwl yn greadigol am sut y gallwn ddod â manteision i'r iaith, ac i gymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys rhoi grantiau a thrwy ein prosesau caffael. Er enghraifft, bydd ymgyrch Google i gael busnesau Cymru i fod ar-lein, a lansiwyd yr wythnos diwethaf gyda nawdd oddi wrth yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, yn cynnwys negeseuon cadarnhaol i fusnesau am y defnydd o'r Gymraeg ar-lein. Rhaid i ni hefyd fod yn barod, fel Llywodraeth, i gydymffurfio â'r safonau y bydd y Comisiynydd yn datblygu—rwy'n siŵr y byddwn yn agos at frig ei rhestr.

Rwy'n hynod o falch o'r strategaeth hon, ac mae'n anrhydedd i gael arwain ar y gwaith hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda phob un sydd â diddordeb yn yr iaith a pharhau â'r gwaith pwysig o sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith. Bydd gan y strategaeth hon ran hanfodol i'w chwarae i sicrhau bod dyfodol iddi.

Gwelliant 1 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro lefel y cyfranogiad a fydd gan sefydliadau gwirfoddol, annibynnol a phreifat wrth gyflenwi'r strategaeth.

Suzy Davies: Cynigaf welliant 1 yn enw William Graham.

Weinidog, hoffwn groesawu'r strategaeth hon a chadarnhau ein cytundeb â'i chwe phrif nod. Mae'n cydnabod y newid mewn cadarnleoedd lle siaredir y Gymraeg yn draddodiadol. Mae'n rhaid i ni ddeall sut mae'r cymunedau hynny eu hun yn credu y

members to a Welsh language partnership council, established in accordance with the Welsh language Measure, to advise on the strategy's implementation. In doing so, I wish to hear from new voices who are determined to see the Welsh language thrive.

As a Government, across all ministerial portfolios, we have an important role to play in mainstreaming Welsh language policy and to think creatively about how we can bring benefits to the language, and to Welsh-speaking communities, including through our grant-giving and procurement procedures. For example, Google's Getting Welsh Businesses Online campaign, launched last week with sponsorship from the Department for Business, Enterprise, Technology and Science, will include positive messages to business about the use of Welsh online. We must also be ready, as a Government, to comply with the standards which the Commissioner will develop—I am sure that we shall be near the top of her list.

I am extremely proud of this strategy document, and honoured to be leading this work on behalf of the Welsh Government. I look forward to working with all of those with an interest in the language and to continuing with the important work of ensuring a bright future for the language. This strategy will have a vital part to play in ensuring that future.

Amendment 1 William Graham

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to clarify the level of involvement which voluntary, independent and private organisations will have in the delivery of the strategy.

Suzy Davies: I move amendment 1 in the name of William Graham.

Minister, I would like to welcome this strategy and confirm our agreement with its six main aims. It acknowledges the changes in the traditional Welsh heartlands. We need to understand how those communities themselves believe that the trend can be

gellir gwrthdroi'r duedd hon. Mae'n cydnabod potensial siaradwyr eu bro a dysgwyr amherffaith—ar ran llawer iawn ohonom, hoffwn ddiolch i chi am ddeall os nad ydych yn gallu mynd â ni gyda chi, mae risg taw'r Gymraeg fydd y Lladin newydd: iaith o burdeb ac awdurdod nad yw, er hynny, yn byw.

Er fy mod yn croesawu'r gwelliant parhaus yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, hoffwn ganolbwyntio ar yr hyn a elwir gennych yn 'lleisiau newydd' a'u lle yn y strategaeth hon. Mae gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig yn ceisio canfod rhagor o fanylion amdanynt—dim mwy na hynny.

Mae'r strategaeth yn cyfeirio at y sefydliadau sydd â rhan i'w chwarae. Mae hon yn neges bendant, sef y bydd grwpiau sy'n bodoli eisoes, grwpiau newydd neu sefydliadau ar lawr gwlad anhysbys yn ganolog i gyflawni eich nodau.

Hefyd, rydych chi wedi dweud, fwy nag unwaith, y bydd Llywodraeth Cymru yn arwain hyn. A wnewch chi roi sicrwydd i ni na fydd cymryd yr awenau yn meddwl cymryd drosodd? Ble fydd y grym? O ble y mae'r gyllideb yn dod? A ble caiff rhan fwyaf yr arian ei wario—gan y comisiynydd; gan yr is-adran iaith Gymraeg newydd; gan y cyngor partneriaeth newydd ar gyfer yr iaith; neu gan y lleisiau cymunedol? A wnewch chi ddweud wrthym pwy fydd y lleisiau newydd?

Gwelaf eich bod yn dal yn cynnwys Twf, mentrau iaith, yr Urdd, y Mudiad Meithrin ac awdurdodau lleol yn eich cynlluniau. Efallai y byddwch hyd yn oed yn rhoi gwaith ychwanegol iddynt, er gwaethaf y ffaith eich bod yn derbyn bod monitro a gwerthuso, fel ag y maent, wedi methu â darparu tystiolaeth empirig dda i gefnogi eu gwaith. Rydych yn derbyn hefyd fod y broses fonitro a gwerthuso newydd yn mynnu rhywfaint o waith ychwanegol. Mae methiannau monitro a gwerthuso wedi bod yn nodwedd o Lywodraethau blaenorol Cymru, fel y mynegir mewn dadleuon am AWEMA a Chymunedau'n Gyntaf. Pan fydd y strategaeth hon yn dod i ben yn 2017,

overtuned. It also acknowledges the potential of speakers of local dialects and learners with imperfect Welsh—on behalf of many, I thank you for understanding that if you cannot take us with you, there is a risk that Welsh will become the new Latin: a language of purity and authority, but one that is not viable.

Even though I welcome the continuous improvement in the use of Welsh in public services, I would like to concentrate on your reference to 'new voices' and their place in this strategy. The Welsh Conservatives' amendment seeks further information about those voices—no more than that.

The strategy refers to those organisations that have a part to play. It sends the strong message that those groups already in existence, new groups and grass-roots organisations yet to be identified will be central to the achievement of the aims highlighted.

Furthermore, you state on more than one occasion that the Welsh Government will take the lead on this. Will you give us an assurance that taking the lead will not mean taking over? Where will the power lie? Where will the budget come from? Where will the majority of the funding be spent—by the commissioner; by the new Welsh language division; by the new language partnership council; or by the community voices? Will you tell us who those new voices will be?

I see from your plans that Twf, the Urdd, the Mudiad Meithrin and local authorities will continue to have a role. You could even give them additional work, despite your acceptance of the fact that the monitoring and evaluation, as things stand, have not provided good empirical evidence to support their work. You also accept that the new process of monitoring and evaluation will mean some additional work. The failings of monitoring and evaluation have been a characteristic of previous Welsh Governments, as highlighted by debates surrounding AWEMA and Communities First. When this strategy comes to an end in 2017, we will expect you to demonstrate that it has been successful and

byddwn yn disgwyl i chi ddangos ei bod wedi bod yn llwyddiannus a'i bod wedi rhoi gwerth am arian i bobl Cymru.

Yn ogystal â phartneriaethau presennol, mae rhai cynlluniau Llywodraeth sydd â mwy o ran i'w chwarae. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen sy'n helpu normaleiddio bodolaeth y Gymraeg mewn ardaloedd difreintiedig. Nid ydym eisiau gweld plant yn tyfu lan heb gyfle i wneud cais am swyddi yn y sector cyhoeddus sy'n talu'n dda achos eu diffyg yn y Gymraeg. Ni ddylai'r Gymraeg fod yn iaith pobl eraill.

Beth am grŵpiau cymunedol lleol? Pa rôl y byddant yn ei chwarae yn eich *coalition of the unconventional*? Sut y byddwch yn defnyddio'r lleisiau hynny i annog y rheini sy'n ddihyder ac oedolion nad ydynt yn gwerthfawrogi'r Gymraeg? Beth am ysgolion cyfrwng Saesneg, lle nad yw'r Gymraeg yn ddigon o flaenoriaeth? Beth am siopau, a sinemâu, a swyddfeydd bach lle mae'r Gymraeg yn gwbl absennol er gwaethaf y ffaith fod bron pob person ifanc yno wedi cael rhywfaint o Gymraeg yn eu hysgolion?

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you take an intervention from Bethan Jenkins?

Suzy Davies: Gwnaf, os ydyw'n un byr.

Bethan Jenkins: Yn eich gwelliant, rydych yn sôn am y sector preifat. A ydych chi'n dweud bod angen i'r Llywodraeth weithredu uwchlaw'r safonau y bydd y comisiynydd yn eu rhoi ger ein bron o ran y sector preifat? Rwy'n gofyn er mwyn eglurder.

Suzy Davies: Hoffwn weld y Llywodraeth yn edrych ar draws Cymru gyfan i chwilio am bobl sy'n gallu helpu gyda hynny, yn lle cadw popeth o fewn y Llywodraeth. Dyna yw'r cyfeiriad rwy'n mynd iddo gyda'r cyfraniad hwn.

Mae'r hyn sy'n digwydd yn y siopau a'r busnesau bach, er enghraifft, yn digwydd er gwaethaf y gefnogaeth a ddangoswyd gan Ffederasiwn Busnesau Bach i syniadau fel y marc siarter Cymraeg a awgrymwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Mae cael stamp polisi Llywodraeth, yn arbennig drwy

has provided value for money for the people of Wales.

In addition to the existing partnerships, there are some Government schemes that have a greater role to play. Flying Start is a programme that helps to normalise the existence of Welsh in disadvantaged areas. We do not want to see children growing up without an opportunity to apply for well-paid jobs in the public sector because of their lack of ability in the Welsh language. Welsh should not be the language of other people.

What about local community groups? What role will they play in your coalition of the unconventional? How will you use those voices to encourage those who are not confident in the Welsh language, and adults who do not appreciate Welsh? What about English-medium schools, where Welsh is not enough of a priority? What about small shops, cinemas and small offices where Welsh is absent, even though almost all the young people there will have had some education in the Welsh language?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch dderbyn ymyriad gan Bethan Jenkins?

Suzy Davies: I will, if it is brief.

Bethan Jenkins: In your amendment you mention the private sector. Are you saying that the Government needs to take action over and above the standards that the commissioner will bring forward in terms of the private sector? That is just for clarity.

Suzy Davies: I would like the Government to look across Wales to find people who can help with this, without keeping everything within the Government. That is where I am going with this contribution.

What is happening in those small shops and businesses is despite the support shown by the Federation of Small Businesses to ideas like the Welsh charter suggested by the Welsh Conservatives. The stamp of the Government's policy, especially in legislation, across public services, planning,

ddeddfwriaeth, ar draws gwasanaethau cyhoeddus, cynllunio ac yn y blaen yn un peth, ond os ydych yn gobeithio croesi'r trothwy i mewn i gartrefi pobl, ac os ydych yn gobeithio perswadio unigolion a chymunedau i newid eu ffyrdd o gyfathrebu â'i gilydd, ni all hynny ond ddigwydd dros amser, drwy esiampl cyfoedion ac o ganlyniad i blant yn addysgu oedolion, a thrwy esblygiad yn hytrach na chwyldro yng ngwerthoedd pobl. Mae angen i'r newid fod yn real, nid yn gosmetig.

Gwelliant 2 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y ffaith bod nifer y cymunedau lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol yn ôl y cyfrifiad diwethaf.

Gwelliant 3 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.

Gwelliant 4 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i gynnwys mesurau i adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn ei rhaglen ddeddfwriaeth.

Gwelliant 5 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i adnabod y gyllideb sy'n angenrheidiol i wireddu'r strategaeth.

Bethan Jenkins: Cynigiau welliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw Jocelyn Davies.

Rwy'n croesawu'r ddadl hon heddiw ac yn

and so on, is one thing, but if you hope to cross a boundary into people's homes, and if you hope to persuade individuals and communities to change their ways in communicating with each other, that can only happen over time, by setting an example with children teaching adults, and with evolution rather than revolution in people's values. It has to be a real change, and not a cosmetic one.

Amendment 2 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Notes with concern that the number of communities where 70% of the population speak Welsh has greatly decreased according to the last census.

Amendment 3 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Calls on the Government to establish a task and finish group to plan to increase the number of communities where Welsh is the main language.

Amendment 4 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Calls on the Government to include measures to revive Welsh as a community language in its legislative programme.

Amendment 5 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Calls on the Government to identify the finance necessary to implement the strategy.

Bethan Jenkins: I move amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of Jocelyn Davies.

I welcome this debate today, and I welcome

croesawu'r rôl a chwaraewyd gan Alun Ffred Jones a Rhodri Glyn Thomas fel Gweinidogion gynt yng nghyd-destun creu strategaeth gref ar gyfer yr iaith Gymraeg. Rwy'n croesawu'r ffaith y cafodd y strategaeth ei lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi, ond credaf fod angen i'r Gweinidog ystyried y ffaith bod gan Undeb Rygbi Cymru wefan uniaith Saesneg ag arni fideos uniaith Saesneg, a bod y prif weithredwr yn ymateb yn Saesneg i ohebiaeth Gymraeg. Mae angen inni edrych ar draws y sector cyhoeddus ac mae angen i Undeb Rygbi Cymru ddangos esiampl yn hynny o beth hefyd.

Wrth gwrs, fe fu i Blaid Cymru mewn llywodraeth weithredu'n gyson ar yr iaith Gymraeg, drwy gyfrwng Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, strategaeth addysg cyfrwng Gymraeg, a'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol, felly mae gennym ni ddigon i fod yn browd ohono ar y meinciau hyn. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i osod safonau ar gyfer y rhannau hynny o'r sector preifat a fydd yn dod o dan y ddeddfwriaeth o'r newydd. Mae'n dangos bod consensws wedi'i sefydlu o blaid rheoleiddio'r sector preifat o safbwynt gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys cwmnïau ffôn a band eang.

Rwy'n falch bod y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd y sector technolegol, yn enwedig i blant a phobl ifanc, ond mae angen gweithredu nawr gan fod y Gymraeg yn wynebu argyfwng ar lefel gymunedol. Yn ôl cyfrifiad 2001, bu cwymp sylweddol yn nifer y cymunedau sydd â mwy na 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn amcangyfrif bod y Gymraeg yn colli 3,000 o siaradwyr rhugl bob blwyddyn. Dyna pam rydym wedi cyflwyno gwelliannau 3 a 4-er mwyn galw ar y Llywodraeth i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar sut i adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Rydym yn gofyn i'r Llywodraeth esbonio sut y gall ddeddfu er mwyn cryfhau'r iaith ymhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth, yn enwedig yn y sector cynllunio, o ran twf economaidd ac yn y byd addysg. Rhaid gofyn pa fath o gynllun sydd gan y Llywodraeth i ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad am y Gymraeg os, fel mae nifer ohonom yn ofni, fydd y patrwm o ostyngiad yn nifer y cymunedau Cymraeg yn parhau.

the role that Alun Ffred Jones and Rhodri Glyn Thomas played previously as Ministers in the context of creating a strong strategy on the Welsh language. I also welcome the fact that it was launched on St David's Day, but I think that the Minister needs to consider the fact that the WRU has a monolingual English website and video stream, and a chief executive who responds to Welsh-medium correspondence through the medium of English. We need to look across the public sector and the Welsh Rugby Union needs to show an example in that regard, too.

Of course, Plaid Cymru in government consistently took action on the Welsh language, with the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Welsh-medium education strategy, and Coleg Gymraeg Cenedlaethol, so we have plenty that we can be proud of on these benches. We welcome the fact that the Government is committed to providing standards for those parts of the private sector that will now come within the scope of the legislation. It shows that a consensus has been established in terms of regulating the private sector on the Welsh-language services provided, including telephone and broadband providers.

I am pleased that the Minister has recognised the importance of the technology sector, particularly for children and young people, but we need action now because the Welsh language is facing a crisis at community level. According to the 2001 census, there was a significant decrease in the number of communities where over 70% of the population speak Welsh. The Welsh Language Board estimates that the Welsh language is losing 3,000 fluent Welsh speakers per annum. That is why we have tabled amendments 3 and 4—in order to call on the Government to establish a task and finish group that can look at how we can rejuvenate the Welsh language as a community language. We want an explanation of how the Government can take legislative action to strengthen the position of the language in all parts of Government, particularly in the planning sector, in economic development and in education. We also need to ask what kind of scheme the Government has to respond to the findings of

Beth mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud ynghylch y sefyllfa honno?

the census on the Welsh language if, as many of us fear, the pattern of a decline in the number of Welsh-speaking communities continues. What does the Government intend to do about that situation?

Rydym yn gofyn sut bydd y Llywodraeth yn ariannu'r strategaeth hon, a dyna a wnawn yng ngwelliant 5. Rhaid inni ddeall pa mor ddifrifol yw'r Llywodraeth ynghylch twf y Gymraeg. Yng Ngwlad y Basg, mae'r Llywodraeth yn gwario £60 miliwn y flwyddyn—heb ystyried addysg—sydd bedair gwaith yn fwy na'r £14 miliwn y mae'r Llywodraeth yma yng Nghymru yn ei wario. Gofynnodd bwrdd yr iaith ddoe am i'r arian sy'n mynd i mewn i'r iaith yng Nghymru gael ei ddyblu.

We are asking how the Government will fund this strategy, and that is what we are doing in amendment 5. We need to understand how serious the Government is about growth in the Welsh language. In the Basque Country, the Government spends £60 million per annum—not taking into account education—which is more than four times the £14 million that the Government here in Wales spends. The language board yesterday asked for a doubling of funding for the language in Wales.

Yr adran arall sy'n bwysig inni ei hystyried yw defnydd mewnol y Llywodraeth o'r Gymraeg. Mae'n sicr yn bwysig bod angen i bob adran yn y Llywodraeth gael staff sy'n medru'r iaith, ac yn darparu llenyddiaeth yn y Gymraeg. Rhaid iddynt hefyd sicrhau eu bod yn cyfathrebu, mewn pwyllgorau ac yn y blaen, yn Gymraeg. Pan ddaethoch chi i'r pwyllgor sy'n craffu arnoch chi fel Gweinidog, fe fu inni ddweud wrthyf ei bod yn bwysig inni sicrhau bod gan bob sector yn y Llywodraeth bolisi iaith Gymraeg cryf. Fodd bynnag, yn anffodus, rwyf eto i weld hynny ar waith.

The other section that it is important for us to consider is the Government's internal use of the Welsh language. It is certainly important that every Government department should have Welsh-speaking staff, and should provide literature in Welsh. They must also ensure that they communicate, in committee and so on, in Welsh. When you came to the committee that scrutinises you as a Minister, we told you that it was important that we should ensure that all sectors of Government have robust Welsh language policies. However, unfortunately, I have yet to see that implemented.

Rhaid inni sicrhau bod y comisiynydd yn annibynnol. Rwyf eisiau derbyn sicrwydd yma heddiw y bydd y Llywodraeth yn barod i fabwysiadu polisi o beidio rhwystro'r comisiynydd rhag gosod safonau pellgyrhaeddol ar bob sector, gan gynnwys y sector preifat, sydd o fewn cwmpas y Mesur.

We also need to ensure that the commissioner is independent. I would like an assurance here today that the Government is willing to adopt a policy of not preventing the commissioner from placing far-reaching standards on all sectors, including the private sector, that are within the remit of the Measure.

Hoffwn orffen gyda'r ffaith fy mod wedi gofyn i bobl ar Twitter a Facebook beth yw'r problemau mwyaf iddynt hwy. Dywedwyd wrthyf mai'r broblem fwyaf ar lawr gwlad yw cael mynediad i weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg ar lawr gwlad a'i fod yn anodd gwybod a yw staff mewn siopau yn siarad Cymraeg ai peidio. Er enghraifft, gellir cael gwersi Zumba trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond nid ydynt ar gael yn Rhondda Cynon Taf. Felly, mae angen mwy o

I would like to finish with the fact that I had asked people on Twitter and Facebook what are the greatest problems that they face. They told me that the biggest problem on the ground is access to sports facilities through the medium of Welsh at grass-roots level, and that it is difficult to know whether staff in shops speak Welsh or not. For example, you can have Zumba lessons through the medium of Welsh in Neath Port Talbot, but not in Rhondda Cynon Taf. Therefore, we need more action to ensure that local councils

weithredu i sicrhau bod cyngorau lleol yn mabwysiadu polisiau iaith cryf. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud o ran gweithredu'r strategaeth ac o ran sicrhau y bydd y strategaeth yn cael ei monitro'n gryf, gan gynnwys Aelodau Cynulliad.

Gwelliant 6 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y caiff ei thargedau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg eu cyrraedd.

Aled Roberts: Cynigiau welliant 6 yn enw Peter Black.

Carwn ddiolch i'r Gweinidog am lansio strategaeth 'Iaith Fyw: Iaith Byw' ar Ddydd Gŵyl Dewi. Fodd bynnag, rhaid imi ddatgan fy siom fod y fideo yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar wefan uniaith Saesneg Undeb Rygbi Cymru. Yn ogystal, wrth edrych ymlaen at y gamp lawn ddydd Sadwrn, rwy'n siomedig bod Undeb Rygbi Cymru yn defnyddio baneri uniaith Saesneg yn ein stadiwm genedlaethol. Nid yw hynny, felly, yn esiampl dda o gorff cyhoeddus yn gweithredu trwy'r ddwy iaith. Er hynny, rhaid ymfalchïo bod cytundeb trawsbleidiol yn y Cynulliad o ran cefnogi ymdrechion y Gweinidog.

Rhaid i ni fel plaid ymrwymo i roi ein cefnogaeth i chi, Weinidog, o ran gweld y strategaeth hon yn llwyddo. Fodd bynnag, rhaid cael ymateb mwy cadarnhaol oddi wrth y Llywodraeth gyfan os ydym am ddiogelu'r iaith i'r dyfodol. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, rhaid gofyn beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i atal yr argyfwng y mae'r iaith yn ei wynebu ar lefel gymunedol. Mae'n glir bod y strategaeth yn cydnabod beth sy'n digwydd ac yn derbyn bod nifer y cymunedau lle mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn ddangosydd pwysig o ba mor hyfyw yw'r iaith, ond mae'n eithaf tawel ar sut byddwn yn ceisio gwyrdroi'r sefyllfa yn y dyfodol.

Rwy'n poeni braidd am y ffaith nad yw'r

adopt strong Welsh language policies. I look forward to hearing what the Government will be doing in terms of implementing the strategy and ensuring that the strategy will be monitored strongly, including by Assembly Members.

Amendment 6 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to identify how its targets to increase the number of pupils who learn through the medium of Welsh will be met.

Aled Roberts: I move amendment 6 in the name of Peter Black.

I thank the Minister for launching the 'A Living Language—A Language for Living' strategy on St David's Day. However, I must also express my disappointment that the video appeared in English only on the English-only website of the Welsh Rugby Union. In addition, in looking forward to the grand slam on Saturday, I am disappointed that the Welsh Rugby Union is using English-only banners in our national stadium. That is not a good example of a public body operating in both languages. Despite that, I am pleased that there is cross-party agreement in the Assembly on supporting the Minister's efforts.

As a party we must commit to giving our support to you, Minister, in relation to seeing this strategy succeed. However, we also need a more positive response from the Government as a whole if we are to safeguard the language for the future. As Bethan Jenkins said, we have to ask what the Government is doing to prevent the crisis that the language is facing on a community level. It is clear that the strategy acknowledges what it is happening and accepts that the number of communities where more than 70% of the population speaks Welsh is an important indicator of how viable the language is, but it is quite quiet on how it will try to turnaround that situation in future.

I am also somewhat concerned about the fact

strategaethau addysg Gymraeg rwyf wedi'u gweld gan y cynghorau lleol hwyrach mor ddeinamig, uchelgeisiol a chadarnhaol ag y dylent fod ar hyn o bryd. Maent yn methu esbonio'n union sut bydd y Mesur yn ateb galw rhieni am addysg Gymraeg, na sut ellid cynyddu nifer y plant yng nghyfnod allweddol 2 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.45 p.m.

Byddai'n ddiddorol clywed gan y Gweinidog, sydd hefyd yn Weinidog addysg, pa sail mae'n ei osod ar gyfer y strategaethau addysg hyn. Wrth gynnig gwelliant 6 yn enw Peter Black ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, nodaf y byddwn hefyd yn cefnogi holl welliannau Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig.

Rhaid gofyn beth mae'r Llywodraeth yn gwneud i atal y dirywiad. Mae'r Gymraeg yn wynebu argyfwng ar lefel gymunedol. Yn ôl cyfrifiad 2001, a byddwn yn gweld canlyniadau cyfrifiad 2011 yn fuan, bu cwymp sylweddol yn nifer y cymunedau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r strategaeth yn sôn am bethau sydd eisoes yn digwydd i atal y dirywiad, ond nid oes llawer o sôn am weithredoedd newydd a fydd yn ceisio gwyrdroi'r patrwm hwnnw o ddirywiad. Nid oes sôn ychwaith am y rôl y gallai cynllun deddfwriaethol y Llywodraeth ei chwarae yn y broses o ddelio â'r broblem. Er bod sôn am bolisi cynllunio yn y strategaeth, nid oes cydnabyddiaeth y bydd y Bil datblygu cynaliadwy a'r Bil cynllunio arfaethedig yn gyfleoedd i daclo'r broblem.

Yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd, mae arolygwyr cynllunio'r Llywodraeth yn gweithredu polisiau cynllunio lleol, yn groes i farn cynghorau lleol, i gynyddu lefel y datblygiadau tai yn sylweddol, a byddant yn effeithio ar y ganran sy'n siarad Cymraeg yn y siroedd hynny. Fel dywedodd Bethan Jenkins, mae gwariant Llywodraeth Gwlad y Basg ar yr iaith Fasseg yn llawer yn fwy na'r hyn a wariwn ar y Gymraeg. Nid cwestiwn o ragor o adnoddau yn unig yw hwn. Mae angen ystyried effaith yr holl wariant, gan

that the Welsh-medium education strategies that I have seen from local councils are not perhaps as dynamic, ambitious and positive as they should be at the moment. They fail to explain exactly how the Measure will meet parents' demand for Welsh-medium education, or how the number of children who are taught through the medium of Welsh at key stage 2 can be increased.

It would be interesting to hear from the Minister, who is also the Minister for education, what kind of baseline he sets for these education strategies. In moving amendment 6 in the name of Peter Black on behalf of the Liberal Democrats, I note that we will also be supporting all the amendments tabled by Plaid Cymru and the Welsh Conservatives.

We have to ask what the Government is doing to prevent the decline. The Welsh language is facing a crisis at the community level. According to the 2001 census, and we will be seeing the results of the 2011 census soon, there was a significant decline in the number of communities where more than 70% of the population speaks Welsh. The strategy mentions what is already being done to halt the decline, but there is not much mention made of new activities to seriously try to reverse that pattern. There is also no mention of the role that the Government's legislative programme could play in the getting to grips with the problem. Although the planning policy is mentioned in the strategy, there is no acknowledgement that the proposed sustainable development Bill and planning Bill could present opportunities to tackle the problem.

In north Wales currently, the Government's planning inspectors are implementing local planning policies, contrary to the opinion of local councils, to increase significantly the level of housing developments, and they will have an impact on the percentage of people who speak Welsh in those counties. As Bethan Jenkins said, the expenditure of the Government of the Basque Country on the Basque language is much greater than our expenditure on the Welsh language. It is not only a question of additional resources. The

gynnwys gwariant holl adrannau'r Llywodraeth, ar yr iaith. Mae nifer o wefannau cynghorau sir yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd ac mae darpariaeth gwersi nofio a gweithgareddau hamdden eraill drwy gyfrwng y Gymraeg yn wan iawn mewn nifer o siroedd, er bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu yn y siroedd hynny. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa gref i wneud lles i'r iaith, ond maent yn dewis peidio â gwneud hynny ar adegau.

impact of the total expenditure on the language needs to be considered, including the expenditure of all Government departments. A number of county council websites are in English only at the moment and the provision of swimming lessons and other leisure activities through the medium of Welsh is very weak in several counties, although Welsh-medium education is increasing in those counties. Local authorities are in a strong position to be of benefit to the language, but they choose not to do so at times.

Rhaid hefyd gofyn beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran y defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol. Mae angen dechrau newid sylfaenol a fydd yn golygu bod gweision sifil yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyd yn oed cwestiynau am y defnydd a wneir o'r iaith o fewn uned y Gymraeg ei hun. Drafftwyd Mesur y Gymraeg yn Saesneg, er bod mwyafrif helaeth y staff yn uned Gymraeg Llywodraeth Cymru yn rhugl yn y Gymraeg. Dyna un enghraifft o broblem sy'n treiddio drwy'r sefydliad.

We must also ask what the Government is doing internally in terms of the use of the Welsh language. We need to institute a fundamental change that will mean that civil servants work through the medium of Welsh. There are even questions about the use made of the language within the Welsh language unit itself. The Welsh language Measure was drafted in English, even though the vast majority of the staff in the Welsh language unit of the Welsh Government are fluent in Welsh. That is one example of a problem that permeates throughout the institution.

Mike Hedges: It will come as no surprise that I support the Welsh Government's Welsh language strategy. I am proud of Welsh Labour's long-standing commitment to securing a bright future for the Welsh language. We have a proud record of protecting and promoting the Welsh language. While in Government in the Assembly, Welsh Labour has invested in new Welsh-medium schools, increased funding to a range of organisations for promoting and securing the language, and legislated and delivered new rights for Welsh speakers in the delivery of services—the first legislation on the Welsh language in over 20 years.

Mike Hedges: Ni fydd yn syndod fy mod yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg. Rwy'n falch o ymrwymiad hirdymor Llafur Cymru i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r iaith Gymraeg. Mae gennym hanes balch o warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Tra yn y Llywodraeth yn y Cynulliad, mae Llafur Cymru wedi buddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, cynyddu'r cyllid a roddir i amrywiaeth o sefydliadau ar gyfer hyrwyddo a diogelu'r iaith, ac wedi deddfu a darparu hawliau newydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg o ran darparu gwasanaethau—y ddeddfwriaeth gyntaf ar yr iaith Gymraeg ers dros 20 mlynedd.

The Welsh language faces two major problems, has had one great success and faces two great challenges. The first of its major problems is its relative decline in what were its heartlands. That is demonstrated by the decline in the number of communities where over 80% of the population speaks Welsh from 25 to 14 between 1991 and 2001. I do not know how many people expect it not to decrease further when we get the results of

Mae'r iaith Gymraeg yn wynebu dwy broblem fawr, mae wedi cael un llwyddiant mawr ac mae'n wynebu dwy her fawr. Y cyntaf o'i phroblemau mawr yw ei dirywiad cymharol yn ei chadarnleoedd hanesyddol. Dangosir hynny gan y dirywiad yn nifer y cymunedau lle mae dros 80% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg o 25 i 14 rhwng 1991 a 2001. Nid wyf yn gwybod faint o bobl sy'n disgwyl i'r nifer beidio â gostwng ymhellach

the 2011 census. In 2001, Gwynedd was the only county in Wales where over half the population lived in wholly Welsh-speaking households.

Migration is the second major problem for the Welsh language, as fluent Welsh speakers, such as Huw Edwards, leave Wales or move within Wales, often to Cardiff. The inward migration of non-Welsh speakers further reduces the number of Welsh speakers in an area.

The great success has been with Welsh in schools. We have seen a huge growth in Welsh-medium education, especially in more English-speaking regions. There has been continual growth. There has been huge growth in demand in Swansea; we have gone from one to two secondary schools in recent years and the number of primary schools has increased over a relatively short period of time, and a large number of children are attending them.

One of the problems that exist is that you study through the medium of Welsh from the age of three to 18, but when you move to university, there is a shortage of courses that are available through the medium of Welsh. The Welsh Government has already invested £6.5 million to support Welsh-medium higher education, which helps to increase the number of students able to study through the medium of Welsh. There were 5,330 students at Welsh higher education establishments who were experiencing some teaching through the medium of Welsh. Maybe I should declare an interest, in that I hope that my daughter will be going to university. She will have received all of her education through the medium of Welsh from three to 18 years of age, and taken every examination through the medium of Welsh, and I am sure that it will come as a great shock to her if she ends up going to a university where everything is taught through the medium of English. It is important that children get not only the opportunity to study Welsh or the odd subject through the medium of Welsh, but the opportunity to follow a broad curriculum at higher education through the medium of Welsh.

pan gawn ganlyniadau cyfrifiad 2011. Yn 2001, Gwynedd oedd yr unig sir yng Nghymru lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn byw mewn aelwydydd gyfan gwbl Gymraeg.

Mudo yw'r ail brif broblem ar gyfer yr iaith Gymraeg, wrth i siaradwyr Cymraeg rhugl, fel Huw Edwards, adael Cymru neu symud o fewn Cymru, yn aml i Gaerdydd. Mae mewnfudiad siaradwyr di-Gymraeg yn lleihau ymhellach nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal.

Cafwyd llwyddiant mawr o ran y Gymraeg mewn ysgolion. Rydym wedi gweld twf aruthrol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn rhanbarthau mwy Saesneg eu hiaith. Bu twf parhaus. Bu twf aruthrol yn y galw yn Abertawe; rydym wedi mynd o gael un ysgol uwchradd i gael dwy yn y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer yr ysgolion cynradd wedi cynyddu dros gyfnod cymharol fyr, ac mae nifer fawr o blant yn eu mynychu.

Un o'r problemau sy'n bodoli yw eich bod yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng tair oed a 18, ond pan fyddwch yn symud i brifysgol, mae prinder o ran nifer y cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi £6.5 miliwn i gefnogi addysg uwch cyfrwng Cymraeg, sy'n helpu i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n gallu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 5,330 o fyfyrwyr yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y dylwn ddatgan buddiant, gan fy mod yn gobeithio y bydd fy merch yn mynd i'r brifysgol. Bydd wedi cael ei holl addysg rhwng tair oed a 18 drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae wedi sefyll pob arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rwy'n siŵr y bydd yn dod yn sioc fawr iddi os bydd yn mynd i brifysgol lle mae popeth yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'n bwysig bod plant nid yn unig yn cael y cyfle i astudio'r Gymraeg neu rai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn cael cyfle i ddilyn cwricwlwm eang yn ystod eu haddysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

A national strategy for Welsh-medium education was launched by the Welsh Labour Government in 2010. The strategy, for the first time, sets a national strategic direction of travel for Welsh-medium and Welsh-language education. It also entails an implementation programme with specific targets for achieving improvements over the medium to long term. The strategy focuses on the way that Welsh-medium education is delivered, including the response to parental demands for Welsh-medium school places, which, I am pleased to say, has been rapidly increasing in places like Swansea. It encourages local authorities to work closely in partnership to improve Welsh-medium planning and provision. Also, as someone who went through primary education during the 1960s, I am hugely impressed by the amount of Welsh now used in non-Welsh-medium primary schools. Having visited two in two of the poorest areas in my constituency, I was very impressed by the number of children speaking Welsh who come from homes where Welsh would not be heard.

The challenges that we face are to provide and support opportunities for children in Welsh-medium schools to speak Welsh outside the classroom. That is why I raised the success of Twrw Tawe in Swansea with the First Minister earlier today. Too often, Welsh is seen as the language of school, but not of leisure for these young people, especially in our urban areas where the likelihood is that they will mix with children in the street who speak only English. That is important. The other thing that has hurt the Welsh language has been the decline in Welsh-medium chapels. We need to find some other social setting where speaking Welsh is the norm. Welsh-speaking chapels probably kept Welsh alive during its darkest days, but we do have a problem, as anyone who attends a Welsh-medium chapel will be aware, of substantial decline.

Finally, this speech has been wholly in English, because the Welsh language belongs

Lansiwyd strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Lafur Cymru yn 2010. Mae'r strategaeth, am y tro cyntaf, yn pennu cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys rhaglen weithredu gyda thargedau penodol ar gyfer sicrhau gwelliannau dros y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y ffordd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddarparu, gan gynnwys yr ymateb i alwadau gan rieni am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sydd, mae'n bleser gennyf ddweud, wedi bod yn cynyddu'n gyflym mewn lleoedd fel Abertawe. Mae'n annog awdurdodau lleol i weithio'n agos mewn partneriaeth i wella'r broses gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth ohono. Hefyd, fel rhywun a aeth drwy addysg gynradd yn ystod y 1960au, rwyf yn llawn edmygedd ynghylch faint o Gymraeg a ddefnyddir yn awr mewn ysgolion cynradd di-Gymraeg. Ar ôl ymweld â dwy ohonynt yn nwy o ardaloedd tlotaf fy etholaeth i, roeddwn yn falch iawn o weld faint o blant sy'n siarad Cymraeg er eu bod yn dod o gartrefi lle na fyddai'r Gymraeg yn cael ei chlywed.

Rydym yn wynebu'r her o ddarparu a chefnogi cyfleoedd i blant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Dyna pam y bu imi grybwyll llwyddiant Twrw Tawe yn Abertawe i'r Prif Weinidog yn gynharach heddiw. Yn rhy aml, mae'r Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith yr ysgol, ond nid fel iaith hamdden i'r bobl ifanc hyn, yn enwedig yn ein hardaloedd trefol lle mae plant yn debygol o gymysgu gyda phlant ar y stryd sy'n siarad Saesneg yn unig. Mae hynny'n bwysig. Y peth arall sydd wedi gwneud drwg i'r iaith Gymraeg yw'r dirywiad yn nifer y capeli cyfrwng Cymraeg. Mae angen i ni ddod o hyd i leoliad cymdeithasol arall lle mae Cymraeg yn cael ei siarad yn naturiol. Yn ôl pob tebyg, bu i gapeli Cymraeg eu hiaith gadw Cymraeg yn fyw yn ystod ei dyddiau tywyll, ond mae gennym broblem, fel y bydd unrhyw un sy'n mynychu capel cyfrwng Cymraeg yn gwybod, o ddirywiad sylweddol.

Yn olaf, bu'r araith hon yn gyfan gwbl yn Saesneg, gan fod yr iaith Gymraeg yn eiddo i

to us all, irrespective of our fluency, and I am still getting over the mistake that I made speaking Welsh last week. *[Laughter.]*

Alun Ffred Jones: Diolch am y cyfle i siarad a diolch i'r Gweinidog am ei eiriau caredig. Rwy'n dymuno'n dda iddo wrth weithredu'r strategaeth, ond mae'n rhaid inni fod yn gwbl onest â ni ein hunain wrth ymdrin â'r mater. Rwy'n meddwl y gallai Mike Hedges fod wedi bod ychydig yn fwy hael, a chydnabod y ffaith mai addewid maniffesto Plaid Cymru a sicrhodd y Mesur iaith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond rwy'n barod i gydnabod y cydweithio a fu o fewn y Llywodraeth ddiwethaf i sicrhau'r ddau beth hynny a'r strategaeth addysg.

Mae'r rhain yn ddyddiau gobeithiol ar un ystyr o ran y Gymraeg, sy'n un o ieithoedd hynaf Ewrop, wrth gwrs. Mae'r twf sylweddol ym maes addysg, yr oedd Mike Hedges yn cyfeirio ato, yn brawf o hynny, ac mae'r Gweinidog ei hun wedi cyfeirio at yr ewyllys da at yr iaith. Ond, nid yw ewyllys da yn mynd i sicrhau dyfodol iddi.

Mae'r rhain hefyd yn ddyddiau peryglus, ac mae cyfeiriad wedi'i wneud fwy nag unwaith at y ffaith bod yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol yn crebachu'n gyflym iawn. Rydym yn ofni y bydd y ffigurau yn y cyfrifiad nesaf yn waeth nag oeddynt yn ystod y cyfrifiad diwethaf. Felly, mae hi'n amser gweithredu ac, er fy mod yn gefnogol i'r strategaeth, rwyf am weld cynnydd yn y camau ymarferol sy'n digwydd i geisio cyrraedd y nod o weld rhagor o bobl yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Dyna, yn y pendraw, fydd y prawf o lwyddiant neu fethiant y strategaeth hon.

O ran y gwelliannau, mae ein gwelliant ni am weld cynnydd yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith, ac mae'r Prif Weinidog wedi cydnabod y pwysau sydd ar yr iaith yn ei chadarnleoedd. Mae ef ei hun wedi gweld y dirywiad hwnnw ym Mrynaman, sef ei bentref genedigol ef a'm pentref genedigol innau. Yn sylfaenol, mae'n rhaid i'r ardaloedd hyn gynnig cyfleoedd gwaith lle mae modd defnyddio'r Gymraeg. O dan y pwyntiau gweithredu rwy'n gweld y

ni i gyd, waeth pa mor rhugl ydym, ac rwy'n dal i ddod dros y camgymeriad a wneuthum o siarad Cymraeg yr wythnos diwethaf. *[Chwerthin.]*

Alun Ffred Jones: Thank you for the opportunity to speak and I thank the Minister for his kind words. I wish him well in implementing the strategy, but we have to be completely honest with ourselves in dealing with the matter. I think that Mike Hedges could have been a little more generous and acknowledged the fact that it was a Plaid Cymru manifesto commitment that secured the Welsh language Measure and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, but I am willing to acknowledge the co-operation that took place within the last Government to secure those two things as well as the education strategy.

These are hopeful days in one sense in terms of the Welsh language, which is one of Europe's oldest languages, of course. The significant growth in the field of education to which Mike Hedges referred is testament to that, and the Minister himself referred to the goodwill towards the language. However, goodwill alone will not secure its future.

These are also dangerous days, and reference has been made more than once to the fact that those areas where the Welsh language is the natural language of the community are shrinking very quickly. We fear that the figures in the next census will be worse than they were in the last census. Therefore, it is time to take action and, although I support the strategy, I want to see an increase in the practical steps taken to try to achieve the aim of seeing more people using the Welsh language on a daily basis. That, in the end, will be the proof of the success or failure of this strategy.

On the amendments, our amendment seeks to see an increase in the number of communities where the Welsh language is the main language, and the First Minister has recognised the pressures on the language in its heartlands. He has seen that deterioration himself in Brynaman, where we were both born. Fundamentally, these areas have to offer employment opportunities where it is possible to use the Welsh language. Among the action points, I see this sentence:

frawddeg hon:

‘Parhau i ymchwilio i’r cysylltiadau rhwng yr economi a’r iaith ac ymateb i’r cysylltiadau hynny’.

‘Continue to explore the links between the economy and the language and respond to those links.’

Popeth yn iawn, ond nid rhagor o ymchwil sydd ei angen ond gweithredu ymarferol ar y ddaear: llai o siarad a mwy o wneud.

That is fine, but it is not more research that we need, but practical action on the ground: less talking and more doing.

Rwy’n siomedig nad oes bwriad i greu ardaloedd datblygu iaith fel yr oedd yn y strategaeth ddrafft. Rhan o’r strategaeth wreiddiol oedd creu ardaloedd gweddol eang lle byddai gwahanol gyrff a mudiadau yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector preifat yn dod at ei gilydd i weld a oedd modd cynyddu’r cyfleoedd gwaith lle’r oedd dwyieithrwydd yn sgil pwysig i’r gweithlu. Dywedodd y Gweinidog, a bod yn deg iddo, mewn cyfweiliad ar ôl cyhoeddi’r strategaeth y byddai’r Llywodraeth yn ceisio cryfhau’r economi yn yr ardaloedd lle mae’r Gymraeg yn iaith ymarferol. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld dim yn y strategaeth hon sy’n dangos y bydd y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol nac yn cydlynu’r strategaeth o fewn adrannau eraill y Llywodraeth. Byddwn yn hoffi clywed y Gweinidog yn dweud rhywbeth am hynny wrth grynhoi.

I am disappointed that there is no intention to create the language development areas that were included in the draft strategy. Part of the original strategy was to create relatively broad areas where various organisations and institutions in the public sector, the third sector and the private sector could come together to see whether there was a way of increasing job opportunities where bilingualism would be an important skill for the workforce. To be fair to him, the Minister said in an interview after the publication of the strategy that the Government would try to strengthen the economy in the areas where the Welsh language is in daily use. However, I do not see anything in this strategy to show that the Government is going to take practical steps or co-ordinate the strategy within other Government departments. I would like to hear the Minister saying something about that in closing.

Mae cyfleoedd yn rhaglen deddfwriaeth y Llywodraeth hefyd. Hoffwn weld y Gymraeg yn rhan o ddeddfwriaeth yn y maes iechyd, er enghraifft, ac mae cyfleoedd yn y Bil treftadaeth ac yn benodol yn y Bil cynllunio. O ran y cynllunio, eto, mae cyfeiriad yn y strategaeth sydd yn dweud,

There are also opportunities in the Government’s legislative programme. I would like to see the Welsh language as part of legislation in the field of health, for example, and there are opportunities in the heritage Bill and in the planning Bill specifically. In terms of planning, again, there is a reference in the strategy that says,

‘Rydym wedi ymgynghori’n ddiweddar ynghylch newidiadau i *Nodyn Cyngor Technegol 20*’.

‘We have recently consulted on changes to *Technical Advice Note 20*’.

Digwyddodd yr ymgynghoriad hwnnw dros flwyddyn ôl a rydym yn dal i ddisgwyl datganiad gan y Gweinidog. Nid wyf yn gwybod pam bod oedi ar hyn o bryd. Dylai hynny ddod gerbron y Cynulliad rhag blaen. Nid oes esgus dros ymgynghori flwyddyn yn ôl a gwneud dim, oni bai bod y Llywodraeth yn bwriadu gwneud dim byd, wrth gwrs. Os oes cyfeiriad at hynny yn y strategaeth, rydym eisiau gweld gweithredu.

That consultation took place over a year ago and we are still awaiting a statement from the Minister. I have no idea why there is this delay. That should be brought before the Assembly as a matter of urgency. There is no excuse for consulting a year ago and doing nothing, unless the Government intends to do nothing, of course. If there is reference to that in the strategy, we want to see some action.

Yn olaf—pwynt sydd wedi ei wneud eisoes gan Aled Roberts—o ran y gyllideb, nid oes pwrpas cael cynllun a rhaglen waith os nad oes cyllideb gennych ar eu cyfer. Mae'n bwysig bod y Gweinidog dros y flwyddyn nesaf yn ceisio adnabod y gyllideb sydd ei hangen i weithredu'r cynlluniau hyn yn effeithiol, ac i ni gyrraedd y nod hwnnw o gynyddu nifer y siaradwyr a'r defnydd o'r iaith.

Mae'r Gweinidog wedi dechrau'n addawol, ond ymhen blwyddyn hoffem weld tystiolaeth bod y Llywodraeth yn gweithredu.

Keith Davies: Rwyf hefyd yn falch o gael cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma, ac i groesawu datganiad y Gweinidog. Wrth gwrs, byddaf yn cefnogi cynnig y Llywodraeth.

Rwy'n falch o ddweud bod cyfleoedd i mi ddefnyddio'r iaith wedi cynyddu o dan y Llywodraeth hon. Rwy'n siŵr y bydd y strategaeth hon yn arwain at fwy o gyfleoedd i bawb ddefnyddio'r iaith, wrth eu gwaith ac yn eu cymunedau. Mae'r gorllewin yn ardal Gymraeg traddodiadol ac, os nad ydych yn gwybod, yn ôl Wikipedia, Llanelli yw'r dref â'r mwyaf o siaradwyr iaith Geltaidd yn y byd. Y pwynt pwysig yw bod lefel uchel o falchder yn yr ardal ymhlith etholwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, rhaid i mi sôn, wrth sefydlu grŵp trawsbleidiol ar yr iaith Gymraeg cafwyd cefnogaeth fawr y tu mewn a thu allan i'r Cynulliad, ac rwy'n croesawu'r gefnogaeth i'r strategaeth hon.

Yn y strategaeth, mae tystiolaeth yn awgrymu bod teuluoedd â'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn dechnegol mwy tebygol o'i dysgu i'w plant. Yn naturiol, defnyddio'r iaith fwyaf cyfarwydd yw'r syniad, ond mae lle i wella yma, a rwy'n gobeithio y bydd y strategaeth yn cael effaith bositif. Fel y dywedodd y Dirprwy Lywydd yn gynharach y prynhawn yma, rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi hwb fel bod mwy o ddefnydd o'r iaith yn y cartref. Mae nifer sylweddol o deuluoedd heb unrhyw siaradwyr Cymraeg yn gefnogol yn barod, ac wedi penderfynu anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. Mae parhau i annog hyn a chynyddu darpariaeth dysgu i oedolion, er

Finally—it is a point that has already been made by Aled Roberts—in terms of the budget, there is no point in having a scheme and a work programme unless you have a budget for them. It is important that the Minister, over the next year, tries to identify the budget that is required to implement these plans effectively, and for us to achieve the aim of increasing the number of Welsh speakers and the use made of the language.

The Minister has made a promising start, but within a year we want to see evidence that the Government is taking action.

Keith Davies: I am pleased to have the opportunity to contribute to this afternoon's debate, and to welcome the Minister's statement. Of course, I will be supporting the Government's motion.

I am pleased to say that the opportunities for me to use the Welsh language have increased under this Government. I am sure that this strategy will lead to more opportunities for everyone to use the language, in work and in their communities. The west is traditionally a Welsh-speaking area and, if you do not know, according to Wikipedia, Llanelli is the town with the most speakers of a Celtic language in the world. The important point is that there is a great deal of pride in the area among constituents who do not speak Welsh. Also, I must mention, while establishing a cross-party group on the Welsh language, I have received a great deal of support from within and outwith the Assembly, and I welcome the support for this strategy.

In the strategy, evidence suggests that families where both parents speak Welsh are technically more likely to teach it to their children. Naturally, using the most familiar language is the idea, but there is room for improvement here, and I hope that the strategy will have a positive effect. As the Deputy Presiding Officer said earlier this afternoon, I hope that it will give a boost so that more use is made of the language in the home. A substantial number of families without any Welsh speakers are already supportive and have decided to send their children to Welsh-medium schools. It is important to continue to encourage this and

mwyn helpu'r rhieni hyn, yn bwysig. Bydd gwersi sylfaenol yn gwneud gwahaniaeth mawr, a chroesawaf y £6.8 miliwn ar gyfer rhaglen Cymraeg i oedolion a rwy'n gobeithio y bydd adeiladu ar hyn yn y dyfodol.

Rwy'n croesawu'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg hefyd. Cytunaf fod rhaid gwella'r cyflymder yn yr ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

5.00 p.m.

Croesawaf y 24 ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol ers 1997. Fodd bynnag, mae rhai rhieni o hyd, er enghraifft, ym Mhorth Tywyn, Llanelli, yn cael trafferth cael addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae angen sicrhau, fel y dywedodd Aled Roberts, fod y ddarpariaeth yn ymateb i'r galw. Dywed canllawiau'r Llywodraeth ar gyfer awdurdodau lleol bod angen asesiadau cynnar o'r galw, a chroesawaf y cynlluniau yn y Bil safonau a threfniadaeth ysgolion i roi'r asesiadau ar lefel ddeddfwriaethol.

Plant a phobl ifanc sydd â dyfodol yr iaith yn eu dwylo, ac mae angen cyfuno defnydd yr iaith yn yr ysgol ac yn gymdeithasol. Ar y nodyn hwn, hoffwn longyfarch yr Urdd ar ddatlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Bydd pawb yn gyfarwydd ag eisteddfodau'r Urdd; cefnogir yr eisteddfod genedlaethol gan awdurdodau lleol o bob rhan o Gymru. Cynigir nifer o weithgareddau a chystadleuthau gan yr Urdd. Er enghraifft, cynhaliwyd gŵyl rygbi genedlaethol yn Llanelli, lle bu 152 o dimau'n cymryd rhan. Dengys ymchwil yr Urdd bod plant yn falch o'r iaith a'u bod eisiau gweld mwy o weithgareddau lleol cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd fforwm Urdd sir Gâr yn 2010 er mwyn iddynt gael llais, a chreuwyd cyswllt ffurfiol ag adran arddegau'r cyngor sir. Dangoswyd fod pobl ifanc yn awyddus i drafod yr iaith.

